Gorffennaf 2023

Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2022–23

## Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2023

HC 1356

Ofwat

Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2022-23

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2023

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag adran 192B Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan adran 38 Deddf Dŵr 2003)

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 19 Gorffennaf 2023
HC 1356

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle’r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov. uk.

ISBN 978-1-5286-4178-4

E02925702 07/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys


6
**Rhan 1**
Ein hadroddiad perfformiad

47
**Rhan 2**
Ein hadroddiad atebolrwydd

105
**Rhan 3**
Datganiadau ariannol

127
**Rhan 4**
Atodiadau

# Rhan 1

## Ein hadroddiad perfformiad

# Trosolwg

Mae ein hadroddiad perfformiad yn crynhoi'r canlyniadau rydym yn anelu atynt, y gwaith rydym wedi'i gyflawni, a pherfformiad y sector dŵr o ran cyflawni ar gyfer cwsmeriaid.

## Diben a gweithgareddau

Rydym am i'r sector dŵr wella bywyd drwy ddŵr ar gyfer cwsmeriaid heddiw, a chwsmeriaid y dyfodol. Golyga hyn:

- ysgogi'r canlyniadau gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd tra'n cadw biliau'n fforddiadwy;
- gweithredu i sicrhau bod cwmnïau yn cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau gwytnwch hirdymor; a
- diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gyda sector sy'n parhau i fod yn ddeniadol i fuddsoddwyr.

Mae ein strategaeth, Amser i weithredu, gyda'n gilydd, yn egluro sut yr ydym yn ysgogi cynnydd yn y meysydd hyn.

Rydym yn rheoleiddio'r diwydiant drwy ddefnyddio amrywiaeth o offer, gan gynnwys ein hadolygiadau prisiau a gynhelir bob pum mlynedd. Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau i gyflawni'r dyletswyddau a nodir mewn deddfwriaeth ac yn unol â'r blaenoriaethau a bennwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

## Perfformiad o gymharu â blaenraglen 2022-23

Rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn erbyn ein strategaeth, gan gyflawni bron yr holl gerrig milltir a nodir yn ein Blaenraglen 2022-23 (gweler Atodiad A1). Mae bron yr holl bethau eraill wedi'u cyflawni neu ar y trywydd iawn.

Yn dilyn ymgynghoriad yn gynharach eleni, rydym wedi cyhoeddi ein Blaenraglen 2023-24, sy'n nodi ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

## Materion a risgiau allweddol

Mae gennym strategaeth ar gyfer rheoli ac ymateb i risgiau a chyfleoedd sy'n gyson â Llyfr Oren Trysorlys EM: Rheoli risg – egwyddorion a chysyniadau. Yn unol â'i egwyddorion, mae rheoli risg a chyfle wedi ei wreiddio ar draws ein sefydliad.

Mae ein datganiad llywodraethu ar dudalen 51 yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein rheolaeth risgiau.

## Sail busnes gweithredol

Rydym wedi mabwysiadu sail busnes byw ar gyfer paratoi'r cyfrifon hyn, fel y nodir yn nodyn 1.14 ar dudalen 113.

# Rhagair y Cadeirydd



Mae Ofwat yn cydnabod yr heriau y mae'r sector yn eu hwynebu ac yn cymryd camau â ffocws. Er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, twf poblogaeth a threfoli cynyddol, mae angen i gwmnïau dŵr gynnal rhaglen barhaus a sylweddol o brosiectau buddsoddi cymhleth a hirfaith, yn ogystal â gwella perfformiad eu systemau trin dŵr gwastraff i leihau eu heffaith amgylcheddol.

Mae hyn yn golygu y bydd angen i gwmnïau dŵr newid sut y maent yn gweithredu - meithrin gallu a chapasiti, o fewn eu sefydliadau ac yn y gadwyn gyflenwi, i ymgymryd â gweithgareddau buddsoddi mewn seilwaith gweithredol, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy a chadarn i filiynau o gartrefi a busnesau.

Ac, ar yr un pryd, mae cymdeithas yn gwbl briodol yn mynnu lefel uwch o gyfrifoldeb gan y cwmnïau dŵr y mae Ofwat yn eu rheoleiddio. Oherwydd hyn, mae pobl yn disgwyl i Ofwat wneud mwy i ysgogi perfformiad effeithlon ac effeithiol; sicrhau bod cwmnïau dŵr yn deall ac yn rheoli eu hasedau yn briodol; a bod ffocws ar gynllunio a chyflawni hirdymor.

Dros y 12 mis diwethaf, mae Ofwat wedi bod yn newid – gan gryfhau ei alluoedd ym meysydd gorfodi, rheoli perfformiad cwmnïau, cynllunio a chyflawni. O ganlyniad i newidiadau naturiol ymhlith rhai o'n cyfarwyddwyr gweithredol, rydym wedi achub ar y cyfle i adnewyddu ac ad-drefnu'r tîm arwain. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau mwy o gydweithio ymhlith y gymuned reoleiddio – gyda'n cymheiriaid yn Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Wrth symud ymlaen, byddwn yn ceisio adeiladu ar y Gynghrair Rheoleiddwyr ar gyfer Datblygiad Seilwaith (RAPID) llwyddiannus fel ffordd o gydweithio i hwyluso'r broses o ddarparu buddsoddiad y mae mawr ei angen. Rydym hefyd yn croesawu Cynllun Dŵr Defra sy'n darparu proses integredig ar gyfer symleiddio a gwella rheoleiddio ar draws sawl elfen o'r diwydiant.

Yn olaf, ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i'm rhagflaenydd – Jonson Cox – am baratoi'r tir ar gyfer y newidiadau yr ydym nawr yn eu rhoi ar waith. Hoffwn hefyd ddiolch i'n uwch gyfarwyddwyr sy'n gadael, Aileen Armstrong, John Russell a Claire Forbes, sydd wedi bod yn rhannau allweddol o daith Ofwat, yn enwedig wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad prisiau sydd i ddod, wrth ddatblygu elfennau allweddol o strategaeth ehangach Ofwat ac wrth gyflawni ein strategaethau ymgysylltu a chyfathrebu.

**Iain Coucher**
**Cadeirydd**

# Rhagymadrodd y Prif Weithredwr

Mewn blwyddyn lle mae dŵr a dŵr gwastraff wedi wynebu sylw digynsail, rydym wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r problemau uniongyrchol sy'n wynebu'r sector a galluogi atebion hirdymor i heriau parhaus.

Roedd ein hadroddiad perfformiad cwmnïau dŵr, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yn rhoi darlun clir o berfformiad. Er bod rhai meysydd o gynnydd, megis lleihau gollyngiadau a chyflawni ymrwymiadau perfformiad iechyd asedau, roedd gormod o feysydd lle mae angen gwneud llawer mwy. Gwnaethom hefyd nodi cwmnïau y mae angen iddynt gymryd camau i wella eu gwytnwch ariannol yn ein hadroddiad monitro gwytnwch ariannol. Rydym wedi gweithredu, er enghraifft drwy wthio cwmnïau i wneud ymrwymiadau ar unwaith i wella ansawdd afonydd, a thrwy ein hachosion agored i chwe chwmni dŵr gwastraff, tra'n cadw'r sector ehangach dan ymchwiliad.

Ers diwedd y flwyddyn, bu cryn bwyslais ar berfformiad a chadernid ariannol Thames Water yn benodol. Rydym wedi bod yn glir bod gan Thames Water faterion sylweddol i fynd i'r afael â hwy a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r cwmni yn y misoedd i ddod wrth inni osod y lwfans refeniw a'r pecynnau gwasanaeth ar draws y sector ar gyfer 2025-30. Yn fwy cyffredinol, rwy'n falch ein bod wedi gweld dros £2 biliwn o ecwiti newydd yn cael ei fuddsoddi yn y sector ers 2020, wrth i gwmnïau geisio gwella eu gwytnwch ariannol a thwf cyllid yn eu sylfaen asedau.

Mae ymddiriedaeth yn y sector wedi'i lleihau gan berfformiad gwael a'r methiant ymddangosiadol i ddangos y cysylltiad rhwng perfformiad a difidendau a chyflogau swyddogion gweithredol. Rwy'n falch ein bod bellach wedi gweithredu addasiadau i drwyddedau cwmnïau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gysylltu difidendau'n uniongyrchol â pherfformiad ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd. Rydym hefyd yn tynhau'r gofynion ar gwmnïau i gysylltu perfformiad â chyflogau swyddogion gweithredol.



Roedd ein ffocws hefyd ar fynd i'r afael â heriau tymor hwy sy'n gofyn am atebion parhaus a chydweithredol. Mae cydweithredu ar draws rheoleiddwyr drwy RAPID yn galluogi atebion ar gyfer trosglwyddo dŵr a materion adnoddau dŵr eraill. Mae ein methodoleg PR24, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yn rhoi fframwaith ar gyfer cynllunio hirdymor, o fewn a thu hwnt i'r cylch pum mlynedd, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau wneud ymrwymiadau amgylcheddol newydd, lleihau achosion o lygredd a defnyddio gorlifau stormydd, gwella bioamrywiaeth a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Ategir hyn oll gan ein cefnogaeth barhaus i arloesi a data agored.

Er gwaethaf y lefelau uchel o graffu a her, rwy'n falch o'r ffordd y mae ein pobl wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad i wneud gwahaniaeth i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Hoffwn ddiolch i dîm ehangach Ofwat, ac i'r holl gwsmeriaid dŵr a rhanddeiliaid sydd wedi cymryd yr amser eleni i weithio gyda ni, a rhannu eu mewnwelediad a'u harbenigedd.

**David Black**
**Prif Weithredwr**

# Ein perfformiad yn 2022-23 – crynodeb

Ofwat yw rheoleiddiwr economaidd annibynnol y sector dŵr. Ein rôl yw galluogi cwmnïau i ddarparu, a'u dal yn atebol am, y gwasanaethau gorau oll ar gyfer cwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol. Rydym hefyd yn goruchwylio'r marchnadoedd yn y sector dŵr i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio i gwsmeriaid.

Rydym am wneud y cyfraniad mwyaf posibl i wella bywyd drwy ddŵr. Mae ein llwyddiant yn cael ei fesur gan sut rydym yn ysgogi ac yn llywio'r canlyniadau a gyflawnir gan gwmnïau. Drwy ein hadolygiadau prisiau, rydym yn gosod disgwyliadau clir o'r hyn y dylai cwmnïau ei gyflawni dros gyfnod o bum mlynedd, gan eu hariannu i fodloni eu cyfrifoldebau. Yn adolygiad prisiau 2019, fe wnaethom osod targedau ymestynnol ond cyraeddadwy ar gyfer perfformiad cwmnïau yn ystod 2020-25. Mae data perfformiad o 2021-22, y cyfnod diweddaraf y mae gennym ganlyniadau blwyddyn lawn ar ei gyfer, yn datgelu rhywfaint o gynnydd a meysydd lle mae angen mwy o waith.

Nid ydym yn gweithio ar wahân ar ein pen ein hun. Mae ein hadroddiad perfformiad yn egluro'r berthynas rhwng y blaenoriaethau sy'n llywio ein gwaith: datganiadau polisi strategol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y nodau a osodwyd gennym i'n hunain, a'r canlyniadau i gwsmeriaid ac amgylcheddol a ddarperir gan gwmnïau dŵr.

Gwnaethom nodi ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf (2022-23) yn erbyn ein tri nod strategol a'n canlyniadau cwsmeriaid.

Wrth gyflawni yn erbyn ein nodau a phob un o'r canlyniadau cwsmeriaid hyn, rydym wedi helpu i hybu'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol a bennwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn eu datganiadau polisi strategol. Datganiadau yw'r rhain sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol Ofwat wrth iddo gyflawni swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Lloegr a Chymru yn yr un drefn o dan adran 2A ac adran 2B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Rydym hefyd yn dylanwadu ar ymddygiad cwmnïau drwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol eraill o reoleiddio, i sicrhau bod y sector yn bodloni'r safonau gofynnol ac yn addasu i heriau newydd. Pan nad yw cwmnïau'n cyrraedd y safonau uchel yr ydym ni a chwsmeriaid yn eu disgwyl ganddynt, rydym yn ymyrryd.

Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn dangos y berthynas rhwng:

- ein dyletswyddau a'n swyddogaethau;
- ein nodau; a
- y canlyniadau rydym am eu cyflawni ar gyfer cwsmeriaid (yn sgil datganiadau blaenoriaeth strategol llywodraethau'r DU a Chymru sydd mewn grym yn ystod y flwyddyn).

## Dylanwadau ar ganlyniadau i gwsmeriaid dŵr

### Ffactorau sy'n llywio ein gwaith fel rheoleiddiwr economaidd annibynnol y sector dŵr

Datganiadau blaenoriaeth strategol (SPS)

Dyletswyddau a swyddogaethau statudol

Arbenigedd rheoleiddio

Monitro'r sector

**Ein nodau**

Trawsnewid perfformiad cwmnïau dŵr

Ysgogi cwmnïau dŵr i ymateb i heriau hirdymor drwy ragor o gydweithredu a phartneriaethau

Cwmnïau dŵr i ddarparu gwell gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol

**Mae ein gwaith yn dylanwadu ar sut mae cwmnïau dŵr yn gweithredu**

**Allbynnau a chanlyniadau i gwsmeriaid a'r amgylchedd**

| Amcanion SPS Cymru | Ein canlyniadau i gwsmeriaid | Amcanion SPS Defra |
|---|---|---|
| Ffocws cwsmer cryf<br>Fforddiadwyedd<br>Arloesedd<br>Marchnadoedd a chystadleuaeth lle bo'n briodol | Gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy, gwydn, diogel ac o ansawdd da<br>Gwerth am arian i gwsmeriaid, cadw biliau'n fforddiadwy | Diogelu cwsmeriaid<br>Gwneud i farchnadoedd weithio |
| Gwytnwch<br>Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy | Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol | Sicrhau gwytnwch hirdymor |
| Fforddiadwyedd a gwytnwch hirdymor | Cwmnïau yn gweithredu er budd hirdymor cymdeithas a'r amgylchedd | |

# Cipolwg ar 2022-23

### Ebrill 2022

- Enillodd wyth cais yn yr ail Her Torri Trwodd Dŵr gyfran o £20 miliwn i archwilio arloesedd mewn data agored, dal carbon a chefnogi cwsmeriaid bregus.
- Cwblhawyd cysylltiad mawr olaf Twnnel Thames Tideway rhwng Greenwich a Bermondsey, a'r gwaith tuag at Orsaf Bwmpio Abbey Mills.
- Gwnaed David Black yn Brif Weithredwr parhaol Ofwat.

### Mai

- Canfu ymchwil cwsmeriaid ar y cyd â CCW fod y rhan fwyaf o gwsmeriaid yn fodlon â gwasanaethau cwmnïau dŵr, ond bod llifogydd o garthffosydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar gwsmeriaid.
- Cyhoeddodd RAPID gymeradwyaeth i'r cam nesaf ar gyfer dau opsiwn adnoddau strategol ar lwybr carlam i fynd i'r afael â'r diffyg adnoddau dŵr yn Hampshire, a derbyniodd ddau ateb newydd i'r rhaglen.
- Lansiwyd StreamLine, gwasanaeth newydd a ddarperir gan Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, i helpu arloeswyr i lywio rhwystrau rheoleiddiol.
- Mae canllawiau talu'n deg yn nodi egwyddorion ar gyfer cwmnïau dŵr i gefnogi cwsmeriaid preswyl ledled Cymru a Lloegr i dalu biliau, cael cymorth ac ad-dalu dyledion.
- Cyhoeddwyd mai Iain Coucher yw Gadeirydd newydd Ofwat, gan gymryd lle Jonson Cox.

### Mehefin

- Agorwyd chweched achos gorfodi, yn erbyn South West Water, fel rhan o'n hymchwiliad parhaus i sut mae cwmnïau'n rheoli eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff.

### Gorffennaf

- Cyhoeddwyd methodoleg ddrafft PR24.
- Cadarnhawyd cystadleuaeth mynediad agored newydd i arloeswyr.

### Awst

- Gosododd cynllun lleihau gorlifau stormydd Defra dargedau i gwmnïau dŵr fynd i'r afael â gollyngiadau carthion erbyn 2050.
- Canfu ein chweched arolwg iechyd a lles bod 74% yn ystyried cefnogaeth Ofwat i iechyd a lles yn dda neu dda iawn.
- Agorodd swyddfa Llundain newydd Ofwat yn Canary Wharf, gan rannu safle gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil.

### Medi

- Dangosodd C-MeX, sef mesuriad cwsmeriaid preswylio brofiad a boddhad â'u cwmni dŵr, mai dim ond South Staffs Water wnaeth wella ar ei sgôr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (2021-22). Y perfformwyr gorau ar D-MeX, y mesur o brofiad ar gyfer cwsmeriaid sy'n datblygu, oedd Hafren Dyfrdwy, Dŵr Hafren Trent a Portsmouth Water.

### Hydref

- Ymunodd 11 o raddedigion ag Ofwat. Roedd y proffiliau rhyw (40% gwrywaidd, 60% benywaidd) ac ethnigrwydd (40% Gwyn, 60% lleiafrifol) yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI). Gwnaethom weithio mewn partneriaeth â phrifysgolion MillionPlus i dargedu recriwtio o brifysgolion Cymru a mwy o brifysgolion Canolbarth Lloegr lleol yn Birmingham.
- Ymrwymodd Yorkshire Water i adennill benthyciadau rhwng grwpiau gwerth bron i £1 biliwn i wella ei wytnwch ariannol a setlo'r achos gorfodi a ddygwyd gennym yn ei erbyn.

### Tachwedd

- Dangosodd adroddiad cynnydd blynyddol RAPID 2021-22 gynnydd o ran sicrhau gwytnwch dŵr.
- Derbyniodd Transform, ffrwd gwerth uwch yr Her Torri Trwodd Dŵr, 10 cais gan 6 chwmni dŵr, gan ddod i gyfanswm o £66 miliwn.
- Cadarnhaodd penderfyniadau terfynol ar gyfer cymhellion cyflawni canlyniadau yn y cyfnod y bydd 11 cwmni yn dychwelyd £132 miliwn i gwsmeriaid drwy filiau is yn 2023-24.
- Amlygodd ein hadroddiad perfformiad cwmnïau Dŵr berfformiad gwael gan chwe chwmni oedd ar ei hôl hi (Northumbrian Water, Southern Water, South West Water, Thames Water, Dŵr Cymru a Yorkshire Water) a gofynnwyd iddynt ddarparu cynlluniau gweithredu yn dangos sut y maent yn bwriadu gwella eu perfformiad.

### Rhagfyr

- Dangosodd ein hadroddiad Monitro gwytnwch ariannol blynyddol fod nifer o gwmnïau wedi cryfhau eu gwytnwch ariannol, wedi'i ysgogi'n rhannol gan ein hymyrraeth.
- Daeth ein rhaglen i adolygu, symleiddio a safoni trafodion dwyochrol yn y farchnad manwerthu busnes i ben, y bydd MOSL yn ei rhoi ar waith.
- Bydd ein penderfyniad terfynol ar newidiadau i gapiau prisiau manwerthu yn galluogi manwerthwyr effeithlon i ennill elw teg, tra'n cefnogi sefydlogrwydd hirdymor y farchnad manwerthu busnes.
- Wedi cwblhau 83% o Dwnnel Thames Tideway.
- Mae ein methodoleg derfynol ar gyfer adolygiad prisiau 2024 yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer cynlluniau busnes cwmnïau.

### Ionawr 2023

- Roedd ein cynhadledd, 'Press Go – resetting the water sector and rebuilding trust in a crisis', yn trafod sut y gallai'r sector gefnogi cwsmeriaid a'r amgylchedd yn well.
- Lansiodd Cronfa Arloesi Ofwat gystadleuaeth agored gwerth £4 miliwn i wobrwyo arloeswyr allanol sydd ag atebion beiddgar ar gyfer y sector dŵr.

### Chwefror

- Wedi'r mis Chwefror sychaf ers 30 o flynyddoedd, gwnaethom annog cwmnïau dŵr i wella eu cynlluniau rheoli adnoddau dŵr terfynol er mwyn sicrhau gwasanaethau dŵr dibynadwy ar gyfer y dyfodol.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i EDI, fe wnaethom gyflwyno cyfweliadau tryloyw, sy'n golygu ein bod yn rhannu rhai cwestiynau cyfweliad gydag ymgeiswyr ymlaen llaw.
- Gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i addasu trwyddedau cwmnïau i'n galluogi i atal cwmnïau rhag talu difidendau pe byddent yn peryglu gwytnwch ariannol, neu lle nad yw taliadau difidend wedi'u cysylltu'n ddigonol â pherfformiad.

### Mawrth

- Dyfarnodd Portsmouth Water gontract gwerth £167 miliwn i Future Water MJJV Limited i adeiladu'r gronfa ddŵr fawr newydd gyntaf ers dros dri degawd, yn Havant Thicket yn Hampshire.
- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 'Eich dŵr, eich llais', gan alluogi cwsmeriaid a rhanddeiliaid i gwestiynu a herio cynlluniau cwmnïau dŵr yn y dyfodol mewn cyfarfodydd cyhoeddus ar-lein.

# Y sector dŵr dan bwysau

## Cefndir: yr haf sych yn 2022

Roedd cyfansymiau glawiad mis Awst yn amrywio o 61% o'r cyfartaledd hirdymor yn nwyrain Lloegr i 40% yng ngogledd-ddwyrain a de-orllewin Lloegr

Gosododd chwe chwmni dŵr waharddiadau dros dro ar ddefnyddio pibellau dŵr

Ledled Lloegr, roedd bron pob afon yn is na'r lefelau arferol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn, gyda rhai yn eithriadol o isel

Roedd y rhan fwyaf o gronfeydd cyflenwi dŵr yn nodedig o isel ar gyfer yr amser o'r flwyddyn, wedi'i waethygu gan alw uchel gan gwsmeriaid. Erbyn diwedd mis Awst, roedd stociau cronfeydd dŵr ar 58% o gapasiti

Roedd lefelau dŵr daear yn normal neu'n is na'r arfer ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn, gyda dyfrhaenau sialc yn ne Lloegr yn is na'r arfer ac yn eithriadol o isel

Dywedodd pob cwmni fod mwy o ollyngiadau oherwydd symudiad pridd a galw mawr

Cynyddodd y pwysau ar y sector dŵr a'i reoleiddwyr yn yr haf sych a'r sychder dilynol, ynghyd â chynnydd mewn gollyngiadau a phryderon parhaus am lygredd carthffosiaeth. Roedd ffocws o'r newydd ar wytnwch ein cyflenwadau dŵr, gwariant ar seilwaith, a phryderon am wytnwch ariannol cwmnïau a chyflogau swyddogion gweithredol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar gynllunio ar gyfer yr haf hwn, gan gydnabod y risgiau a allai ddeillio o gyfnod parhaus o lawiad is, ac ystyried pa ymyriadau cynnar, pellach sydd eu hangen i wrthsefyll sychder i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o dywydd sych parhaus yr haf hwn.

Croesawyd Cynllun Dŵr Defra, sy'n nodi cynllun integredig ar gyfer darparu dŵr glân a digonedd ohono, a'i gefnogaeth i reoleiddiad y sector gyda phwerau cryfach i reoleiddwyr a chydweithio.

Cyhoeddodd Defra ei gynllun lleihau gollyngiadau gorlifau stormydd terfynol ym mis Awst. Mae'r cynllun yn nodi targedau newydd a phenodol i gwmnïau dŵr fynd i'r afael â gollyngiadau dŵr gwastraff erbyn 2050, gydag amcangyfrif y gost yn £56 biliwn dros 25 mlynedd. Erbyn 2035, bydd yn rhaid i gwmnïau dŵr wella'r holl orlifau stormydd sy'n gollwng i mewn neu'n agos at bob dŵr ymdrochi dynodedig, a gwella 75% o'r gorlifau sy'n gollwng i safleoedd natur â blaenoriaeth uchel. Erbyn 2050, bydd hyn yn berthnasol i'r holl orlifau stormydd sy'n weddill a gwmpesir gan y targedau, waeth beth fo'u lleoliad.

Ym mis Mehefin 2022 gwnaeth yr 11 cwmni dŵr gwastraff ymrwymiadau cyhoeddus uchelgeisiol yn eu cynlluniau gweithredu ansawdd dŵr afonydd i leihau'r defnydd o orlifau stormydd erbyn 2025, cynyddu gwaith monitro a gwella tryloywder dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Diweddarwyd yr ymrwymiadau hyn ar gyfer cwmnïau dŵr gwastraff yn Lloegr yng nghynllun lleihau gollyngiadau gorlifau stormydd Defra ym mis Awst 2022.

**Dŵr Cymru**

Gwella 420km o afonydd i gyflawni statws 'ecolegol da' erbyn 2025.

**Northumbrian Water**

Lleihau gollyngiadau i gyfartaledd o 20 y flwyddyn, a dileu rhwystrau gweithredol i afonydd gyflawni statws ecolegol da.

**Yorkshire Water**

Lleihau gollyngiadau gan 20% yn erbyn gwaelodlin 2021
Lleihau effaith gorlifau stormydd a gweithfeydd trin carthion erbyn 2030.

**Hafren Dyfrdwy**

Sicrhau nad yw gorlifau stormydd a gweithfeydd trin carthion yn gwneud niwed i afonydd.

**United Utilities**

Lleihau gollyngiadau gan 33% yn erbyn gwaelodlin 2020, a lleihau effaith gorlifau stormydd a gweithfeydd trin carthion erbyn 2030.

**Thames Water**

Lleihau hyd amser gollyngiadau gan 14% yn erbyn gwaelodlin 2020, a lleihau gorlifau stormydd gan 50% erbyn 2030 yn erbyn gwaelodlin 2020.

**Dŵr Hafren Trent ac Anglian Water**

Lleihau gollyngiadau i gyfartaledd o 20 y flwyddyn, a sicrhau nad yw gorlifau stormydd a gweithfeydd trin carthion yn gwneud niwed i afonydd erbyn 2030.

**Southern Water**


Lleihau gollyngiadau i gyfartaledd o 18 y flwyddyn, a lleihau gorlifau stormydd gan 80% erbyn 2030.

**Wessex Water**

Lleihau hyd amser gollyngiadau gan 25% yn erbyn gwaelodlin 2020, a lleihau effaith gorlifau stormydd a gweithfeydd trin carthion erbyn 2030.

**South West Water**

Lleihau gollyngiadau i gyfartaledd o 20 y flwyddyn, lleihau effaith ar afonydd gan 33% erbyn 2025, a thargedu dim niwed erbyn 2030.



# Gwaith Ofwat – penawdau fesul nodau

Mae ein gwaith yn dwyn cwmnïau dŵr i gyfrif ac yn eu cefnogi i gyflawni canlyniadau sydd o fudd i gwsmeriaid, yr amgylchedd a gwytnwch hirdymor y sector dŵr.

## Nod 1

**Trawsnewid perfformiad cwmnïau dŵr**

tudalen 17

- Cyflawni ar gyfer cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol – ein hadolygiad prisiau nesaf
- Sicrhau bod biliau yn fforddiadwy
- Buddsoddi ar gyfer y dyfodol
- Ymchwiliad i reolaeth gweithiau trin dŵr gwastraff
- Hyrwyddo marchnad manwerthu mwy effeithiol
- Gweithio i ddod â'r trallod o lifogydd o garthffosydd i ben
- Cefnogi data agored er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd

## Nod 2

**Ysgogi cwmnïau dŵr i ymateb i heriau hirdymor drwy ragor o gydweithredu a phartneriaethau**

22

- Creu partneriaethau i symleiddio arloesedd
- Gwella'r amgylchedd ac ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd
- Cynnydd RAPID ar wytnwch dŵr
- Annog arloesi drwy gystadleuaeth
- Cryfhau cydweithio yng Nghymru

## Nod 3

**Cwmnïau dŵr i ddarparu gwell gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol**

27

- Deall cwsmeriaid yn well drwy ymchwil
- Cefnogi pob cwsmer preswyl i dalu eu biliau dŵr
- Cryfhau ffocws cwmnïau dŵr ar gwsmeriaid
- Treialu strwythurau codi tâl cartrefi newydd
- Gwella gwytnwch ariannol
- Gweithredu pellach ar dâl swyddogion gweithredol
- Cymell cwmnïau dŵr i gyflawni ar sero net

# Nod 1: Trawsnewid perfformiad cwmnïau dŵr

1

## Cyflawni ar gyfer cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol – ein hadolygiad prisiau nesaf

Fe wnaethom barhau i weithio ar ein hadolygiad prisiau nesaf (PR24), a fydd yn gosod terfynau prisiau ar gyfer 2025–30.

Mae gennym bedwar uchelgais allweddol ar gyfer PR24:

- ffocws cynyddol ar yr hirdymor;
- sicrhau gwell gwerthcymdeithasol ac amgylcheddol;
- adlewyrchu dealltwriaeth gliriach o gwsmeriaid a chymunedau;
- ysgogi gwelliannau drwy effeithlonrwydd ac arloesedd.

Gwnaethom ymgynghori ar ein methodoleg ddrafft ym mis Gorffennaf a chyhoeddwyd y fethodoleg derfynol ym mis Rhagfyr.

Bydd y fethodoleg yn arwain cwmnïau dŵr i ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwell i gwsmeriaid a'r amgylchedd wrth iddynt ddrafftio eu cynlluniau busnes.

### Elfennau allweddol fframwaith PR24

Ymrwymiadau amgylcheddol newydd, gan gynnwys ar y defnydd o orlifau stormydd, gwella bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr ymdrochi, a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr

Cymell cwmnïau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, ac i gynnal a gwella iechyd eu hasedau

Disgwyliadau clir i gwmnïau fynd i'r afael â'r her hirdymor o sicrhau adnoddau dŵr digonol, drwy leihau gollyngiadau a defnydd dŵr a chynyddu cyflenwad dŵr. Bydd cronfa newydd o hyd at £100 miliwn yn ysgogi dulliau newydd o sicrhau effeithlonrwydd dŵr

Rhoi barn cwsmeriaid wrth galon y broses, gyda phob cwmni'n cynnal ymchwil cwsmeriaid cadarn a chynnal dau gyfarfod cyhoeddus yn 2023

Mwy o ddefnydd o farchnadoedd lle gallant roi gwell gwerth i gwsmeriaid drwy leihau costau tra'n cynnal safon, gan gynnwys sut y caiff prosiectau buddsoddi mawr eu caffael, ac yng ngweithrediad y marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau datblygwyr a bioadnoddau

Cymhellion i gwmnïau fod yn fwy effeithlon ac arloesol, gan gynnwys drwy Gronfa Arloesedd gwerth £300 miliwn

Disgwyliadau clir ar bolisïau difidend a chyflogau swyddogion gweithredol cwmnïau, gyda mesurau ychwanegol ar dâl cysylltiedig â pherfformiad i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid os na chaiff y disgwyliadau hyn eu bodloni

**3.29%**

Golwg gynnar ar yr elw a ganiateir ar gyfer PR24

Bydd y cwmnïau dŵr yn cyflwyno eu cynlluniau busnes ym mis Hydref 2023. Bydd y rhain yn nodi'r buddsoddiad sydd ei angen arnynt i gyflawni eu strategaethau cyflawni hirdymor. Bydd yn rhaid i'r cwmnïau ystyried fforddiadwyedd eu cynlluniau, cyflawni prosiectau buddsoddi yn effeithlon a chydbwyso buddiannau cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol. Bydd cwsmeriaid yn cael rhoi barn wrth lunio cynllun busnes eu cwmni dŵr drwy gyfarfodydd her agored 'Eich dŵr, eich llais', a ddechreuodd ym mis Mawrth. Cefnogir yr ymgysylltiad rhanddeiliaid sydd ei angen arnom fel rhan o'r broses gan CCW a gwnaethom benodi cadeirydd annibynnol, Kevin Johnson o Urban Communications, i oruchwylio'r broses hon.

Ddwy flynedd cyn ein penderfyniadau terfynol yn PR24, rhoesom olwg gynnar ar yr elw a ganiateir, sef 3.29% (mewn termau CPIH real).

Mae hyn yn rhoi darlun cliriach i gwmnïau a buddsoddwyr o'r hyn a ystyriwn yn gyfradd elw resymol yn PR24. Mae hyn yn uwch na'r adenillion a ganiateir a osodwyd yn PR19, gan adlewyrchu newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae ein dull yn unol â methodoleg UKRN ar osod cost cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.

Ym mis Mawrth fe wnaethom benodi consortiwm dan arweiniad PwC, sy'n cynnwys Mott MacDonald, CEPA a Gridlines, i'n helpu i gyflawni adolygiad prisiau 2024.

## Sicrhau bod biliau'n fforddiadwy

Yn 2022-23 cynyddodd biliau dŵr a charthffosiaeth cyfun cwsmeriaid gan 2% ar gyfartaledd, neu tua £8. Ym mis Chwefror, cyhoeddodd cwmnïau dŵr gynnydd mewn biliau dŵr, a oedd ar gyfartaledd yn 7.5%, neu £31.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, cynyddodd y bil dŵr cyfartalog gan lai na lefel chwyddiant, er bod amrywiad rhwng cwmnïau dŵr ledled Cymru a Lloegr. Ar gyfer 2023-24, yr addasiad chwyddiant (CPIH) yw 9.3%. Mae chwyddiant uwch yn golygu cynnydd cyffredinol uwch mewn biliau nag yn y blynyddoedd blaenorol.

**1 miliwn**

Aelwydydd yn elwa gan dariffau cymdeithasol yn 2021-22

Ym mis Hydref 2022, mewn llythyr ar y cyd gan David Black a Phrif Weithredwr CCW, Emma Clancy, gofynnwyd i gwmnïau sicrhau bod mwy o gwsmeriaid yn elwa ar dariffau cymdeithasol ac ystyried sut y gallant liniaru unrhyw gynnydd sylweddol yn sgil chwyddiant ym miliau cwsmeriaid ar gyfer 2023-24.

Er bod pob cwmni wedi nodi camau gweithredu ar fforddiadwyedd mewn ymateb, cadarnhaodd pedwar cwmni hefyd na fyddent yn cymryd eu lwfans refeniw llawn ar gyfer 2023-24 - byddant yn ei ohirio tan flynyddoedd diweddarach (pan ragwelir y bydd yr addasiad chwyddiant yn is).

Yn 2021-22 roedd tua miliwn o aelwydydd wedi elwa ar dariffau cymdeithasol – cynnydd gan 20% ar y flwyddyn flaenorol. Disgwyliwn i'r cynnydd serth hwn barhau; canfu ein hymchwil fod mwy o bobl bellach yn ymwybodol o'r tariffau hyn. Mae cwmnïau hefyd yn newid meini prawf cymhwysedd i gynyddu mynediad at y tariffau hyn.

## Buddsoddi ar gyfer y dyfodol

**£10.2 biliwn**

Swm a wariwyd gan y diwydiant yn 2021-22

Yn 2021-22 gwariodd y diwydiant £10.2 biliwn i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff, a buddsoddi mewn cynnal a chadw cyfalaf ac asedau newydd.

Fel rhan o'r broses adolygu prisiau, rydym yn gosod lwfansau ar gyfer faint y gall cwmnïau fuddsoddi dros y cyfnod rheoli prisiau, i gynnal a gwella rhwydweithiau dŵr. Rhwng 2020 a 2022 (dwy flynedd gyntaf PR19), tanwariodd 14 cwmni eu cyllideb ar gyfer gwella eu rhwydwaith dŵr a thanwariodd wyth cwmni eu lwfansau costau ar gyfer gwella eu rhwydwaith dŵr gwastraff. Disgwyliwn i'r cwmnïau hyn gael eu rhaglenni gwella yn ôl ar y trywydd iawn a chyflawni'r gwelliannau cysylltiedig mewn gwasanaeth. Byddwn yn gweithredu pan fyddwn yn canfod bod cwmnïau'n methu â chydymffurfio â'u rhwymedigaethau, ac eleni rydym wedi gosod disgwyliadau i'r sector gynyddu eu huchelgais yn PR24.

## Ymchwiliad i reolaeth gweithiau trin dŵr gwastraff

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ein hachosion gorfodi presennol yn erbyn chwe chwmni dŵr a'n nod yw cwblhau ein penderfyniadau yn 2023-24. Mae pob cwmni dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr yn parhau i fod yn destun ein hymchwiliad cyffredinol.

Mae ymchwiliadau Ofwat yn canolbwyntio ar a yw cwmnïau'n cydymffurfio â rhwymedigaethau y mae gennym gyfrifoldeb i'w gorfodi, yn arbennig eu dyletswydd i ymdrin yn effeithiol â chynnwys eu rhwydwaith carthffosydd[1] a rhwymedigaethau trwydded cysylltiedig o ran sut mae cwmnïau dŵr yn gweithredu, yn rheoli ac yn adrodd ar eu perfformiad yn gyffredinol, gan gynnwys eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal ymchwiliadau troseddol cyfochrog i gydymffurfiaeth cwmnïau â'u rhwymedigaethau o dan drwyddedau amgylcheddol a gyhoeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Fel rhan o PR24, byddwn yn ystyried sut i gymell a galluogi'r cwmnïau i leihau ymhellach y niwed a achosir gan orlifau er mwyn cyflawni targedau a osodwyd gan Defra yn ei gynllun lleihau gollyngiadau gorlifau stormydd, ynghyd â'r dyletswyddau gorlifau stormydd newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021, unwaith eu bod mewn grym.

**Tachwedd 2021**

Cyhoeddodd Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd ymchwiliadau i sut mae cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr yn rheoli eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff

Ysgrifennodd David Black at bob cwmni dŵr yn gofyn am ragor o wybodaeth am ollyngiadau

**Mawrth 2022**

Gwnaethom agor pum achos gorfodi, i mewn i Anglian Water, Northumbria Water, Thames Water, Wessex Water a Yorkshire Water

**Mehefin 2022**

Fe wnaethom agor chweched achos gorfodi, yn erbyn South West Water

1. Yn cynnwys rhwymedigaethau o dan Reoliad 4 Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994.

## Hyrwyddo marchnad manwerthu mwy effeithiol

**6.4%**

Cynnydd cyfartalog biliau terfynol cyn chwyddiant

**£1 miliwn**

Arbedion blynyddol a ragwelir ar ôl prosesau dwyochrol

Ym mis Rhagfyr gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad terfynol ar newidiadau i gapiau prisiau manwerthu ar gwsmeriaid busnes llai sy'n defnyddio llai na 0.5Ml o ddŵr y flwyddyn nad ydynt wedi ymgysylltu â'r farchnad drwy newid manwerthwyr. Arweiniodd ein penderfyniad at gynnydd cyfartalog o tua 6.4% mewn biliau terfynol cyn chwyddiant i gwsmeriaid busnes yn Lloegr ar dariff â mesurydd deuol (dŵr a dŵr gwastraff). Bydd y newid yn y capiau prisiau yn galluogi manwerthwyr effeithlon i ennill elw teg tra'n cefnogi sefydlogrwydd hirdymor y farchnad manwerthu busnes, a fydd o fudd i gwsmeriaid.

Gwnaethom hefyd symleiddio'r capiau prisiau sy'n berthnasol i gwsmeriaid busnes llai drwy symud i gap prisiau cenedlaethol ar gyfer Lloegr gyfan. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod capiau prisiau yn adlewyrchu'n well gostau effeithlon i wasanaethu cwsmeriaid, oherwydd nid yw costau o'r fath yn amrywio'n sylweddol fesul rhanbarth.

Bydd y capiau prisiau newydd yn cael eu cyflwyno dros gyfnod o ddwy flynedd o fis Ebrill 2023, er mwyn rheoli'r effaith ar gwsmeriaid busnes. Bydd uchafswm newidiadau blynyddol mewn taliadau manwerthu cwsmeriaid yn cael eu cyfyngu i £60 y flwyddyn, cyn chwyddiant.

Gwnaethom barhau i fynd i'r afael â'r gwrthdaro sy'n atal y farchnad rhag gweithio'n effeithiol a sicrhau canlyniadau gwell i gwsmeriaid. Un o'r rhain yw rhyngweithiadau cyfanwerthwr-manwerthwr beichus ac aneffeithiol. Y rhyngweithiadau 'dwyochrol' hyn yw'r prosesau a ddefnyddir gan gyfanwerthwyr a manwerthwyr i ryngweithio er mwyn darparu gwasanaethau i gwsmeriaid – er enghraifft ailosod a gosod mesuryddion. Pan agorodd y farchnad, mabwysiadodd pob cyfanwerthwr ei ddull ei hun o fodloni ceisiadau am wasanaeth sydd wedi arwain at anghysondeb, cost ychwanegol a gwasanaeth gwael.

Fe wnaethom oruchwylio prosiect i weithredwr y farchnad (MOSL) sefydlu hyb dwyochrol i adolygu a safoni'r trafodion hyn, sydd wedi arwain at:

- arbedion blynyddol gwerth tua £2.5 miliwn drwy wella effeithlonrwydd; a
- gwelliant mewn ansawdd data cyffredinol, sef un arall o'r tri phrif ffrithiant marchnad.

Rhagwelir £1 miliwn o arbedion ychwanegol y flwyddyn ar ôl i'r holl brosesau dwyochrol newydd gael eu rhoi ar waith.

Cyflwynodd ein methodoleg ar gyfer PR24 ymrwymiad perfformiad newydd i fesur profiad cwsmeriaid busnes a manwerthwyr (BR-MeX) cwmnïau dŵr yn Lloegr. Bydd hyn yn cymell cyfanwerthwyr i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer i ddatrys ffrithiant yn y farchnad manwerthu busnes a gwella eu perfformiad. Byddwn yn gweithio gyda MOSL a chyfranogwyr eraill yn y farchnad i ddatblygu hyn.

## Gweithio i roi terfyn ar drallod llifogydd o garthffosydd

Ym mis Hydref, cyfarfu CCW ac Ofwat â chwmnïau dŵr gwastraff i drafod cynnydd ar wella ymatebion i lifogydd carthffosydd yng nghartrefi a gerddi cwsmeriaid.

### Fe wnaethom ailadrodd yr hyn yr ydym yn disgwyl ei weld gan gwmnïau dŵr gwastraff mewn ymateb i lifogydd carthffosydd:




Gwnaethom groesawu ymrwymiad cwmnïau i wneud y peth iawn i'r cwsmer yn gyntaf a mynd i'r afael â'u cyfrifoldebau wedyn. Byddwn yn ailadrodd ein hymchwil ar y cyd yn y dyfodol i ganfod pa wahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud.

## Agor data er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd

Yn unol â'n strategaeth ddata, gwnaethom ddarparu dangosfwrdd Power BI ategol gyda mwy o awtomeiddio ochr yn ochr â'n hadroddiad perfformiad cwmnïau dŵr ym mis Rhagfyr 2021-22water company performance report 2021-22 (yr adroddiad darparu gwasanaeth yn flaenorol), a chyhoeddwyd y data sylfaenol i safonau data agored am y tro cyntaf.

Yn 2022 fe wnaethom gomisiynu'r ymgynghorwyr PwC i gynnal adolygiad technegol o gynnydd ar ddata agored yn y sector dŵr. Canfu fod y sector dŵr ar ddechrau ei daith data agored, gyda'r rhan fwyaf o gwmnïau wedi'u categoreiddio fel rhai ar y lefelau is o ran aeddfedrwydd. Fe wnaethom gyhoeddi Open data in the water industry: making the change ym mis Mehefin 2023.

Gwnaethom groesawu penderfyniad Thames Water i gyhoeddi'n wirfoddol wybodaeth agos i amser real am yr holl ollyngiadau heb eu trin o'i 468 o leoliadau gollwng a ganiateir ym mis Ionawr.

# Nod 2: Ysgogi cwmnïau dŵr i ymateb i heriau hirdymor drwy ragor o gydweithredu a phartneriaethau


2

## Gwella'r amgylchedd ac ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd

Canfu adolygiad y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd o adroddiadau addasu sefydliadau dystiolaeth dda ein bod yn llywio camau gweithredu ymaddasu i newid yn yr hinsawdd drwy osod targedau a chreu canllawiau. Cyhoeddwyd ein trydydd adroddiad addasu newid yn yr hinsawdd  i Defra ym mis Ionawr 2022.

Ym mis Ebrill fe gyhoeddom bapur trafod ar esblygu ein dull o reoleiddio gwytnwch gweithredol. Rydym yn bwriadu targedu adrodd ar fesurau dŵr a dŵr gwastraff ychwanegol, yna cael mwy o fewnwelediad drwy well monitro ac yn y pen draw cydgrynhoi pob elfen yn fframwaith monitro integredig. Dros amser, bydd hyn yn rhoi darlun cliriach i ni o iechyd asedau a gwytnwch gweithredol ehangach yn y sector.

Buom yn gweithio gyda Defra i gynnwys targed galw yn ei ymgynghoriad ar dargedau amgylcheddol. Y targed terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yw lleihau'r defnydd o gyflenwad dŵr cyhoeddus yn Lloegr fesul pen o'r boblogaeth gan 20% ar ffigurau gwaelodlin blwyddyn adrodd 2019-20, erbyn diwedd blwyddyn adrodd 2037-38.




Ym mis Medi fe wnaethom adolygu cymhellion amgylcheddol cwmnïau dŵr i gefnogi cartrefi newydd sy'n defnyddio dŵr yn fwy effeithlon. Roedd yr adroddiad yn nodi canlyniadau ein hadolygiad o gymhellion amgylcheddol ar gyfer gwasanaethau datblygwyr ac yn amlygu enghreifftiau o gydweithio, arloesi ac arfer da.

Mae angen i gwmnïau dŵr wella ansawdd afonydd a dŵr ymdrochi yn sylweddol drwy leihau gollyngiadau a niwed o orlifau stormydd a lleihau llygredd maetholion mewn afonydd o weithfeydd trin dŵr gwastraff i ddiogelu ein hamgylchedd. Bydd pob un o'r meysydd hyn angen buddsoddiad sylweddol gan gwmnïau dŵr yn y cyfnod rheolaeth prisiau nesaf, 2025-30.

Mae hi nawr hefyd yn ofynnol i gwmnïau gyhoeddi data ar nifer eu gollyngiadau o orlifau storm. Mae set ddata 2022 yn cwmpasu 91% o'r holl orlifau stormydd ac yn dangos bod gorlifau stormydd ar gyfartaledd wedi gorlifo 23 o weithiau (29.4 yn 2021).

Gwnaethom gytuno â Defra i gychwyn prosiect i gyflymu'r gwaith o ddarparu seilwaith yn Lloegr. Cyflwynodd holl gwmnïau dŵr Lloegr (ac eithrio SES Water) gynigion i gyflymu'r gwaith o ddarparu seilwaith ychwanegol yn 2023-24 a 2024-25 drwy ddefnyddio'r mecanwaith ariannu pontio yn PR24. Ar ôl ystyried yn ofalus, gwnaethom gyhoeddi cynigion i gymeradwyo 31 o gynlluniau, a oedd yn werth tua £500 miliwn dros y cyfnod 2023-25 a dros £1.6 biliwn yn gyffredinol.

## Creu partneriaethau i symleiddio arloesedd

Mae arloesi'n hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu, megis y rheini sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, i sicrhau gwasanaethau dŵr dibynadwy, dŵr yfed diogel ac amgylchedd dŵr iach.

Ym mis Mai, ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, fe wnaethom sefydlu StreamLine, sef gwasanaeth cyngor rheoleiddio ar y cyd i helpu arloeswyr a busnesau yng Nghymru a Lloegr i ddeall yn well yr amgylchedd rheoleiddio sy'n llywodraethu'r sector dŵr. Mae'r siop un stop cydweithredol hon yn dileu'r angen i gysylltu â'r rheoleiddwyr ar wahân, gan dorri amseroedd ymateb o dros 60 diwrnod i lai nag 20 diwrnod i gael cyngor cydgysylltiedig.

Ym mis Tachwedd, gwnaethom ennill grant gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer prosiect arloesi.  Gyda'n gilydd byddwn yn archwilio sut y gallwn wella rheoleiddio ac ysgogi arloesedd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector dŵr gan ddefnyddio'r data sydd gennym.

StreamLine

## Annog arloesi drwy gystadleuaeth

**£200 miliwn**

Cronfa Arloesi

Cyflwynwyd y Gronfa Arloesi gwerth £200 miliwn yn PR19 i ysgogi arloesedd yn y sector dŵr. Yn ystod y cyfnod peilot gwnaethom ddyfarnu £63.7 miliwn o gyllid i 41 o brosiectau arloesol. Gwnaeth  gwerthusiad effaith a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf argymhellion a chyfeiriodd at newid cadarnhaol y gellir ei briodoli i'r gronfa.

Buom yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r gronfa arloesi hyd at 2025. Roedd hyn yn cynnwys creu cystadleuaeth newydd, is mewn gwerth, agor elfennau o'r gronfa yn uniongyrchol i arloeswyr drwy ddileu'r gofyniad iddynt orfod bidio drwy gwmnïau dŵr, a lleddfu'r gofynion presennol mewn perthynas â hawliau eiddo deallusol.

Ar ôl adborth hynod gadarnhaol, fe wnaethom integreiddio'r cynigion canlynol i ddyluniad y gronfa ar gyfer 2022-25.

- Cystadleuaeth 'mynediad agored' newydd, wedi'i thargedu at arloeswyr llai a chynigion Lefel Parodrwydd Technoleg is (gwerthoedd prosiect hyd at £500,000).
- Fe wnaethom ddileu'r gofyniad i gynnig gael ei arwain gan gwmni dŵr neu benodai newydd[2] ar gyfer ein cystadleuaeth gwerth canolig (Catalyst).
- Fe wnaethom lacio'r gofynion i rannu IPRs cefndir ar gyfer y gronfa gwerth canolig a dileu'r holl ofynion o ran rhannu eiddo deallusol ar gyfer y gronfa TRL isel newydd.
- Fe wnaethom fireinio ein themâu arloesi i adlewyrchu'n well strategaeth arloesi dŵr 2050, a blaenoriaethau strategol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

2. Cwmni wedi'i benodi yn unol â'n polisi penodiadau ac amrywiadau newydd.

Ein themâu cystadleuaeth arloesi diwygiedig yw:


- ymateb ac addasu i newid yn yr hinsawdd gan gynnwys cyflawni uchelgeisiau'r sector o garbon sero net, dim gwastraff a dim gollyngiadau;
- diogelu a gwella'r amgylchedd a systemau naturiol, i amddiffyn cwsmeriaid presennol a'r dyfodol rhag effeithiau tywydd eithafol a llygredd;
- sicrhau gwytnwch gweithredol hirdymor a deall risgiau seilwaith i gwsmeriaid a'r amgylchedd, dod o hyd i atebion i liniaru'r rhain mewn ffyrdd cynaliadwy ac effeithlon; a
- phrofi ffyrdd newydd o gynnal gweithgareddau craidd i ddarparu'r gwasanaethau y mae cwsmeriaid a chymdeithas eu hangen, yn eu disgwyl a'u gwerthfawrogi nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i ystyried sut yr ydym yn rheoli'r heriau a'r risgiau o weithio'n fwy uniongyrchol gydag endidau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio a sut i gyrraedd cynulleidfa ehangach o arloeswyr nad ydynt efallai wedi clywed am y gronfa.

Bydd Spring, canolfan ragoriaeth arloesi'r sector, yn ein cefnogi ar rai elfennau ar gyflawni ein cystadleuaeth Darganfod newydd, a lansiwyd ym mis Ionawr 2023 ac sy'n targedu arloesiadau cam cynnar.

Cyflwynwyd 32 o geisiadau gwerth cyfanswm o £34 miliwn i ffrwd Catalyst yr Her Torri Trwodd Dŵr, gan gystadlu am gyfran o'r gronfa wobrau gwerth £7 miliwn. Yn dilyn safoni bydd saith o'r 10 cais i Transform yn symud ymlaen i gam dau y gystadleuaeth i gystadlu am y gronfa wobrau gwerth £30 miliwn. Fe wnaethom gyhoeddi enillwyr y ddwy ffrwd ym mis Mai 2023.

## Nifer yr enillwyr cystadleuaeth arloesi ar draws y cylch dŵr




## Cynnydd RAPID ar wytnwch dŵr

Cyhoeddodd RAPID ei flaenraglen uchelgeisiol ar gyfer 2022-23 ym mis Ebrill. Mae ei flaenoriaethau cyflawni wedi'u grwpio'n bum thema:

- datblygu diwylliant cadarnhaol ac ysgogi perfformiad;
- darparu goruchwyliaeth effeithiol o'r datrysiadau strategol;
- ymgysylltu â phobl a sefydliadau;
- sicrhau gwytnwch adnoddau dŵr hirdymor effeithiol; ac
- archwilio a mynd i'r afael â chyfleoedd, bylchau a rhwystrau rheoleiddio a masnachol.

Cyfres o bwyntiau gwirio o fewn y rhaglen RAPID yw'r broses â gatiau yn. Mae angen i bob datrysiad adnoddau dŵr fodloni meini prawf penodol er mwyn derbyn yr arian ychwanegol i barhau â'u hymchwiliad a datblygiad y datrysiadau.

### Proses gatiau RAPID ar gyfer atebion adnoddau dŵr rhanbarthol strategol posibl




Ym mis Mai cyhoeddodd RAPID ei benderfyniad terfynol gât dau carlam ar y tri datrysiad adnoddau dŵr rhanbarthol strategol sy'n cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r diffyg adnoddau dŵr yn Hampshire. Ar gais Southern Water, cafodd dihalwyno Fawley ei dynnu o'r broses gyda gatiau RAPID. Symudodd atebion trosglwyddo dŵr ac ailgylchu dŵr Hampshire ymlaen i gât tri carlam. Rhoesom gosb cymell cyflawni o 10% i'r atebion hyn oherwydd bod y cyflwyniadau'n wan iawn mewn rhai meysydd. Cynhelir asesiadau gât tri cynlluniau ar y llwybr carlam yn haf 2023.

Rydym yn parhau i ddefnyddio 'Gwersi a ddysgwyd o gât un a gât dau carlam' i fireinio ein dull asesu a chyhoeddwyd 'Canllaw atebion adnoddau dŵr rhanbarthol strategol ar gyfer giât tri' ym mis Awst 2022.

Gwnaethom benderfynu y dylai dau ddatrysiad newydd, Chwareli Mendips (a gynigiwyd gan Wessex Water a South West Water) ac estyniad i gronfa ddŵr Dyffryn Derwent Uchaf (Dŵr Hafren Trent a Yorkshire Water) ymuno â rhaglen RAPID.

Ym mis Awst gwnaethom gyhoeddi canlyniadau ein hymgynghoriad ar y fframwaith rheoleiddio a masnachol ar gyfer atebion adnoddau dŵr strategol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion, gan nodi bod natur amlochrog atebion yn gofyn am feddwl newydd ar rai agweddau ar y fframweithiau rheoleiddio a masnachol. Roedd cefnogaeth eang i rôl barhaus ar gyfer fframwaith tebyg i RAPID yng ngham adeiladu'r prosiectau presennol ac ar gyfer atebion adnoddau dŵr strategol yn y dyfodol. Gwnaethom adolygu ein rhaglen waith rheoleiddio a masnachol yng ngoleuni'r ymatebion.

Yn ystod y flwyddyn comisiynodd RAPID ddau adroddiad i ddatblygu ein dull ymhellach. Mae prosiectau seilwaith mawr, cymhleth neu newydd fel y cynlluniau RAPID yn nodweddiadol yn fwy o risg ac yn fwy heriol i feincnodi costau na phrosiectau symlach, mwy arferol. Byddwn yn defnyddio adroddiad CEPA ar 'Dulliau ar gyfer amcangyfrif a meincnodi costau ar gyfer prosiectau seilwaith dŵr ar raddfa fawr' i asesu datrysiadau adnoddau dŵr strategol megis gweithfeydd dihalwyno, gweithfeydd ailddefnyddio dŵr gwastraff, cronfeydd dŵr, a chynlluniau trosglwyddo dŵr.

Mae adroddiad Baringa a Mott MacDonald ar 'Future considerations for regional coordination of the planning, development and operation of water resources in England'' yn nodi chwe egwyddor ar gyfer cydgysylltu adnoddau dŵr i sicrhau bod dŵr ar gael pan fo'i angen. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwerth cyhoeddus drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, dyrannu costau a buddion yn briodol rhwng grwpiau a thros amser, a gwella'r amgylchedd ac ansawdd dŵr drwy bob cam o'r cylch bywyd.

Cynhaliodd Credit Suisse ein digwyddiad i fuddsoddwyr ym mis Hydref, a oedd yn arddangos astudiaethau o gronfa ddŵr De Swydd Lincoln, cronfa ddŵr a throsglwyddiad Fenland ac atebion trosglwyddo dŵr ac ailgylchu dŵr Hampshire.


Gwnaethom gyhoeddi ein hadolygiad cynnydd blynyddol 2021-22 ym mis Tachwedd gan nodi'r hyn yr oeddem wedi'i gyflawni drwy gyfeirio at y blaenoriaethau a nodwyd yn ein blaenraglen ar gyfer 2021-22.

## Cryfhau cydweithio yng Nghymru

Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithredu ein fframwaith rheoleiddio yng Nghymru mewn ffordd sy'n berthnasol i'r cyd-destun Cymreig ac sy'n ystyried amgylchiadau penodol Cymru.

Yng nghyd-destun ein hadolygiad prisiau ar gyfer y cyfnod 2025-30, rydym am gynnwys rhanddeiliaid o Gymru o'r dechrau wrth ddatblygu strategaethau hirdymor. Fe wnaethom gytuno â'r cwmnïau dŵr, Hafren Dyfrdwy (HDD) a Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a CCW i roi dull cydweithredol ar waith yng Nghymru ar gyfer PR24. Gweithredir hyn drwy Fforwm PR24 Cymru.

Rydym yn disgwyl i'r cwmnïau dŵr ddefnyddio ymchwil wrth benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer Cymru. Gobeithiwn y bydd hyn yn helpu i alinio'r canlyniadau cwsmeriaid lefel uchel sydd i'w cyflawni, a darparu tryloywder o ran sut y caiff cynlluniau busnes y cwmnïau eu datblygu.




* Mae HDD yn darparu gwasanaethau dŵr yn yr ardal hon yn unig

# Nod 3: Cwmnïau dŵr i ddarparu gwell gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol

3

## Cefnogi pob cwsmer preswyl i dalu eu biliau dŵr

Fe wnaethom ddiweddaru ein canllawiau Talu'n Deg ym mis Mai. Mae'r rhain yn gosod egwyddorion a disgwyliadau gwasanaeth gofynnol ar gyfer sut y dylai cwmnïau fod yn cefnogi pob cwsmer preswyl yng Nghymru a Lloegr i dalu eu bil dŵr a dŵr gwastraff, gan gynnwys y rheini sydd mewn amgylchiadau bregus neu sydd mewn perygl o fynd i ddyled.


Dangosodd ein hymchwil cwsmeriaid y gallai cwmnïau dŵr wneud mwy i gefnogi cwsmeriaid sydd â phroblemau iechyd meddwl a dylunio gwybodaeth am eu gwasanaethau a'u biliau o amgylch anghenion cwsmeriaid. Mae'r canllawiau newydd yn cynnwys disgwyliad i gwmnïau gynnwys cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus wrth ddylunio deunydd cyfathrebu. Dylai cwmnïau hefyd ystyried hyfforddiant ychwanegol i staff i ymdrin yn sensitif â phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac ariannol.

Mae'r canllawiau newydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau:

- gynnig opsiynau talu mwy hyblyg i gwsmeriaid sydd ar incwm afreolaidd a chontractau dim oriau;
- siarad yn sensitif â chwsmeriaid sy'n cael trafferth talu er mwyn deall eu hamgylchiadau a datrys problemau heb fod angen cymryd camau adennill dyledion;
- defnyddio mwy o gwynion, ymchwil a mathau eraill o adborth gan gwsmeriaid i wneud gwelliannau amser real i wasanaethau talu, cymorth a dyled; a
- gwneud defnydd llawn o ddata i ddod o hyd i'r cwsmeriaid hynny sy'n cael trafferthion a chynnig cymorth iddynt.

## Cryfhau ffocws cwmnïau dŵr ar gwsmeriaid

Yn 2022 fe wnaethom ddechrau gweithio gyda'r sector i ddatblygu amod trwydded sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i gymell gwasanaeth o ansawdd uchel, fel y rhagwelwyd yn ein strategaeth 'Amser i weithredu, gyda'n gilydd'. Er mwyn cefnogi trawsnewid y sector, mae angen i drwyddedau ddarparu dull cliriach ar gyfer sut y dylai cwmnïau drin eu cwsmeriaid pan aiff pethau o chwith.



## Deall cwsmeriaid yn well drwy ymchwil

Yn ystod 2022-23 gwnaethom gynnal rhaglen ymchwil newydd i ddeall yn well anghenion, blaenoriaethau a phrofiadau cwsmeriaid preswyl o wasanaethau dŵr. Rydym yn defnyddio mewnwelediadau o'r ymchwil hwn i brofi ein polisïau ein hunain, ac i arwain ble a sut rydym yn dal cwmnïau i gyfrif. Rydym yn gweithio'n agos gyda CCW i gynnal ymchwil ar y cyd.

### Prif ganfyddiadau o'n hymchwil

**Dewisiadau cwsmeriaid**

Ebrill 2022
(Ar y cyd â CCW, Yonder Consulting)

Ymchwil ansoddol i ddewisiadau defnyddwyr dŵr yng Nghymru a Lloegr er mwyn llywio datblygiad ymrwymiadau perfformiad cyffredin ar gyfer yr adolygiad prisiau nesaf.

**Sbotolau ar gwsmeriaid: Barn a phrofiadau pobl o ddŵr**

Ebrill 2022
(Ar y cyd â CCW, Savanta)

Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn hapus gyda gwasanaethau dŵr, ond dim ond traean fyddai'n ymddiried yn eu cwmni i drwsio problem yn gyflym.

Roedd ychydig dros chwarter yn meddwl bod cwmnïau'n gweithredu er budd pobl a'r amgylchedd.

**Costau byw: profiadau cwsmeriaid dŵr**

Mai 2022
(Savanta)

Credai ychydig dros hanner talwyr biliau y byddent yn cael trafferth talu bil cyfleustodau yn y flwyddyn i ddod, yn codi i 7 o bob 10 pe bai gan y cartref blant.

Dywedodd traean o'r rheini oedd yn disgwyl i'w sefyllfa ariannol waethygu eu bod yn teimlo'n isel eu hysbryd.

### Profiadau cwsmeriaid o garthffosydd yn gorlifo

**Mai 2022**
**(Ar y cyd â CCW, BritainThinks)**

Mae pobl y mae eu cartrefi wedi'u gorlifo â charthion yn aml yn cael eu gadael i lawr gan gwmnïau dŵr gwastraff, gan eu gadael mewn trallod hirdymor.

Er gwaethaf darparu gwasanaeth da i ddechrau, roedd cwmnïau'n ddiffygiol o ran cyfathrebu, datrys ac iawndal.

### Rhannu data

**Gorffennaf 2022**
**(Accent)**

Rydym yn annog rhannu data rhwng y sectorau dŵr a sectorau eraill er mwyn cynyddu nifer y cwsmeriaid ar gofrestrau gwasanaeth blaenoriaeth.

Dywedodd 43% eu bod yn gyfforddus gyda chwmnïau cyfleustodau yn rhannu data personol os yw'n golygu eu bod yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt.

### Ansawdd dŵr afonydd

**Gorffennaf 2022**
**(Savanta)**

Roedd bron i chwech o bob deg (59%) eisiau i'w cwmni dŵr flaenoriaethu gwella ansawdd a glendid afonydd yng Nghymru a Lloegr, hyd yn oed pe bai hyn yn arwain at gynnydd ym mhris eu biliau dŵr.

### Costau byw: profiadau cwsmeriaid dŵr – ton dau

**Rhagfyr 2022**
**(Savanta)**

Roedd mwy o gwsmeriaid yn cael trafferth gyda biliau'r cartref ac roedd dwy ran o dair yn disgwyl i'w sefyllfa waethygu. Dywedodd llawer eu bod wedi mynd yn ddyfnach i ddyled. Roedd 75% o bobl 18 i 34 oed yn cael trafferth talu biliau 'weithiau' neu'n amlach.

Ers ton 1, mae'r cwsmeriaid sy'n cael trafferth i dalu eu bil dŵr wedi cynyddu gan draean, o 15% i 20%.

### Ymddiriedaeth a chanfyddiadau: barn pobl am y sector dŵr

**Chwefror 2023**
**(Savanta)**

Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd yn ymddiried yn eu cwmni dŵr i ddarparu dŵr yfed o ansawdd da a gwasanaeth dibynadwy.

Dim ond traean sy'n ymddiried yn eu cwmni dŵr i atal carthion rhag mynd i mewn afonydd neu foroedd.

## Treialu strwythurau codi tâl cartrefi newydd

Gall codi tâl tymhorol helpu i ostwng biliau yn y gaeaf pan fo costau ynni yn uwch

Er bod ein hadolygiadau prisiau yn gosod rheolaethau refeniw cyffredinol, mae'r fframwaith codi tâl yn pennu faint mae gwahanol gwsmeriaid yn ei dalu. Mae cwmnïau'n gosod taliadau i gydymffurfio â'n rheolau codi tâl lefel uchel, yn ogystal â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill. Maent hefyd yn gosod taliadau gostyngol (tariffau cymdeithasol) ar gyfer cwsmeriaid sy'n cael anhawster talu eu bil yn llawn, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

Gall taliadau fod yn arf pwerus y gall cwmnïau ei ddefnyddio i gefnogi fforddiadwyedd, yn ogystal â nodau cynaliadwyedd megis effeithlonrwydd dŵr.

Ar hyn o bryd, mae biliau cwsmeriaid yn cael eu gosod ar swm safonol yn seiliedig ar eu math o eiddo, neu ar gyfradd safonol yn seiliedig ar faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio. Ym mis Medi buom yn ymgynghori ar arloesedd mewn codi tâl i gefnogi fforddiadwyedd, gan annog cwmnïau i feddwl yn greadigol, cynnal treialon codi tâl a rhannu dysgu.

Gwnaethom ofyn i gwmnïau ystyried syniadau fel codi tâl tymhorol i helpu i ostwng biliau dŵr yn y gaeaf pan fydd costau ynni'n uwch, neu filiau is ar gyfer cartrefi â chasgenni dŵr a thramwyfeydd athraidd, a all leihau'r risg o lifogydd a llygredd. Gellid cyflwyno treialon llwyddiannus i bob cartref mewn ardal benodol.

Affinity Water fydd y cyntaf i weithredu treial codi tâl o dan ein rheolau newydd. Yn ddiweddarach eleni bydd yn codi cyfradd ratach ar tua 1,500 o gartrefi a ddewiswyd ymlaen llaw am ddefnyddio swm is (neu 'floc') o ddŵr, a phrisiau cynyddol uwch am ddefnyddio cyfeintiau mwy o ddŵr. Mae'r cwmni'n disgwyl i o leiaf ddau o bob tri chartref yn y treial dalu llai am eu dŵr nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.

## Gwella gwytnwch ariannol

Ar ôl ymgynghori, ym mis Chwefror fe wnaethom addasu trwyddedau cwmnïau dŵr i wella eu tryloywder a chysondeb, a'i gwneud yn ofynnol i gwmnïau:

- roi'r gorau i dalu difidendau cyn i'w gwytnwch ariannol arwain at israddio eu statws credyd i'r radd buddsoddi isaf;
- cynnal polisïau difidend a dim ond talu difidendau sy'n ystyried y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid a'r amgylchedd dros amser, anghenion buddsoddi presennol ac yn y dyfodol a gwytnwch ariannol yn yr hirdymor;
- dal dau statws credyd gan o leiaf ddwy asiantaeth statws credyd; a
- rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i statws credyd.

Bydd y pwerau newydd hyn yn ein galluogi i atal cwmnïau rhag talu difidendau pe bai'n peryglu eu gwytnwch ariannol, a chymryd camau gorfodi yn erbyn cwmnïau dŵr nad ydynt yn cysylltu taliadau difidend â pherfformiad.

Rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth yrru cwmnïau â gwytnwch ariannol gwannach, fel y nodwyd yn ein hadroddiad Monitro gwytnwch ariannol, i gymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Er ein bod wedi gweld rhywfaint o gynnydd o ran ecwiti newydd sylweddol ar draws y sector yn y cyfnod rheoleiddio presennol, mae angen i rai cwmnïau wneud mwy i gryfhau eu gwytnwch ariannol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn yn y flwyddyn i ddod.

## Gweithredu pellach ar dâl swyddogion gweithredol

Gwnaethom gymryd camau i atgyfnerthu ein disgwyliadau ar bolisïau a phenderfyniadau cydnabyddiaeth ariannol cwmnïau. Ym mis Rhagfyr fe wnaethom ysgrifennu at bob cadeirydd pwyllgor taliadau ac ar wahân at bedwar cwmni (Thames Water, Southern Water, South West Water a Portsmouth Water) i fynegi pryderon penodol am eu dull.

Bwriadwn beidio â chaniatáu refeniw fel rhan o gysoni yn PR24 (a hefyd yn PR29) lle nad yw penderfyniadau ar gyflog swyddogion gweithredol yn bodloni ein disgwyliadau fel nad yw cwsmeriaid yn ariannu taliadau bonws swyddogion gweithredol lle nad ydynt wedi'u hennill yn ddigonol drwy berfformiad y cwmni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd. Ym mis Mawrth buom yn ymgynghori ar ganllawiau i gefnogi'r dull hwn.

## Cymell cwmnïau dŵr i gyflawni sero net

**1%**

Canran allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU y mae'r sector dŵr yn gyfrifol amdanynt

Mae sector dŵr y DU yn gyfrifol am tua un rhan o bump o allyriadau nwyon tŷ gwydr sector gwastraff y DU, gan gyfrif am tua 1% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU.

Ym mis Ionawr 2022, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i ni adolygu ein fframwaith rheoleiddio ar gyfer cydnawsedd â llwybrau Strategaeth Sero Net llywodraeth y DU hyd at 2050 a chyllidebau carbon interim, ac adrodd yn ôl erbyn haf 2022.

Mae gweithredu cyfredol ac arfaethedig cwmnïau dŵr yn adlewyrchu llwybrau Strategaeth Sero Net llywodraeth y DU. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gweithredu i ddatgarboneiddio trin dŵr a dŵr gwastraff;
- arloesiadau technolegol;
- cynhyrchu a defnyddio ynni adnewyddadwy; ac
- ystyried sero net wrth ddatblygu a chyflawni atebion adnoddau dŵr strategol.

Disgwyliwn i'r diwydiant nodi'r dulliau cywir ar gyfer sero net mewn ffyrdd arloesol, a dangos eu gwerth drwy safonau, mentrau a fframweithiau achredu sefydledig. Bydd y dull hwn, sydd wedi'i ymgorffori yng nghyd-destun defnyddio marchnadoedd i gyflawni ar gyfer cwsmeriaid ac ynghyd ag eglurder cynyddol ar ein disgwyliadau o ran newid yn yr hinsawdd ar gyfer cwmnïau dŵr, yn eu galluogi i ymateb mewn ffyrdd sydd wedi'u teilwra orau i amgylchiadau lleol a rhanbarthol.

Rydym yn gweithio gyda'r sector i wella adrodd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chefnogi prosiectau sy'n dal allyriadau carbon o weithfeydd prosesu dŵr drwy ein Cronfa Arloesi. Yn PR24, rydym yn cynnig cymell cwmnïau dŵr i gyflawni sero net drwy gyflwyno ymrwymiad perfformiad allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol cyffredin. Mae gan RAPID broses glir ar gyfer sicrhau bod cwmnïau'n ystyried allyriadau corfforedig, yn ogystal ag allyriadau gweithredol yn eu hatebion.

# Y canlyniadau a gyflawnwyd gan gwmnïau dŵr

Mae ein blaenraglen 2022-23 yn nodi pedwar canlyniad i gwsmeriaid y mae angen i gwmnïau gyflawni yn eu herbyn:

- Gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy, gwydn, diogel ac o ansawdd da.
- Gwerth am arian i gwsmeriaid, cadw biliau'n fforddiadwy.
- Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Cwmnïau'n gweithredu er budd hirdymor cymdeithas a'r amgylchedd

Mae ein hadroddiad perfformiad cwmnïau dŵr, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, yn dangos bod cwmnïau mewn rhai meysydd wedi ymateb i'r her a osodwyd gennym yn adolygiad prisiau 2019. Fodd bynnag, mewn meysydd eraill mae'r cynnydd yn rhy araf.

Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod y cwmnïau sy'n perfformio waethaf yn gwneud y gwelliannau sydd eu hangen. Yn 2021-22 (y data diweddaraf sydd ar gael oherwydd yr oedi adrodd) cafodd y sector daliadau tanberfformiad net llawer mwy nag yn y flwyddyn flaenorol (£60 miliwn o gymharu â £19 miliwn yn 2020-21).

## Bu perfformiad da mewn rhai meysydd...

### Gollyngiadau

Rydym yn cael ein hannog i weld cynnydd tuag at dargedau lleihau gollyngiadau hirdymor ond mae llawer o ffordd i fynd eto.

### Iechyd asedau

Cyflawnodd pob cwmni ymrwymiadau perfformiad iechyd asedau dŵr (atgyweiriadau i'r prif gyflenwad a thoriadau heb eu cynllunio) yn 2021-22. Mae angen i gwmnïau sicrhau bod eu hasedau mewn cyflwr da i ddarparu'r gwasanaeth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Ar gyfer rhwydweithiau dŵr gwastraff, mae nifer y carthffosydd yn cwympo wedi gostwng ers

## …a pherfformiad gwaeth mewn meysydd eraill

### Llygredd

Mae lefelau digwyddiadau llygredd yn yr amgylchedd a chartrefi cwsmeriaid yn dal i fod yn rhy uchel. Yn 2021-22 cynyddodd nifer y digwyddiadau llygredd difrifol a gwaethygodd cydymffurfiaeth gweithfeydd trin. Mae chwe achos gorfodi i hyn yn parhau. Dim ond pedwar cwmni a gyrhaeddodd y lefel perfformiad i leihau llifogydd carthion mewn cartrefi cwsmeriaid.

### Bodlonrwydd cwsmeriaid

Yn 2021-22, nododd y rhan fwyaf o gwmnïau ostyngiad mewn boddhad cwsmeriaid. Rydym yn bwriadu cyflwyno amod sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn nhrwyddedau pob cwmni er mwyn cynyddu eu ffocws ar gwsmeriaid a chymell y gwasanaeth gorau oll i gwsmeriaid.

### Seiberddiogelwch

Roeddem yn bryderus o glywed am yr ymosodiad ransomware ar South Staffs Water, ac rydym wedi bod yn monitro'n agos sut mae'r cwmni wedi cefnogi cwsmeriaid yn ystod y digwyddiad hwn.

### Gwariant

Gwariodd cwmnïau dim ond 68% o'u lwfansau costau gwella a ragwelwyd. Dylai cwmnïau fod yn defnyddio gwariant gwella i gyflawni gwelliannau, er enghraifft mewn capasiti dŵr gwastraff, i leihau gollyngiadau carthion a gwella'r gallu i wrthsefyll sychder.

### Defnydd y pen

Methodd bron pob cwmni â chyrraedd eu lefel perfformiad ar leihau galw. Amlygodd haf poeth a sych 2022 pa mor werthfawr yw ein hadnoddau dŵr a'r angen i gwmnïau wneud cynnydd gwirioneddol yn y maes hwn.

### Mynd i'r afael â pherfformiad gwael

Fe wnaethom gategoreiddio perfformiad chwe chwmni fel ar ei hôl hi. Bydd yn rhaid iddynt nawr ddatblygu cynllun gweithredu clir i fynd i'r afael â'u perfformiad gwael, a byddwn yn monitro eu cynnydd yn erbyn cyflawni'r cynlluniau gwella hyn.

# Gwasanaethau dibynadwy, gwydn, diogel ac o ansawdd da

Yn 2021-22 bu gostyngiad siomedig mewn boddhad cwsmeriaid, gyda dim ond un cwmni, South Staffs Water, wedi gwella ei sgôr C-Mex ers y flwyddyn flaenorol.

Yn 2021-22 fe wnaeth y rhan fwyaf o gwmnïau wella eu perfformiad o ran lleihau llifogydd carthffosydd mewnol, er iddynt fethu â chyrraedd y targed. Mae perfformiad cyffredinol ar lefel sector wedi gwaethygu ers 2020-21.

**6**

Llwyddodd chwe chwmni i gyrraedd y targed ar gyfer toriadau i gyflenwad dŵr (a achoswyd yn bennaf gan y prif gyflenwad yn byrstio) yn 2021-22, i lawr o 10 yn 2020-21. Cyfeiriodd rhai cwmnïau at doriadau mewn pŵer a achoswyd gan stormydd diwedd 2021 a dechrau 2022 fel y prif ffactor sy'n cyfrannu at berfformiad gwaeth.

**5.7%**

Cynyddodd canran y cwsmeriaid a gofnodwyd ar gofrestrau gwasanaethau blaenoriaeth cwmnïau o 3.8% i 5.7% ac mae pob un ond tri chwmni ar y trywydd iawn i gyrraedd eu targed ymrwymiad perfformiad cyffredin erbyn diwedd 2025. Mae angen mwy o waith i godi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o'r gwasanaethau hyn, ac i sicrhau bod cwmnïau'n darparu'r cymorth y mae cwsmeriaid wedi dweud sydd ei angen arnynt. Rydym yn croesawu cynnydd y cwmnïau o ran rhannu data (er enghraifft gyda chwmnïau ynni neu awdurdodau lleol) i nodi cwsmeriaid sydd angen cymorth ychwanegol.

# Gwerth am arian a chadw biliau'n fforddiadwy

**£8**

Yn 2022-23 cynyddodd biliau dŵr a charthffosiaeth cyfun cwsmeriaid gan 2% ar gyfartaledd, neu tua £8.

£=

Ym mis Mai 2022, roedd ein canllawiau talu'n deg yn nodi gofynion i gwmnïau gynnig opsiynau talu mwy hyblyg i gwsmeriaid ar incwm afreolaidd a chontractau dim oriau, a defnyddio data i ddod o hyd i gwsmeriaid sy'n cael trafferthion a'u cefnogi.

**134 ℓ/dydd**

Mae llai o ddŵr yn cael ei ddefnyddio mewn cartrefi â mesurydd o'i gymharu â rhai heb fesurydd – mae cwsmeriaid â mesurydd dŵr yn defnyddio 134 litr y person y dydd. Mae cwsmeriaid heb fesurydd dŵr yn defnyddio 174 litr y person y dydd.

Ym mis Hydref, ar y cyd â CCW, fe wnaethom ysgrifennu at bob cwmni dŵr i ofyn iddynt i nodi eu cynlluniau ar gyfer cefnogi cwsmeriaid drwy bwysau costau byw. Ym mis Ionawr cyhoeddwyd crynodeb o ymatebion cwmnïau dŵr.

# Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

**14**

Cyrhaeddodd 14 cwmni eu targed gollyngiadau yn 2021-22. Nododd pob cwmni ostyngiad mewn gollyngiadau, ond roedd yr arbedion yn llai na'r disgwyl. Disgwyliwn i gwmnïau wella eu dealltwriaeth o'u cydbwysedd dŵr a sicrhau y gall eu hasedau wrthsefyll siociau tywydd. Mae cwmnïau dŵr wedi ymrwymo i haneru gollyngiadau o lefel 2017-18 erbyn 2050.

**2%**

Bu gostyngiad gan 2% yn nifer yr achosion o lygredd categori 1-3 yn 2021-22, gwelliant siomedig o fychan.

2 ★
4 ★★
3 ★★★★

Sgoriodd asesiad perfformiad amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer 2021 fod dau o'r naw cwmni dŵr gwastraff yn wael (un seren), pedwar angen gwella (dwy seren) a thri yn arwain y diwydiant (pedair seren).

**5.2%**

Gostyngodd defnydd blynyddol cyfartalog y sector gan 5.2% yn 2021-22. Mae hyn yn welliant ar y cynnydd cyfartalog o 8.8% yn 2020-21.

Yn 2022, o'r 419 o ddyfroedd ymdrochi a fesurwyd yn Lloegr, roedd 407 (97.1%) yn bodloni o leiaf safon ofynnol y Rheoliadau Dŵr Ymdrochi. Cododd dyfroedd ymdrochi oedd yn cyrraedd y safon uchaf, Rhagorol, i 72.1%.

**407**

# Cwmnïau'n gweithredu er budd hirdymor cwsmeriaid a’r amgylchedd

Cyflawnodd pob cwmni ei lefelau ymrwymiad perfformiad o ran iechyd asedau dŵr (atgyweiriadau i’r prif gyflenwad a thoriad heb ei gynllunio) yn 2021-22.

Ar hyn o bryd amcangyfrifir mai cost cwblhau Twnnel Thames Tideway yw £4,384 miliwn mewn prisiau alldro. Amcangyfrifir mai effaith gyfartalog biliau cwsmeriaid preswyl (gan adlewyrchu RPI ym mis Tachwedd 2022) yn 2023-24

**£25**

Datblygodd United Utilities y broses gaffael uniongyrchol i gwsmeriaid (DPC) o Raglen Gwytnwch Traphont Ddŵr Haweswater (HARP). Mae’r cwmni wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio i newid y draphont ddŵr, sy’n rhedeg o Ardal y Llynnoedd trwy Swydd Gaerhirfryn i Fanceinion Fwyaf. Mae’n cyflenwi dŵr yfed i dros ddwy filiwn o bobl.

**21 miliwn ℓ/dydd**

Dyfarnodd Portsmouth Water gontract gwerth £167 miliwn i Future Water MJJV Limited i adeiladu’r gronfa ddŵr fawr newydd gyntaf ers mwy na thri degawd yn Havant Thicket yn Hampshire. Mae’r ddau gontract adeiladu mawr yn eu lle, carreg filltir arwyddocaol. Bydd y gronfa ddŵr, sef cydweithrediad rhwng Portsmouth Water a Southern Water, yn gallu cyflenwi hyd at 21 miliwn litr o ddŵr y dydd ar ôl ei chwblhau.

# Sylwadau ariannol

Ceir crynodeb o'n huchafbwyntiau ariannol isod.

## Crynodeb o gostau gweithredu

### Costau gweithredu 2022-23

| | 2022-23 | | | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| | Rheoleiddiad Craidd | Prosiect Thames Tideway | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm | | | | |
| Ffioedd trwydded a dderbyniwyd | (31,998) | (400) | (32,398) | (29,483) |
| Incwm arall | (79) | - | (79) | (80) |
| Nodyn credyd a gyhoeddwyd ar ddiwedd blwyddyn | - | 82 | 82 | 130 |
| | (32,077) | (318) | (32,395) | (29,433) |
| Gwariant | | | | |
| Costau gweinyddu | 32,250 | 318 | 32,568 | 28,533 |
| | | | | |
| Gwariant/(incwm) gweithredu net | 173 | - | 173 | (900) |

## Cyllideb reoleiddio graidd

Cawn ein hariannu'n bennaf gan y ffioedd a godir ar y cwmnïau a reoleiddir gennym. Adenillir ffioedd yn flynyddol gan ymgymerwyr dŵr ac ymgymerwyr carthffosiaeth (cwmnïau dŵr penodedig) a chyflenwyr trwyddedig yn y farchnad manwerthu busnes o dan Amod N trwyddedau ac Amod 9 Rhan A amodau safonol y drwydded cyflenwi dŵr a/neu garthffosiaeth (WSSL) yn y drefn honno. Mae ein hincwm o ffioedd yn amodol ar y cyfyngiadau a osodir yn amodau trwydded y cwmnïau hyn. Er bod ein harian refeniw yn dod yn uniongyrchol gan y sector yn y modd hwn, mae ein setliad cyllideb yn amodol ar drafodaeth a chytundeb gyda Thrysorlys EF drwy'r broses adolygiad o wariant.

Pennwyd y gyllideb gweithredu rheoleiddio craidd ar £33 miliwn ar gyfer 2022-23. Yn erbyn hyn bu tanwariant o £0.8 miliwn. Gwnaethom gadw £0.5 miliwn o hwn fel byffer archwilio diwedd blwyddyn. Mae hyn yn golygu bod ein tanwariant net o £0.3 miliwn (1% o'r gyllideb) yn adlewyrchu Ofwat yn gwneud defnydd sylweddol o'i gyllid.

Yn dilyn ymgynghoriad, fe wnaethom bennu cyllideb graidd gyffredinol o £40.2 miliwn ar gyfer 2023-24 a nodi hyn yn ein Blaenraglen derfynol ym mis Mawrth 2023. Ers hynny rydym wedi cael cadarnhad gan Drysorlys EF y gallwn gynyddu ein cyllideb a ariennir drwy ffioedd trwydded gan £11.3 miliwn pellach. Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer Ofwat yn canolbwyntio ar adeiladu adnoddau i helpu i ysgogi trawsnewid ym mherfformiad

cwmnïau, mynd i'r afael â darparu seilwaith hirdymor, gwneud cynnydd tuag at yr adolygiad prisiau nesaf (PR24), yn ogystal â rhoi hwb sylweddol i allu gorfodi'r rheoleiddiwr. Mae hyn yn gosod cyllideb graidd ddiwygiedig o £51.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd dangos gwerth am arian i Ofwat ac yn cytuno ar ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol gyda Thrysorlys EF i ddangos y cysylltiad rhwng costau a chanlyniadau.

## Prosiect Thames Tideway

Ariennir rheoleiddiad prosiect Thames Tideway o dan drwydded ar wahân a thelir amdano gan Thames Water Utilities Limited a Bazalgette Tunnel Limited (Tideway), y darparwr seilwaith. Amcangyfrifwyd mai £0.5 miliwn fyddai cyllideb y rhaglen ar gyfer 2022-23. Gwnaethom anfonebu am £0.4 miliwn o'r ffioedd trwydded ar ddechrau'r flwyddyn. Cododd tanwariant yn erbyn y gyllideb o ganlyniad i ddefnydd is o gefnogaeth trydydd parti nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.

Ar ddiwedd y flwyddyn gwnaethom ddychwelyd £0.8 miliwn o ordaliad ffioedd trwydded i Tideway drwy nodyn credyd. Mae'r gyllideb graidd ar gyfer 2023-24 wedi ei chadarnhau, sef £0.5 miliwn.

## Gwariant cyfalaf

Ariennir gwariant cyfalaf drwy gyllideb, a gytunir gyda Thrysorlys EF, a gofnodir yn ein amcangyfrifon cyllideb. Cytunwyd ar ein cyllideb graidd ar gyfer 2022-23, sef £0.58 miliwn. Yn ychwanegol at hyn roedd gennym gyllideb cyfalaf o £2.5 miliwn ar gyfer IFRS 16 (Prydlesi). Gwnaethom danwario gan £0.07 miliwn yn erbyn ein cyllideb gyfalaf, gyda rhan ohono'n cael ei ddal gennym fel cronfa wrth gefn.

Mae ein cyllideb graidd ar gyfer 2023-24 wedi ei chadarnhau, sef £0.86 miliwn. Mae'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023-24 yn cynnwys uwchraddio offer TG gan gynnwys adnewyddu caledwedd, er enghraifft ein Surface Pros, a chyflawni ein strategaeth data.

# Adroddiad cynaliadwyedd

Rydym wedi mabwysiadu dull rheolaeth weithredol i ganfod pa rai o'n gweithgareddau sy'n cynhyrchu allyriadau carbon. Cyfrifwyd ein hôl troed carbon gan ddefnyddio gofynion perthnasol y safon Greenhouse Gas Protocol Corporate ac mae'n rhoi manylion allyriadau absoliwt ac wedi'u normaleiddio (perthynol). Mae dadansoddiad o'n hôl troed carbon i'w weld yn Nhabl 1.

### Tabl 1. Allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol Ofwat yn ôl math o weithgaredd (2022-23)

| Math o Allyriadau | Gweithgaredd | Unedau | (tCO2e) | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ynni Anuniongyrchol (Cwmpas 2) | **Trydan a Brynwyd (kWh)** | 198,269.96 | 38.34 | 18.30% |
| | Is-gyfanswm | 198,269.96 | 38.34 | 18.30% |
| Allyriadau Anuniongyrchol Eraill (Cwmpas 3) | **Teithio Busnes** | **-** | **28.64** | **13.67%** |
| | Teithiau awyren (milltiroedd) | 3,256.80 | 0.87 | 0.41% |
| | Rheilffordd (milltiroedd teithwyr) | 332,853.84 | 19.01 | 9.08% |
| | Tacsi (milltiroedd) | 353.93 | 0.12 | 0.06% |
| | Milltiroedd Modur (milltiroedd) | 14,539.73 | 3.99 | 1.91% |
| | Llogi Ceir (milltiroedd) | - | - | 0.00% |
| | Gwestai (nosweithiau) | 430.00 | 4.65 | 2.22% |
| | **Gwastraff a Dŵr** | **-** | **0.42** | **0.20%** |
| | Allyriadau o Ddefnydd Dŵr (m3) | 39.98 | 0.02 | 0.01% |
| | Gwastraff (tunelli metrig) | 2.62 | 0.41 | 0.19% |
| | **Defnydd Deunyddiau** | **0.65** | **0.60** | **0.28%** |
| | Papur (tunelli metrig) | 0.65 | 0.60 | 0.28% |
| | **Trydan WTT, T&D & WTT T&D (kWh)*** | **198,269.96** | **13.52** | **6.45%** |
| | **WTT**** | | 5.96 | 2.84% |
| | **Model Gweithio Gartref** | - | 122.00 | 58.24% |
| | Is-gyfanswm | - | 171.14 | 81.70% |
| **Cyfanswm allyriadau ($tCO_2e$)** | | | | **209.48** |

*Allyriadau wrth drosglwyddo a dosbarthu (T&D) yw'r allyriadau hynny sy'n gysylltiedig â cholledion grid (yr ynni sy'n cael ei golli wrth symud y trydan o'r gwaith pŵer i'r sefydliadau sy'n ei brynu).
**Allyriadau Ffynnon i'r Tanc (WTT) yw'r allyriadau hynny sy'n gysylltiedig â'r broses oddi wrth y cwsmer o echdynnu, mireinio a chludo tanwydd crai i'r cerbydau, ased neu broses y craffir arnynt.

Nid oes gan Ofwat unrhyw allyriadau Cwmpas 1, ac nid oes gennym ychwaith unrhyw gyfalaf naturiol na daliadau tir nac unrhyw fflyd ceir, felly ni adroddir ar y rhain. Ni wnaethpwyd unrhyw brosiectau adeiladu nac adnewyddu yn ystod y cyfnod 2022-2023.

Rydym yn adrodd ar ein perfformiad yn erbyn Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth ac wedi adlewyrchu hyn yn yr Adroddiad Cynaliadwyedd hwn.

Ein hallyriadau carbon ar gyfer y cyfnod 2022-23 oedd 209.48 tunnell fetrig o CO2e. Y ffynhonnell fwyaf o allyriadau oedd gweithio gartref a chymudo, a oedd yn cyfrif am 122 tunnell fetrig o CO2e, neu 58.24% o'r cyfanswm. Mae'r defnydd trydan yn cynrychioli 18.3% o gyfanswm yr allyriadau, neu 38.34 tunnell fetrig o CO2e.

Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y FTE, gostyngodd yr amser a dreuliwyd yn gweithio gartref a arweiniodd, ynghyd â'r gostyngiad mewn ffactorau allyriadau ar gyfer grid y DU, at ostyngiad mewn allyriadau gweithio gartref a chymudo.

Mae teithio busnes wedi cynyddu gan 13.67% ar ôl y pandemig, sydd i'w ddisgwyl. Roedd teithio ar drên yn cyfrif am 9.08% o gyfanswm yr ôl troed – teithio ar drên yw'r math o drafnidiaeth gyhoeddus sy'n cynhyrchu'r lleiaf o allyriadau a ddefnyddir gan Ofwat.


Mae'r canlyniadau a adroddwyd yn cynnwys teithio cenedlaethol a rhyngwladol gydag allyriadau o deithio rhyngwladol yn bresennol yn y data hedfan yn unig: 0.70 tCO2e yn dod o hediadau pellter byr rhyngwladol a 0.17 tCO2e o hediadau domestig.

Nid yw Ofwat yn berchen ar ei fflyd ei hun ac felly nid oes unrhyw allyriadau Cwmpas 1 yn gysylltiedig â cherbydau. Dim ond drwy ddefnyddio tacsis a cherbydau gweithwyr eu hunain (a elwir yn fflyd lwyd Ofwat) y cafwyd defnydd o gerbydau modur o fewn y categori teithio busnes. Nid yw'r mathau o gerbydau a ddefnyddir yn hysbys, ac felly nid yw'n bosibl nodi pa ganran sy'n cael ei gategoreiddio fel Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.

Mae cyfanswm allyriadau wedi gostwng gan 31.66 tunnell fetrig o CO2e (-13%) o gymharu â 2021-2022. Mae Ffigur 1 isod yn cymharu allyriadau nwyon tŷ gwydr Ofwat yn ôl ffynhonnell (ac eithrio model gweithio gartref) o 2021-2022 a 2022-2023. Mae'r gostyngiad yn bennaf oherwydd lleihad yn y defnydd o drydan ar draws pob safle, yn ogystal â gostyngiad gan 10% yn y ffactor allyriadau ar gyfer trydan a gynhyrchir yn y DU. Gellir priodoli'r gostyngiad yn y ffactor allyriadau i 'wyrddu'r grid', gyda mwy o ynni adnewyddadwy'n cael ei ddefnyddio a llai o drydan o danwydd ffosil yn cael ei gynhyrchu (gwelwyd gostyngiad mawr yn arbennig yn y trydan a gynhyrchwyd gan lo).

Oherwydd y cynnydd mewn teithio busnes a'r ffactorau allyriadau ar gyfer allyriadau o'r ffynnon i'r tanc ac allyriadau trawsyrru a dosbarthu yn cynyddu, mae allyriadau gweithgareddau i fyny'r gadwyn gyflenwi ychwanegol Ofwat wedi cynyddu 10%.

### Ffigur 1 Allyriadau nwyon tŷ gwydr Ofwat yn ôl ffynhonnell (ac eithrio model gweithio gartref)




Gwelodd y cynnydd yn y defnydd o swyddfeydd hefyd gynnydd yn y defnydd o ddeunyddiau, gyda defnydd papur yn cynyddu gan 80% ers i Ofwat ddechrau cadw cofnod o defnydd papur yn 2021-2022. Defnyddiodd Ofwat yr hyn sy'n cyfateb i 259.13 rîm o bapur A4 yn 2022-2023. Mae ffigur 2 yn cymharu allyriadau ar gyfer y deng mlynedd ddiwethaf. Dylid nodi mai dim ond o 2020-21 y cafodd allyriadau gweithio gartref a chymudo eu cynnwys. Cyflwynir dadansoddiad manylach fesul blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf yn Nhabl 2.

### Ffigur 2 Allyriadau nwy tŷ gwydr Ofwat (cwmpasau 1, 2 a 3)

Mae Ofwat wedi dewis niferoedd staff (FTE) i feincnodi allyriadau yn eu herbyn. Mae niferoedd FTE Ofwat wedi cynyddu o gyfartaledd blynyddol o 257 i 262 dros y cyfnod 2021-22 i 2022-23. Mae allyriadau wedi'u normaleiddio (tunelli metrig o CO2e fesul FTE) wedi gostwng gan 14.9%, o 0.94 tCO2e i 0.80 tCO2e fel y gwelir yn Ffigur 3. Mae hyn yn is na ffigur 2020-2021, sef 0.88 tCO2e, ond nid mor isel â 0.58 tCO2e o 2019-2020 fel y gwelir yn Ffigur 3.

### Ffigur 3 Allyriadau nwy tŷ gwydr wedi'u normaleiddio Ofwat (cwmpasau 1, 2 a 3)




### Tabl 1. Cymhariaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn o gyfanswm allyriadau Ofwat

| Math o Allyriadau | Gweithgared d | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) | (tCO$_2$e) |
| Ynni Anuniongyrch ol (Cwmpas 2) | Trydan a Brynwyd | 207.83 | 187.64 | 201.00 | 127.12 | 125.14 | 104.28 | 92.93 | 81.45 | 44.54 | 42.70 | 38.34 |
| | Is-gyfanswm | 207.83 | 187.64 | 201.00 | 127.12 | 125.14 | 104.28 | 92.93 | 81.45 | 44.54 | 42.70 | 38.34 |
| Allyriadau Anuniongyrch ol Eraill (Cwmpas 3) | Teithio Busnes (milltiroedd) | 58.55 | 71.98 | 60.49 | 48.36 | 79.81 | 56.33 | 53.95 | 38.51 | 0.76 | 8.94 | 28.64 |
| | Teithiau awyren (milltiroedd) | 15.55 | 27.73 | 8.40 | 12.08 | 16.37 | 0.67 | 0.85 | 0.26 | - | - | 0.87 |
| | Rheilffordd (milltiroedd teithwyr) | 37.04 | 37.46 | 46.84 | 30.36 | 57.21 | 51.24 | 50.99 | 37.76 | 0.27 | 5.97 | 19.01 |
| | Tacsi (milltiroedd) | 1.00 | 1.43 | 0.74 | 0.68 | 0.40 | 0.31 | 0.19 | 0.21 | 0.02 | 0.05 | 0.12 |
| | Milltiroedd Modur (milltiroedd) | 3.17 | 4.66 | 4.23 | 4.99 | 5.58 | 3.92 | 1.91 | 0.29 | 0.48 | 1.35 | 3.99 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llogi Ceir (milltiroedd) | 1.69 | 0.66 | 0.27 | 0.25 | 0.25 | 0.18 | - | - | - | - | - |
| | Gwestai | | | | | | | | | | 1.57 | 4.65 |
| | Gwastraff a Dŵr | 5.36 | 3.67 | 7.96 | 5.21 | 5.98 | 4.05 | 3.78 | 4.01 | 0.10 | 0.60 | 0.42 |
| | Allyriadau o Ddefnydd Dŵr ($m^3$) | 0.97 | 0.96 | 0.92 | 0.25 | 0.15 | 0.15 | 0.13 | 0.14 | 0.00 | 0.01 | 0.02 |
| | Gwastraff (tunelli metrig) | 4.39 | 2.71 | 7.04 | 4.96 | 5.84 | 3.90 | 3.65 | 3.87 | 0.09 | 0.59 | 0.41 |
| | Defnydd Deunyddiau | | | | | | | | | | 0.33 | 0.60 |
| | Papur (tunelli metrig) | | | | | | | | | | 0.33 | 0.60 |
| | Trydan T&D (kWh)* | 32.12 | 28.81 | 32.92 | 20.82 | 20.49 | 27.93 | 22.88 | 19.24 | 6.68 | 15.88 | 13.52 |
| | WTT** | 27.24 | 26.95 | 28.53 | 19.42 | 24.57 | 11.32 | 10.45 | 8.23 | 0.22 | 1.87 | 5.96 |
| | Model Gweithio Gartref | | | | | | | | | 160.84 | 170.82 | 122.00 |
| | Is-gyfanswm | 123.27 | 131.42 | 129.90 | 93.81 | 130.86 | 99.63 | 91.06 | 69.99 | 168.60 | 198.44 | 171.14 |
| Cyfanswm allyriadau (tCO2e) | | 331.11 | 319.06 | 330.89 | 220.93 | 256.00 | 203.91 | 183.98 | 151.44 | 213.14 | 241.14 | 209.48 |
| Allyriadau wedi'u normaleiddio | Cyfartaledd FTE ar draws cyfnod adrodd | | 199.00 | 142.84 | 172.00 | 211.00 | 211.00 | 254.00 | 260.00 | 242.00 | 257.00 | 262.00 |
| | Allyriadau wedi'u normaleiddio (Tunelli metrig o $CO_2e$ fesul FTE) | | 1.60 | 2.32 | 1.28 | 1.21 | 0.97 | 0.72 | 0.58 | 0.88 | 0.94 | 0.80 |

*Allyriadau wrth drosglwyddo a dosbarthu (T&D) yw'r allyriadau hynny sy'n gysylltiedig â cholledion grid (yr ynni sy'n cael ei golli wrth symud y trydan o'r gwaith pŵer i'r sefydliadau sy'n ei brynu).
**Allyriadau Ffynnon i'r Tanc (WTT) yw'r allyriadau hynny sy'n gysylltiedig â'r broses oddi wrth y cwsmer o echdynnu, mireinio a chludo tanwydd crai i'r cerbydau, ased neu broses y craffir arnynt.

## Trydan

Mae gan ddatgarboneiddio grid rôl allweddol yn y gwaith o leihau allyriadau o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, fel y dangosir yn y tablau isod, mae defnydd Ofwat o drydan hefyd wedi gostwng o gymharu â 4 (neu ragor) o flynyddoedd yn ôl.


| | Trydan tCO2e | Ffactor allyriad trydan | % y newid blwyddyn ar ôl blwyddyn yn y ffactor allyriadau (effaith datgarboneiddio grid) |
|---|---|---|---|
| **2016-17** | 125 | 0.41205 | |
| **2017-18** | 104 | 0.35156 | -17.2% |
| **2018-19** | 93 | 0.28307 | -24.2% |
| **2019-20** | 81 | 0.25560 | -10.7% |
| **2020-21** | 45 | 0.23314 | -9.6% |
| **2021-22** | 43 | 0.21233 | -9.8% |
| **2022-23** | 38 | 0.19338 | -8.9% |

| | Trydan kWh | % defnydd kWh o drydan blwyddyn ar ôl blwyddyn |
|---|---|---|
| **2016-17** | 303,708 | |
| **2017-18** | 296,634 | -2% |
| **2018-19** | 328,280 | 10% |
| **2019-20** | 318,658 | -3% |
| **2020-21** | 191,051 | -67% |
| **2021-22** | 201,115 | 5% |
| **2022-23** | 198,270 | -1.4% |

## Dŵr

Roedd y defnydd o ddŵr yn 39.98 m3, gan arwain at 0.017 tunnell fetrig o CO2e yn 2022-23, fel y dangosir yn Ffigur 4. Mae hyn yn gynnydd gan 45% ers y flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd bod 43 (cyfartaledd misol) o staff yn mynychu swyddfeydd Llundain a Birmingham o gymharu â 25 yn 2021-22, ond yn dal yn sylweddol is na'r lefelau cyn y pandemig. Dim ond ar gyfer cyfleusterau cegin y defnyddir dŵr. Mae'r ystafell ymolchi/toiledau yn gyfleuster a rennir gyda meddianwyr eraill yr adeilad felly maent yn dod o dan gylch gwaith y landlord. Amcangyfrifwyd defnydd dŵr yn y safle yn Llundain yn seiliedig ar ddefnydd fesul FTE yn swyddfa Birmingham.

### Ffigur 4 Allyriadau o ddefnydd dŵr Ofwat





## Gwastraff

Caiff yr holl wastraff cyffredinol ei wahanu ar gyfer ei ailgylchu neu ei waredu drwy dirlenwi. Nid yw Ofwat yn gallu mesur gwastraff tirlenwi gan y'i gwaredir mewn man casglu canolog mewn adeilad aml-denant. Rydym wedi tybio bod 70% o gyfanswm y gwastraff yn cael ei ailgylchu.

Ailgylchwyd 1.84 tunnell fetrig o wastraff yn 2023-23, gan arwain at 0.04 tunnell fetrig o CO2e. Amcangyfrifwyd gwastraff tirlenwi i fod yn 0.8 tunnell fetrig, gan arwain at 0.37 tunnell fetrig o CO2e. Mae Ffigur 5 yn dangos y gymhariaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer gwastraff wedi'i ailgylchu.

Roedd ffigurau gwastraff yn safle Ofwat yn Llundain wedi'u hamcangyfrif ar sail FTE.

### Ffigur 5 Ailgylchu Ofwat (kg)




Yn 2022-23, datblygodd Ofwat Strategaeth Sero Net a chynllun gweithredu ar gyfer Ofwat, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGC).

Mae canlyniadau'r Strategaeth Sero Net yn dangos y bydd sefyllfa Ofwat yn newid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed yn y blynyddoedd cyntaf i gyflawni ein huchelgais. Ym mlynyddoedd 1 a 2, ein nod yw adeiladu sylfeini'r strategaeth. Mae Ofwat ym Mlwyddyn 1 ar hyn o bryd ac ar fin dechrau ar y cyfrifiad cyntaf o ôl troed Cwmpas 3 llawn Ofwat.

Yn y cyfamser, mae ein Hadroddiad Ymaddasu i'r Hinsawdd 2022[3] yn trafod y risg i'r sefydliad drwy newid yn yr hinsawdd a allai effeithio neu lesteirio ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau, er enghraifft drwy amharu ar gyfleusterau swyddfa neu drafnidiaeth a allai atal systemau neu staff rhag gweithredu'n effeithiol; ac effeithio ar y ffordd yr ydym yn gweithio. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau ein bod yn rheoli'n effeithiol y risgiau o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd i'n gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Ym maes TGCh a Gwasanaethau Digidol rydym yn parhau i gynyddu ein defnydd o wasanaethau cwmwl ac er bod gan hyn ôl troed carbon is na chynnal ein gwasanaethau yn fewnol ar seilwaith ar y safle, rydym yn disgwyl i'n defnydd o'r gwasanaethau hyn gynyddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf wrth i ni gefnogi ein rhaglen trawsnewid data cyn y gallwn optimeiddio a dechrau lleihau ein hôl troed carbon.

Rydym hefyd yn gweithio i'r egwyddor bod unrhyw gontractau newydd yn cael eu gwneud gyda chyflenwyr sydd wedi ymrwymo i gynlluniau lleihau carbon i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, waeth beth fo maint y contract caffael. Fel rhan o'n gwaith i sefydlu ein strategaeth sero net, rydym wedi cynnwys yr egwyddorion a nodir yn y strategaeth Llywodraeth Gwyrddu: TGCh a gwasanaethau digidol[4].

Mae isafswm o 10% o'r meini prawf sgorio ar gyfer ein holl gontractau cymwys yn adlewyrchu themâu cynaliadwyedd, a lle bo modd rydym yn mynd y tu hwnt i hyn. Mae ein gweithgarwch caffael TGCh yn bennaf drwy fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron sy'n cyd-fynd â Safonau Prynu'r Llywodraeth[5]. Yn ystod 2023 byddwn yn parhau i ymgorffori safonau caffael cynaliadwy yn ein harferion caffael presennol i ymgorffori ymhellach Safonau Prynu'r Llywodraeth yn ein holl weithgarwch caffael.



**David Black**
**Swyddog Cyfrifyddu** **18 Gorffennaf 2023**

[3] Trydydd Adroddiad Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd Ofwat – Ofwat
[4] Greening government: ICT and digital services strategy 2020-2025 – (www.gov.uk)
[5] Sustainable procurement: the Government Buying Standards (GBS) – GOV.UK (www.gov.uk)

# Rhan 2

Ein hadroddiad atebolrwydd

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Rolau a chyfrifoldebau

Mae Ofwat yn Adran Anweinidogol y Llywodraeth gyda'i amcangyfrif adnoddau ei hun. Ein Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu yw David Black, ac Iain Coucher yw ein Cadeirydd[6].

## Trefniadau archwilio

Ein harchwilydd allanol yw'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG), a benodir gan statud ac mae'n ofynnol iddo archwilio ein datganiadau ariannol o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 ac adrodd i Senedd y DU ynglŷn ar yr archwiliad hwn. Cost dybiannol y gwasanaeth archwiliad hwn yw £76k (2021-22: £60k). Nid oedd cydnabyddiaeth ariannol (gwirioneddol na thybiannol) i archwilydd ar gyfer gwaith di-archwiliad. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rydw i wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i wneud yn siŵr bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled ag y gwn i, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Mae ein gwasanaeth archwilio mewnol yn mesur ac yn archwilio'n annibynnol ddigonolrwydd, dibynadwyedd ac effeithiolrwydd systemau rheoli, rheoli risg a rheolaeth ariannol. Darperir y gwasanaeth hwn gan RSM UK Group LLP (RSM) ( a benodwyd o 1 Ebrill 2022 drwy broses caffael gystadleuol. Bydd yr archwilwyr mewnol yn gwneud argymhellion yn seiliedig ar werthusiad pob system a adolygir. Cynhaliwyd archwiliad mewnol 2022-23 yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'i ddiogelu

Mae gennym bolisi diogelwch gwybodaeth a thechnoleg a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â data personol wedi'i ddiogelu a digwyddiadau diogelwch eraill. Er mwyn cadw at Fframwaith Polisi Diogelwch Llywodraeth EF sy'n nodi sut y mae'n rhaid i bob sefydliad Llywodraeth EF a thrydydd parti sy'n trin gwybodaeth ac asedau eraill Llywodraeth EF ddefnyddio diogelwch amddiffynol. Rydym yn monitro'n

[6] Daeth Iain Coucher yn Gadeirydd ym mis Gorffennaf 2022.

barhaus effeithiolrwydd ein polisïau i sicrhau bod gennym broses gadarn yn ei lle er mwyn darganfod, adrodd ar, ymateb i a thrin digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch.

Diffinnir tor-data personol wedi'i ddiogelu fel "unrhyw sefyllfa sydd wedi codi sy'n groes i bolisi ac sydd â'r posibilrwydd o gyfaddawdu asedau Llywodraeth EF". Mae asedau'n cynnwys pobl, eiddo neu wybodaeth. Gall yr amgylchiadau gynnwys gweithredu sy'n rhai gwirioneddol neu yr amheuir; yn ddamweiniol, yn fwriadol neu ymgais. 'Cyfaddawdu' yw rhoi enw drwg i'r ased neu ei pheryglu.

Nid ydym wedi profi unrhyw ddigwyddiadau data personol yn ystod 2022-23 yr oeddem yn eu hystyried yn ddigon difrifol i fod angen hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth yn eu cylch, sy'n gyson â deddfwriaeth a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd.

## Perfformiad talu cyflenwyr

Ar 31 Mawrth 2023 rydym yn cyflawni cyfartaledd o 90% yn erbyn ein targed ar gyfer talu 100% o anfonebau a gytunwyd o fewn 30 diwrnod o'u derbyn. Y ffigur cyfatebol ar gyfer 2021-22 oedd 95%

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd system gyllid newydd ar waith. Roedd ychydig o ostyngiad yn ein perfformiad talu o ganlyniad i glirio'r ôl-groniad o anfonebau oherwydd mudo'r system ac wrth i ddefnyddwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o weithio gyda'r system newydd.

## Offerynnau ariannol

Nid oes gennym fenthyciadau; ar gyfer ein gofynion arian parod rydym yn dibynnu'n bennaf ar incwm o ffioedd trwydded, hawliadau ar gronfa wrth gefn Trysorlys EF ar gyfer cyfalaf gweithiol a benthyciadau ad-daladwy o'r Gronfa Wrth Gefn. Nid ydym, felly, yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 8 yn y cyfrifon.



**David Black**
**Swyddog Cyfrifyddu** **18 Gorffennaf 2023**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Cyfrifon Adnoddau y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo Ofwat i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol gyfrifon adnoddau sy'n rhoi manylion yr adnoddau sydd wedi eu caffael, a ddelir, neu a waredwyd a defnydd Ofwat o adnoddau yn ystod y flwyddyn.

Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofwat a'i incwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i wneud y canlynol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu priodol (fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth) wedi eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw newidiadau o bwys yn y cyfrifon;
- cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r farn sydd ei hangen ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, cytbwys ac yn ddealladwy; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon hwn ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r farn sydd ei hangen ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, cytbwys ac yn ddealladwy.

Penododd Trysorlys EF David Black, y Prif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu Ofwat. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau Ofwat, wedi eu hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Ofwat yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Adroddiad Atebolrwydd

## Datganiad Llywodraethu - Crynodeb

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn amlinellu ein trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'n berthnasol i flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 a, lle bo hynny'n briodol, hyd at ddiwrnod cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau Trysorlys EF.

## Fframwaith llywodraethu

Mae Ofwat yn cadw at egwyddorion Trefn Lywodraethu Gorfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog: cod arfer da).[7]

Mae'r datganiad llywodraethu yn nodi:

- crynodeb o elfennau allweddol ein fframwaith llywodraethu;
- adolygiad o'n heffeithiolrwydd yn 2022-23; a
- datganiad y Swyddog Cyfrifyddu.

## Effeithiolrwydd a sicrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf i, ynghyd â Bwrdd Ofwat, yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd ein system rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol, wedi ei lywio gan archwiliad mewnol ac allanol a gweithrediad y fframwaith rheolaeth fewnol. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) wedi rhoi'r gefnogaeth a'r her wrth adolygu effeithiolrwydd ein system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd yn rhoi golwg annibynnol i mi o'n perfformiad ar lefel Bwrdd ac yn eu rolau ar bwyllgorau Bwrdd Ofwat.

Mae gennyf sicrwydd llawn bod system gynhwysfawr o sicrwydd a rheolaethau yn cael ei chynnal i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu er mwyn sicrhau cydymffurfedd ag egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus ac yn benodol y rheini mewn perthynas â llywodraethu, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol. Yn ogystal â'r gwiriadau arferol a wnaed yn ystod y flwyddyn, rydw i wedi cael sicrwydd ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion gorfodol o dan y Safonau Swyddogaethol perthnasol gan y Llywodraeth. Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol, Cadeirydd Anweithredol y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol sy'n Gadeiryddion Pwyllgorau, yn benodol ARAC, rwy'n fodlon bod gen i'r lefel angenrheidiol o sicrwydd i gyflawni fy nghyfrifoldebau'n effeithiol parthed y cyfnod a gwmpesir gan y Datganiad Llywodraethu hwn. Mae'r cofnodion llawn ar gael fel y'u nodir isod.

[7] https://www.gov.uk/government/publications/corporate-governance-code-for-central-government-departments-2017

Mae strategaeth Ofwat, sy'n cyd-fynd â datganiadau polisi ac amcanion strategol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn rhoi sail i'n blaenoriaethau blynyddol, a nodir yn y blaenraglen bob blwyddyn yn dilyn ymgynghori. Mae hon yn ysgogi ein gwaith ac yn y pen draw pob un o amcanion ein pobl. Mae cyfarwyddwyr, rheolwyr cyflawni prosiectau ac Arweinwyr Pobl yn adolygu cynnydd yn erbyn ein cynlluniau yn rheolaidd. Bydd yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd yn adolygu cynnydd ar draws ein portffolio bob chwarter blwyddyn a gwneir addasiadau lle bo hynny'n briodol i adlewyrchu newidiadau mewn amgylcheddau mewnol ac amgylcheddau allanol, yn gyson â'n dyletswyddau. Mae ein proses archwilio yn adolygu ein rheolaethau ar draws ein gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn, er mwyn rhoi sicrwydd bod y rheolaethau hynny a'r sicrwydd yr ydym yn ei gael ganddynt yn effeithiol drwy Ofwat yn gyfan. Rhoddodd ein harchwilwyr mewnol, RSM, adroddiad sicrwydd ar ddiwedd y flwyddyn ar sail y rhaglen archwilio mewnol y cytunwyd arni gydag ARAC. Cafodd cynnydd yn erbyn y rhaglen hon ei fonitro gan ARAC a rhannwyd adroddiadau sicrwydd archwiliad mewnol gyda'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd ffurfiol a thu allan i gyfarfodydd os nad oedd yr amseru'n gyson ac i sicrhau cyfathrebu prydlon.


O ran ein hamgylchedd risgiau a chyfleoedd, caiff hyn ei fonitro'n agos drwy adolygiadau rheolaidd o'n cofrestr risg strategol gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a thrwy reolaeth weithredol o gofrestri risg mewn timau prosiect, a chymerir unrhyw gamau sydd eu hangen yn unol â hynny. Mae'r risgiau strategol wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau portffolio chwarterol i'r Bwrdd ac fe'u cyflwynir hefyd i ARAC er mwyn eu trafod. Mae risgiau diogelwch (gan gynnwys risgiau gwybodaeth) a risgiau seiber yn cael eu huwchgyfeirio lle bo angen gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) a'r Swyddog Diogelu Data. Drwy gydol y flwyddyn cafodd ARAC sicrwydd ar ddiogelwch (gan gynnwys risgiau gwybodaeth) a risgiau seiber. Gwnaethom gymryd camau i gadarnhau ein hamgylchedd risg a'n cydymffurfiad â deddfwriaeth sancsiynau berthnasol ac i weithio gyda'r rheini rydym yn eu rheoleiddio i sicrhau bod ganddynt drefniadau llywodraethu a rheolaethau priodol ar waith.

Yn ogystal, mae ARAC yn derbyn cyflwyniadau adolygiad risg at wraidd y mater ar feysydd risg allweddol gan y tîm atebol, gan gwmpasu risgiau strategol a risgiau prosiect. Yn ogystal â'i arolygiaeth reolaidd o reoli risg a sicrwydd effeithiol, mae'r adolygiadau gan ARAC eleni wedi cynnwys: cynllunio senarios, caffael Partner Cyflawni PR24, rheoli ein rhwymedigaethau cofnodion cyhoeddus, a chwythu'r chwiban.

Asesir ein gofynion o ran adnoddau yn rheolaidd yng nghyd-destun ein cynllun gweithredol treigl. O ran ariannu cyffredinol a llywodraethu corfforaethol, caiff cynnydd yn erbyn ein cyllideb a'n blaenraglen ei fonitro'n barhaus. Byddwn yn cynnal adolygiad misol trylwyr o gyllidebau a chynnydd yn erbyn y cerrig milltir yr ydym wedi'u gosod. Adlewyrchir hyn hefyd yn yr adroddiad portffolio misol i'r Bwrdd. Mae hyn wedi helpu i liniaru ymhellach risgiau sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith a'r her o gydbwyso'r rhain gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni, gan sicrhau bod lles ein pobl yn ystod eleni yn parhau wrth wraidd ein darpariaeth.

## Fframwaith llywodraethu Ofwat yn ystod 2022-23

Yn ystod y flwyddyn trefnwyd Ofwat mewn cyfres o Glystyrau a thimau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, cydweithredu ac ystwythder ar draws meysydd gwaith sy'n cysylltu'n agos â'i gilydd. Mae strwythur y clwstwr wedi'i nodi isod. Cefnogwyd y timau o fewn clystyrau gan bartneriaid Rheoli Prosiectau a Rhaglenni (PPM) i sicrhau bod y portffolio gwaith yn cael ei reoli a'i gyflawni o fewn y Clystyrau ac ar draws Ofwat yn gyfan.





Y ddau Glwstwr polisi craidd oedd Adolygiadau Perfformiad a Phrisiau Cwmnïau a Pholisïau a Chanlyniadau. Croesawodd Adolygiadau Perfformiad a Phrisiau Cwmnïau ein gwaith ar yr adolygiad prisiau ar gyfer 2025-30, perfformiad a mewnwelediadau cwmnïau, yn ogystal â gweithredu ein strategaeth ddata a'r swyddogaeth cyswllt â buddsoddwyr. Croesawodd y Clwstwr Polisi a Chanlyniadau ein gwaith ar yr amgylchedd, gwasanaeth cwsmeriaid ac ymgysylltu â chwsmeriaid, gwytnwch ariannol,

arweinyddiaeth a llywodraethu bwrdd, arloesi, marchnadoedd a chodi tâl, ymgysylltu â'r llywodraeth, a'n gwaith a arweinir gan Ofwat ar adnoddau strategol (Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid a Tideway). Mae gan dîm RAPID ryngwynebau gyda'r ddau Glwstwr o ran polisi.

Roedd ein swyddogaethau Galluogwyr Rheoleiddio yn cwynnwys trwyddedu, gorfodi ac ymholiadau a chwynion cwsmeriaid, cyfreithiol a llywodraethu, cyfathrebu ac ymchwil cwsmeriaid, a thîm y Prif Economegydd. Roedd ein swyddogaethau Galluogwyr Corfforaethol yn cynnwys Pobl, TG/Digidol, Cyfleusterau/Cymorth Busnes, a Chyllid a Chaffael.

O 1 Mai 2023 rydym wedi symud i strwythur Cyfarwyddiaeth newydd gyda'r Cyfarwyddiaethau canlynol.

### Cyfarwyddiaethau




Mae ffocws pob un o'r Cyfarwyddiaethau hyn fel a ganlyn:

**Adolygiadau prisiau** – cyflawni ein hadolygiad prisiau 2025-30, gweithredu PR19, ac edrych ymlaen at gyfnodau yn y dyfodol; polisi cysylltiadau buddsoddwyr a'r amgylchedd.

**Perfformiad y Sector** – cryfhau'r oruchwyliaeth o berfformiad cwmnïau, gan ddod â'r tîm mewnwelediad ac effaith, strategaeth data, gwytnwch ariannol, a thimau gwytnwch gweithredol ynghyd, yn ogystal â'n timau strategaeth, cysylltiadau â'r llywodraeth, a llywodraethu cwmnïau.

**Gwaith Achos, Gorfodi a Chwsmeriaid** – gorfodi, gwaith achos a thrwyddedu, a pholisi cwsmeriaid.

**Prosiectau Mawr a Marchnadoedd** – datblygu asedau ac adnoddau yn y dyfodol (DPC (Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid) a Tideway), polisi manwerthu busnes, polisi penodiadau newydd ac amrywiadau (NAV) a chodi tâl. Mae'r Gyfarwyddiaeth hon yn gweithio'n agos gyda RAPID wrth i brosiectau gael eu cymeradwyo a'u trosglwyddo o RAPID.

**RAPID a Chynllunio Amgylcheddol** – yn ogystal â pharhau â gwaith y gynghrair RAPID mewn noddi datblygiad opsiynau cyflenwi strategol newydd ar raddfa fawr, bydd y gyfarwyddiaeth hon yn ganolbwynt i'n hymgysylltiad cynnar ar gynllunio adnoddau dŵr a dŵr gwastraff.

**Swyddfa'r Prif Weithredwr** – cyfreithiol, cyfathrebu ac ymchwil cwsmeriaid, llywodraethu a rheoli portffolio, llywodraethu gwybodaeth, Swyddfa'r Weithrediaeth a Chynorthwywyr Personol, a thîm y Prif Economegydd.

**Galluogwyr Corfforaethol** – Hyb Pobl, Cyllid, Caffael a TG/cyfleusterau a rheoli gweithle.

## Ein strwythur llywodraethu

Mae gan Ofwat system lywodraethu tair haen:

- ein Bwrdd a phwyllgorau'r Bwrdd;
- ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth;
- ein fframwaith llywodraethu.

Mae'r fframwaith hwn yn ein galluogi ni i wneud penderfyniadau effeithiol a thryloyw ac yn galluogi i'n Cyfarwyddwyr Anweithredol roi sicrwydd a herio fel sy'n briodol.

## Bwrdd Ofwat

Fel Adran Llywodraeth Anweinidogol, a rheoleiddiwr economaidd annibynnol, mae rôl y Bwrdd yn hollbwysig i'n llwyddiant. Mae'r Bwrdd, sy'n cynnwys cymysgedd o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol, yn cynorthwyo i'n harwain yn strategol a darparu her a chyngor i'r Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol ar eu datblygiad a gweithrediad strategaeth Ofwat a'n cynllun busnes, a pherfformiad yn erbyn y cynllun hwnnw.

Mae gan Fwrdd Ofwat fwyafrif o Gyfarwyddwr Anweithredol annibynnol gyda Chadeirydd Anweithredol. Yn ystod 2022-23 roedd aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys chwe Chyfarwyddwr Anweithredol yn ychwanegol at y Cadeirydd a phedwar Cyfarwyddwr Gweithredol, yn cynnwys y Prif Weithredwr.

Nid oes gan y rhai a benodir fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ofwat hawl i dâl cysylltiedig â pherfformiad na hawliau pensiwn.

### Profiad, sgiliau a hyfforddiant


Mae aelodaeth y Bwrdd yn rhoi’r cydbwysedd sydd ei angen o brofiad ac arbenigedd sy’n cwmpasu ein swyddogaethau, dyletswyddau a'n strategaeth.  Parhaodd y Bwrdd i gael sesiynau addysgu penodol ar nifer o feysydd o waith Ofwat a mynychodd aelodau’r Bwrdd nifer o ymweliadau safle cwmnïau hefyd.

### Amrywiaeth Bwrdd


Isod rydym yn nodi data ynglŷn ag amrywiaeth y Bwrdd gan adlewyrchu cyfansoddiad y Bwrdd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Er mwyn cryfhau cymysgedd gwybodaeth a sgiliau aelodaeth pwyllgorau mae gennym aelod annibynnol sy’n eistedd ar ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn ogystal, fel rhan o fenter NEDs y Genhedlaeth Nesaf UKRN, sy’n ceisio hyrwyddo mwy o amrywiaeth mewn penodiadau fel Cyfarwyddwyr Anweithredol dros y tymor hir, roedd gennym arsyllwr ar y Pwyllgor hwn a ymunodd am flwyddyn o fis Rhagfyr 2021 i fis Rhagfyr 2022. Rydym yn parhau â’r rhaglen hon yn 2022-23, gan gynnwys gyda’n Pwyllgor Pobl. Yn ogystal, rydym yn cymryd rhan yng nghynllun prentis Ystafell Fwrdd y DU ac ymunodd ein prentis ystafell fwrdd cyntaf ym mis Ionawr 2023.


**Cyfansoddiad y Bwrdd**





**Hyd gwasanaeth y Bwrdd**




**Bwrdd – dadansoddiad yn ôl rhyw**




**Bwrdd – dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd**




Mae'r Bwrdd yn darparu:

- **Her:** mae gan y Bwrdd amrediad o rolau o ran rhoi her i'r Weithrediaeth yn ychwanegol at ei rôl gwneud penderfyniadau ei hun. Mae hyn yn cynnwys adolygu a herio ein blaenraglen waith a pherfformiad yn erbyn y rhaglen honno, a rhoi her i benderfyniadau arfaethedig y mae Ofwat yn eu gwneud fel corff statudol.
- **Arbenigedd**: darparu arbenigedd i'r cyhoedd yn ehangach a'r sector preifat er mwyn cynorthwyo i siapio datblygiad a darpariaeth strategaeth Ofwat ac i wella ein perfformiad.
- **Strategaeth**: cytuno ar ein strategaeth a sicrhau bod ein cyfeiriad strategol yn glir ac yn gyflawnadwy, gan roi ystyriaeth i risg a chanolbwyntio ar lwyddiant hirdymor Ofwat a gwerth ar gyfer y rheini sy'n talu biliau dŵr.
- **Cefnogaeth**: adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd ynglŷn â chywirdeb y datganiadau ariannol, gosod archwaeth am risg Ofwat a sicrhau bod prosesau rheoli risg a rheolaethau Ofwat yn gadarn, priodol a chymesur, gan gefnogi'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Bwrdd hefyd yn cymeradwyo gwariant sylweddol.

Nid oes gan y Bwrdd rôl mewn gwneud penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd oni bai am faterion a neilltuir ar gyfer y Bwrdd a nodir yn ein Rheolau Trefniadaeth Bwrdd. Bydd y Cwnsler Cyffredinol yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd ac mae'n atebol i'r Bwrdd am ddarparu cyngor cyfreithiol.

Cyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol 11 o weithiau yn 2022-23 mewn cymysgedd o fformatau cwbl rithwir a hybrid. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar wefan Ofwat. Ym mhob cyfarfod (ac yn ystod mis Awst pan nad yw'r Bwrdd yn cyfarfod) mae'r Bwrdd yn cael diweddariad gan y Prif Weithredwr sy'n ymdrin â: datblygiadau o ran gweithrediad ein strategaeth; goruchwyliaeth prosiectau; materion gweithredol (cyllid, pobl, TG a chaffael) a llywodraethu; ffyrdd o weithio; a chyfathrebu. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ddatblygiadau perthnasol ac unrhyw risgiau allweddol i gyflawni.

Drwy gydol y flwyddyn, bu'r Bwrdd yn ystyried yr ystod lawn o faterion sy'n berthnasol i strategaeth Ofwat, gan gynnwys datblygu ein methodoleg PR24, perfformiad cwmnïau (yn gyffredinol ac yn mynd i'r afael â materion cwmni penodol), perfformiad amgylcheddol cwmnïau a mentrau newydd i ddiogelu'r amgylchedd yn well, opsiynau adnoddau dŵr strategol a chynllunio rhanbarthol, datblygu cynlluniau draenio a rheoli dŵr gwastraff cwmnïau, arloesi a data agored, polisi defnyddwyr yn enwedig mewn perthynas â chwsmeriaid sy'n agored i niwed, ein hymagwedd at wydnwch ariannol a thâl gweithredwyr sy'n gysylltiedig â pherfformiad, a'n hymyriadau ar hynny, a datblygiadau yn y farchnad manwerthu busnes. Bu'r Bwrdd yn monitro'r cynnydd o ran cyflawni ein strategaeth ac ystyriwyd sut yr oedd angen iddi ddatblygu yng ngoleuni'r heriau presennol ac, o ran ein gweithgareddau galluogi mewnol, ystyriodd y cynnydd mewn cyflawni ein cynllun trawsnewid ariannol a'n strategaeth TG. Gwnaethom hefyd wahodd nifer o westeion allanol i'n Bwrdd i gadarnhau perthnasoedd gwaith agosach neu'n syml i ddod â'r "tu allan i mewn" i'n Bwrdd ac i ddysgu gan brofiad sefydliadau eraill:

- Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Asiantaeth yr Amgylchedd, ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn, Prif Arolygydd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, i drafod yr heriau canolog sy'n wynebu'r sector a'n gweledigaeth gyffredin ar gyfer mynd i'r afael â hwy a sut y gallem gydweithio'n agosach
- Cadeirydd y Sefydliad Data Agored i drafod sut i ysgogi newid yn y defnydd o ddata agored yn y sector dŵr
- Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid, UK Power Networks i drafod sut y maent wedi trawsnewid gwasanaeth cwsmeriaid
- Savanta, i drafod canfyddiadau allweddol yr ymchwil a gomisiynwyd gan Ofwat i ganfyddiadau cwsmeriaid o'r sector dŵr a lefelau ymddiriedaeth yn y sector a chwmnïau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau yng Nghymru a Lloegr.

**Mae'r graffiau yn rhoi ciplun ar 31 Mawrth 2023.**

## Cofrestr buddiannau

Mae Rheolau Trefniadaeth y Bwrdd yn cynnwys gofynion a chanllawiau ar ddatgelu a rheoli gwrthdaro buddiannau posibl a gwirioneddol y gallai fod gan aelodau'r Bwrdd. Maent yn darparu nad oes gan yr aelod Bwrdd dan sylw yr hawl i bleidleisio ar unrhyw benderfyniad parthed unrhyw fater sy'n achosi gwrthdaro a bydd pob cyfarfod Bwrdd yn dechrau gyda datgeliad unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod yn berthnasol i faterion sydd ar yr agenda, a fydd wedyn yn cael ei nodi yn y cofnodion. Rydym hefyd yn cadw cofrestr buddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Cyhoeddir cofrestr o fuddiannau datgeladwy aelodau'r Bwrdd ochr yn ochr â'r Rheolau Trefniadaeth ac fe'i diweddarir yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn Ofwat, mae'r Rheolau Trefniadaeth hefyd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â phenodiadau wrth adael y swydd i reoli gwrthdaro posibl. Mae pob penodiad allanol yn destun craffu yn unol â'r rheolau penodiadau busnes.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Dirprwyir neu aseinir gwaith i bum pwyllgor y Bwrdd, lle bydd grwpiau llai o Gyfarwyddwyr Anweithredol ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gallu archwilio materion mewn rhagor o fanylder. Darperir adroddiadau i'r Bwrdd i'w trafod a, lle bo hynny'n briodol, i benderfyniadau gael eu gwneud. Cadeirir pob un gan Gyfarwyddwr Anweithredol. Pwyllgorau cefnogi'r Bwrdd yw:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Pwyllgor Pobl
- Pwyllgor Gwaith Achos
- Pwyllgor Prosiectau Mawr
- Pwyllgor Enwebiadau

| Pwyllgor | Rolau a chyfrifoldebau | Materion a ystyriwyd |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**<br>**Cadeirydd: Alison Munro** | Diben y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yw cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu gyda'u cyfrifoldebau am reoli materion risg, rheolaeth, llywodraethu a sicrwydd cysylltiedig. Mae'n adolygu'r ffynonellau sicrwydd sydd ar waith i fodloni anghenion y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu, gan ystyried a ydynt ddigon cynhwysfawr a chyflawn, adolygu eu dibynadwyedd a'u huniondeb, a rhoi barn (parthed trefn lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol) ynglŷn â pha mor dda y caiff y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau o ran atebolrwydd. | Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith. Ym mis Mai 2022, cyflwynodd y Pwyllgor ei argymhelliad i'r Bwrdd gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol ac ystyriodd y dull o ymdrin â chyfrifon blynyddol 2022-23 ac adroddiadau llywodraethu a pherfformiad drafft ym mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023 yn y drefn honno. Roedd materion eraill a drafodwyd gan y Pwyllgor yn 2022-23 yn cynnwys:<br>• adolygiadau manwl yn canolbwyntio ar risgiau strategol allweddol a sicrwydd, a risgiau clwstwr (gan gynnwys cynllunio senarios a'n dull ni a'r sector ar gyfer chwythu'r chwiban);<br>• strategaeth TG a Map Ffordd wedi'i adnewyddu ar gyfer 2022-2024, ochr yn ochr ag adolygiad o'r Model Gweithredu TG;<br>• cynllunio, strwythur a sicrwydd Partner Cyflawni PR24;<br>• diweddariad gan ein cynghorydd diogelwch ar y cyd o dan Grŵp Clwstwr Diogelwch y Llywodraeth;<br>• rheoli ein rhwymedigaethau cofnodion cyhoeddus; |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r Pwyllgor yn gweithredu mewn swyddogaeth cynghori yn unig i'r Bwrdd ac nid oes ganddo unrhyw bwerau gweithredol. | • cynnydd o ran gweithredu Strategaeth Ddata Ofwat a diweddariad ar weithrediad y Prosiect Trawsnewid Cyllid;<br>• diweddariad ar drefniadau parhad busnes;<br>• canlyniadau nifer o adroddiadau archwilio mewnol ochr yn ochr ag adolygiad rheolaidd o gynnydd yn erbyn y cynllun archwilio mewnol blynyddol; ac<br>• adolygiadau rheolaidd o'n cynnydd o ran gweithredu camau sy'n deillio o archwiliad mewnol ac allanol ac adolygiadau eraill.<br>Cwblhawyd yr holl adolygiadau archwiliad mewnol a drefnwyd, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor, gyda chanfyddiadau yn rhoi sicrwydd naill ai sylweddo, cymedroll neu ddigonol (gyda sicrwydd digonol yn adlewyrchu bod angen rhai gwelliannau er mwyn gwella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth). Roedd y materion a adolygwyd yn cynnwys:<br>• Rheolaethau Ariannol Allweddol – Systemau Ariannol;<br>• Rheolaethau Seiberddiogelwch;<br>• Fframwaith Cyflogres;<br>• Fframwaith Adrodd ar Berfformiad Busnes; ac<br>• Adolygiad dilynol i brofi gweithrediad y camau y cytunwyd arnynt.<br>Yn gyffredinol, ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, barn archwiliiad mewnol RSM yw bod gan Ofwat fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, nododd ei waith welliannau pellach i'n fframwaith i sicrhau ei fod yn parhau yn ddigonol ac effeithiol, er enghraifft mewn perthynas â'n fframwaith cyflogres. Rydym wedi cytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r holl ganfyddiadau sy'n gysylltiedig â'n hadroddiadau archwiliad mewnol ac mae'r broses o'u cyflawni'n cael ei monitro. |
| **Pwyllgor Pobl**<br>**Cadeirydd: Seema Kennedy** | Rôl y Pwyllgor Pobl yw goruchwylio gweithrediad y Strategaeth Pobl a mynd i'r afael yn benodol â thâl ac amodau cyflogaeth gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS). | Cyfarfu'r Pwyllgor [3] gwaith yn ystod y flwyddyn. Roedd materion a drafodwyd yn ystod 2022-23 yn cynnwys:<br>• canlyniadau arolwg cyflogeion Ofwat, gan gynnwys y cynllun gweithredu cysylltiedig;<br>• canlyniadau arolwg cyflogeion Ofwat, gan gynnwys y cynllun gweithredu cysylltiedig;<br>canlyniadau'r arolwg Iechyd a Lles ac adolygu rhaglen lles Ofwat;<br>• Adolygu cyfraddau gadael a chadw yn Ofwat;<br>• Asesiad o gynnydd Ofwat o ran cyflawni ar allbynnau ei strategaeth Pobl, gan gynnwys blaenoriaethu meysydd cyflawni yn y dyfodol;<br>• cynnydd o ran cyflawni ein strategaeth EDI;<br>• gwybodaeth rheoli yn ymwneud â materion a thueddiadau cysylltiedig â staff;<br>• asesiad o weithrediad ac effaith gweithio hybrid;<br>• tâl a gwobr ar gyfer cylch gwaith tâl staff sydd ddim yn uwch weision sifil a'r uwch weision sifil. |
| **Pwyllgor Gwaith Achos**<br>**Cadeirydd: Nicola Bruce** | Mae'r Pwyllgor Gwaith Achos yn gyfrifol am wneud rhai penderfyniadau terfynol mewn achosion gorfodaeth strategol y mae Ofwat yn mynd i'r afael â hwy. | Yn ystod y cyfnod cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith i drafod dull Ofwat ar gyfer gorfodi a'n hachosion gorfodi agored fel rhan ganfod y materion sylfaenol cyn gofyn iddo wneud penderfyniadau terfynol ar yr achosion strategol hyn. |
| **Pwyllgor Prosiectau Mawr**<br>**Cadeirydd:**<br>**Jonson Cox (tan 30/6/22)**<br>**Iain Coucher (o 1/7/22)** | Diben y Pwyllgor yw gwneud penderfyniadau perthnasol a darparu her, cefnogaeth a chyngor i'r Weithrediaeth mewn perthynas â phrosiect Twnnel Thames Tideway a phrosiectau Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid, yn ogystal â phenderfyniadau mewn perthynas â | Yn ystod y flwyddyn cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith lle cafodd ddiweddariadau ar Brosiect Twnnel Thames Tideway (TTT) a phrosiectau DPC (Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid) gan gynnwys Rhaglen Gwytnwch Traphont Ddŵr Haweswater United Utilities (HARP), prosiect Middlegate Anglian Water a Phrosiect Cwm Taf Dŵr Cymru Welsh Water.  Derbyniodd y Pwyllgor hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect Cronfa Ddŵr Storio Gaeaf Havant Thicket (Havant Thicket) Portsmouth Water.<br>Roedd y penderfyniadau a wnaed yn cynnwys: |

| | | |
|---|---|---|
| | phrosiect Havant Thicket (mewn g rym o fis Awst 2022). | • Cymeradwyo cytundeb setliad masnachol rhwng Bazalgette Tunnel Limited (Tideway) ac un o'i Brif Gontractwyr Gwaith;<br>• Diwygio trwydded Tideway i newid y Dyddiad Derbyn System Cynlluniedig o 28 Chwefror 2027 i 31 Awst 2027;<br>• Dynodi Cwm Taf yn brosiect DPC; a<br>• Phenderfyniad terfynol ar fecanwaith addasu costau Havant Thicket. |
| **Pwyllgor Enwebiadau**<br>**Cadeirydd: Iain Coucher[8]** | Rôl y Pwyllgor yw adolygu, a gwneud argymhellion ar strwythur, maint a chyfansoddiad y Bwrdd; bod yn gysylltiedig yn y gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer aelodau'r Bwrdd, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a rolau uwch eraill; a bod yn gysylltiedig ym mhenodiad unrhyw aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. | Yn ystod 2021-22, cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith mewn perthynas â phenodi Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer PR24, a'r Cyfarwyddiaethau Perfformiad Sector, Prosiectau a Mawr Marchnadoedd, a Gwaith Achos, Gorfodi a Chwsmeriaid newydd. |

## Telerau penodiad a phresenoldeb aelodau'r Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi chwarae rhan lawn ym musnes y Bwrdd drwy fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau'r Bwrdd.

### Ebrill 2022 hyd Mawrth 2023Ω

| Aelod Bwrdd | | Cyfarfodydd Bwrdd (11)# | Cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (7) | Cyfarfodydd Pwyllgor Pobl (3) | Cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith Achos (6) | Cyfarfodydd Pwyllgor Enwebiadau (2) | Cyfarfodydd Pwyllgor Prosiectau Mawr (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Iain Coucher**<br>**Cadeirydd** | | 9/9* | - | 2/2 | - | 2/2 | 6/6 |
| **Tymor yn dechrau 01/07/2022** | **Tymor yn gorffen 30/06/2026** | | | | | | |
| **Jonson Cox**<br>**Cadeirydd** | | 3/3 | - | 1/1 | - | 0/0 | 2/2 |
| **Tymor yn dechrau 01/11/2012** | **Tymor wedi dod i ben 30 Mehefin 2022** | | | | | | |
| **Mark Bayley**<br>**Cyfarwyddwr Anweithredol** | | 9/11 | 7/7 | - | 1/1** | - | 6/7 |
| **Tymor yn dechrau 28 Ebrill 2016** | **Tymor yn dod i ben 31 Hydref 2025** | | | | | | |
| **Alison Munro**<br>**Cyfarwyddwr Anweithredol** | | 11/11 | 7/7 | - | - | 2/2 | 6/7 |
| **Tymor yn dechrau 28 Ebrill 2016** | **Tymor yn dod i ben 31 Hydref 2025** | | | | | | |
| **Nicola Bruce**<br>**Cyfarwyddwr Anweithredol** | | 11/11 | - | - | 6/6 | - | - |
| **Tymor yn dechrau 1 Rhagfyr 2020** | **Tymor yn dod i ben 30 Tachwedd 2025** | | | | | | |
| **David Jones** | | | | | | | |

[8] Ac eithrio pan fydd yn delio â materion yn ymwneud â chadeirydd y Bwrdd.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Anweithredol | Tymor yn dechrau 1 Rhagfyr 2020 | Tymor yn dod i ben 30 Tachwedd 2024 | 11/11 | 7/7 | - | 5/6 | - | - |
| Seema Kennedy Cyfarwyddwr Anweithredol | Tymor yn dechrau 1 Rhagfyr 2020 | Tymor yn dod i ben 30 Tachwedd 2024 | 11/11 | - | 3/3 | - | 2/2 | - |
| Jonathan Kini Cyfarwyddwr Anweithredol | Tymor yn dechrau 1 Rhagfyr 2020 | Tymor yn dod i ben 30 Tachwedd 2023 | 11/11 | - | 3/3 | - | - | 6/7 |
| David Black Ω Ω Prif Weithredwr | Tymor yn dechrau 28 Mai 2022 | Tymor yn dod i ben 27 Mai 2027 | 11/11 | 7/7 | 3/3 | 6/6 | 2/2 | 7/7 |
| Aileen Armstrong Uwch Gyfarwyddwr | Tymor yn dechrau 16 Mai 2016 | Tymor wedi dod i ben 16 Mehefin 2023 | 11/11 | - | - | - | - | - |
| John Russell Uwch Gyfarwyddwr | Tymor yn dechrau 25 Gorffennaf 2016 | Tymor yn dod i ben 30 Mehefin 2023 | 10/11 | - | - | - | - | 5/7 |
| Lisa Commane Uwch Gyfarwyddwr | Tymor yn dechrau 1 Ebrill 2021 | Tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2026 | 11/11 | 7/7 | 3/3 | 5/6 | - | - |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Vanessa Howlison Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risgβ | Tymor yn dechrau 1 Ionawr 2015 | Tymor yn dod i ben 30 Mehefin 2023 | 1/1 | 6/7 | - | - | - | - |

Ω Nodir presenoldeb drwy gyfeirio at nifer y cyfarfodydd y gallai aelodau'r Bwrdd fod wedi'u mynychu tra'u bod yn aelodau o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.
Ω Ω Penodwyd David yn Brif Weithredwr ar 20 Ebrill 2022, ar ôl gwasanaethu fel Prif Weitredwr Dros Dro ers mis Ebrill 2021
β Mynychodd Vanessa Howlison ran o gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf fel arsyllwr.
* Mynychodd Iain Coucher gyfarfod Bwrdd mis Mai fel arsyllwr.
** Mynychodd Mark Bayley gyfarfod addysgu Pwyllgor Gwaith Achos mis Rhagfyr afel arsyllwr.
# Cafodd y Bwrdd hefyd ddau alwad Bwrdd anffurfiol ym mis Awst a mis Medi 2022 i ystyried perfformiad y sector yn ystod y sychder.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Bydd y Bwrdd yn adolygu'n rheolaidd ei effeithiolrwydd ei hun fel rhan o reolaeth bob cyfarfod a thrwy gyfarfodydd rheolaidd eraill, yn cynnwys cyfarfodydd 1:1 gyda'r Cadeirydd. Bydd y Bwrdd yn manteisio ar y cyfle i gyfarfod yn fwy anffurfiol drwy gydol y flwyddyn a gwella ei gydlyniant fel tîm.

Wrth ystyried ei rôl yn ystod y flwyddyn, cydnabu'r Bwrdd fod Ofwat yn mynd trwy nifer o newidiadau yn ystod y flwyddyn ariannol ac roedd yn rhaid iddo sicrhau ei fod wedi'i gyfarparu'n llawn i Ofwat chwarae ei ran i ymateb i'r heriau a wynebir gan y sector. Mae hyn yn debygol o gynnwys goruchwyliaeth fwy gweithredol a hyd yn oed mwy o gydweithio a phartneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ehangach, llywodraethau a rheoleiddwyr eraill. Ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod yw sicrhau y gwneir penderfyniadau effeithiol ar gyfer PR24 a'r ffordd orau o ddefnyddio sgiliau'r Bwrdd drwy ei strwythur Pwyllgorau ac yn anffurfiol.

Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad allanol o effeithiolrwydd y bwrdd yn Ch2/Ch3 2023-24.

## Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cynnwys aelodau gweithredol y Bwrdd, Uwch Gyfarwyddwyr eraill, a'r Cwnsler Cyffredinol.. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cyfarfod yn aml ac yn ystyried materion sy'n ymwneud â rheolwyr, portffolio o weithgarwch ac adnoddau Ofwat, yn amodol ar gyfeiriad cyffredinol, pwerau a neilltuwyd ac arolygaeth y Bwrdd. Yn gyffredinol, nid yw'n gweithredu fel fforwm gwneud penderfyniadau, ond mae'n rhoi arweiniad i neu'n llywio'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol, gan gynnwys y Prif Weithredwr. Roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr, RAPID, hefyd yn bresennol, ar wahoddiad y Prif Weithredwr, gan weithredu mewn rôl arsylwi i'r graddau y ceisiwyd penderfyniadau.

Mae ei ffocws yn strategol ar draws portffolio Ofwat, yn cynnwys sganio'r gorwel a chraffu ar faterion risgiau a chyfleoedd strategol. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ein cydberthynas ac ar sicrhau bod gennym y bobl, systemau, prosesau a'r polisïau cywir yn eu lle i gefnogi cyflawniad ein strategaeth. Mae'n chwarae rôl arweinyddiaeth allweddol, yn arbennig o ran goruchwylio ac arddangos ein gwerthoedd, ymddygiadau a diwylliant. Rhoddir adborth yn erbyn ein portffolio i bob cyfarfod Bwrdd drwy adroddiad y Prif Weithredwr.

Mae gennym bedwar grŵp llai yn cynnwys aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chydweithwyr uwch eraill i ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- Gwella busnes a chynllunio
- Pobl
- Strategaeth data
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid

## Ffyrdd i weithio er mwyn cyflawni ein strategaeth

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi pharhau i gyflawni ar y tair strategaeth alluogi allweddol - Pobl, TG a Chyllid - i alluogi ein trawsnewidiad mewnol i gefnogi cyflawniad ein strategaeth [Amser i Weithredu, gyda'n gilydd](Amser i Weithredu, gyda'n gilydd).

Mae ein Strategaeth Pobl yn canolbwyntio ar bum thema allweddol er mwyn cyflawni ein gweledigaeth i drawsnewid Ofwat o fod yn lle gwych i weithio i fod yn lle gwych i fod:

- Bod yn Arweinwyr: Arweinyddiaeth;
- Bod ein Gorau: Rheoli a Datblygu Doniau;
- Bod yn Iach: Iechyd a Lles;
- Bod yn Ni ein hunain: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant;
- Gwaith Gwych: Bod yn Effeithiol a Bodlon.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth a datblygiad ein harweinwyr ar draws Ofwat a diffinio ein proffesiynau a'n llwybrau gyrfa yn well. Mae ein gwaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'w weld yn Atodiad 9.

Rydym wedi parhau i flaenoriaethu'r canlyniadau yn ein strategaeth i ymateb i'r dirwedd fewnol ac allanol sy'n newid. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran trawsnewid ein dull o ddarparu adnoddau, gan ymateb i'r 'ymddiswyddiad mawr', a pharhau i lenwi swyddi gwag mewn marchnad recriwtio gystadleuol barhaus ochr yn ochr â chefnogi pobl â'r argyfwng costau byw. Ar yr un pryd, rydym wedi parhau i gyflawni ein Strategaeth Pobl, gan ganolbwyntio ar arweinyddiaeth, amrywiaeth a chynhwysiant, a gwreiddio ein ffyrdd o weithio.

Dyma'r pedwerydd tro i ni ddefnyddio Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil i ddarganfod sut mae pobl yn teimlo am weithio yn Ofwat. Mae ein cyfradd ymateb yn dal yn gryf ar **81%** (ymatebodd 207 o bobl). Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n gadarnhaol o ystyried cefndir yr heriau rydym wedi bod yn eu hwynebu dros y 12 mis diwethaf.

Mae tuedd ar i lawr yn y canlyniadau ar draws y Gwasanaeth Sifil ehangach, ond mae Ofwat yn dal i berfformio'n well na'r cyfartaledd y Gwasanaeth Sifil ar draws 9 o'r 10 thema graidd ac mae wedi cynnal perfformiad mewn sawl maes.

- Mae ein sgôr Mynegai PERMA yn parhau ar 74% sy'n mesur sut mae pobl yn ffynnu yn y gwaith ac mae'n seiliedig ar y pum dimensiwn: emosiwn cadarnhaol, ymgysylltu, perthnasoedd, ystyr a chyflawniad. Mae sgorau Mynegai PERMA uwch yn cynrychioli lefelau uwch o ffynnu ac ymgysylltu ar lefel unigol neu dîm.
- Ein sgôr Mynegai Straen Dirprwyol yw 24% lle mae sgôr o 100% yn nodi gweithredu mewn amgylchedd llawn straen a sgôr o 0% i'r gwrthwyneb.
- Cawsom sgôr o 85% ar gyfer Cynhwysiant a Thriniaeth Deg sy'n dal i fod 4% yn uwch na'r cyfartaledd y Gwasanaeth Sifil.
- Wrth weithio gartref, mae ymatebwyr wedi adrodd bod cydweithwyr yn dda am gadw mewn cysylltiad yn ffurfiol/anffurfiol, cynnydd gan 15%.
- Mae gan bobl amcanion gwaith clir, cynnydd gan 6%.

- Mae pobl yn gyfforddus yn siarad â chydweithwyr uwch am eu gweithredoedd a'u heffaith, cynnydd gan 9%.
- Mae pobl yn dal i fod â diddordeb yn eu gwaith, gan gynnal sgôr o 83%, ac rydym wedi gweld cynnydd bach yn Sgôr Fy Nhîm, gan gyflawni sgôr o 89%.

Rydym wedi nodi meysydd ffocws ac mae gennym gynlluniau ar waith fel rhan o'r Strategaeth Pobl i wella ein sgôr ymgysylltu (er bod hyn yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil), parhau â'n prosiect tâl a gwobrwyo, hyrwyddo ein harlwy dysgu a datblygu i'n pobl a gwella ein dull ar gyfer rheoli newid.


Ym maes TG, rydym wedi adnewyddu ein strategaeth TG gan ganolbwyntio ar bedair thema wedi'u diweddaru: Seilwaith Gwydn, Ofwat Diogel, Gweithle Digidol a Phrosiectau a Gwasanaethau Digidol. Mae'r map ffordd TG wedi'i weithredu ar gyflymder, gan addasu i'r angen i ddatblygu ymhellach ein hoffer gweithio o bell a chynnal parhad busnes. Rydym wedi symud gwasanaethau i'r cwmwl ac wedi darparu cefnogaeth i agweddau TG ein strategaeth ddata er mwyn gwella ein heffeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chanlyniadau rheoleiddiol. Rydym wedi datblygu cysylltiadau ymhellach â Chlwstwr Diogelwch Trawsnewid y Llywodraeth ar gyfer rhannu gwybodaeth seiberddiogelwch.

Mae **Gwelliant Parhaus** yn alluogwr allweddol i'n helpu i gynllunio ar gyfer a chyrraedd ein nodau drwy gyflwyno offer a thechnegau byw i helpu cydweithwyr i roi pob math o welliannau ar waith yn eu rolau. Mae Modiwlau Hyfforddiant yn dilyn y Pileri **Gwerth** Gwelliant Parhaus yn y gwaith a wnawn, **Rhythm Gweithredu** – amserlennu a blaenoriaethu, Cyfleoedd a datrys problemau ac yna **Cynaliadwyedd** ar gyfer newid parhaol. Mae ein rhaglen Gwelliant Parhaus wedi galluogi Ofwat i ddod yn ddarparwr hyfforddiant Achrededig Effeithiol a gymeradwyir drwy Brifysgol Caerdydd, lle mae 33 o gydweithwyr bellach wedi cymhwyso ar Lefel 1, gyda dau hyfforddwr arall ar Lefel 2. Rydym wedi sefydlu cytundeb fframwaith gwella gyda 6 thîm o arbenigwyr allanol yn gweithio gydag Ofwat i gwblhau 20 o brosiectau newid sylweddol gwahanol llynedd, gan newid prosesau a thrawsnewid sut rydym yn gweithio.


## Rheoli risg

Mae ein fframwaith rheoli risg wedi'i gynllunio i fodloni'r safonau yn Llyfr Oren Trysorlys EF. Mae ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth yn goruchwylio ein hymateb i'r heriau strategol a wynebir gan Ofwat yn gyffredinol. Mae aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gweithredu fel perchennog ar gyfer pob risg, a rhoddir cyfrifoldeb ar gyfer pob gweithred i liniaru. Yn ogystal, mae risgiau unigol yn ein prosiectau, timau a Chlystyrau yn cael eu huwchgyfeirio o gyfarwyddwyr cyflenwi i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'u hadlewyrchu yn y gofrestr risg strategol fel y bo'n briodol.

## Fframwaith risg Ofwat




Cefnogir ein dull gan fframwaith sicrwydd, sy'n tanategu monitro a rheoli risg, a ddangosir isod gan ddefnyddio model tair llinell o amddiffyniad.



## Rheolaethau sicrwydd ar gyfer rheoli risg

Mae ein fframwaith risg yn allweddol i gefnogi'r uchelgeisiau yn ein strategaeth, gan ein helpu i gynllunio a blaenoriaethu, a chryfhau ein gallu i fod yn ystwyth i heriau sy'n dod i'r amlwg. Mae rheoli risg a chyfle wedi'i integreiddio i'n holl waith ac rydym yn parhau i adeiladu ar yr hyn sydd gennym ar waith i fynd â'n dull i lefel uwch o aeddfedrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn derbyn cyflwyniadau adolygu risg ar feysydd risg allweddol a nodwyd yn rheolaidd a gan berchnogion risgiau a chyfleoedd strategol penodol.

Mae'r senarios a wynebir gennym yn gymhleth ac yn amwys ar y cyfan, heb unrhyw atebion syml, diffiniol, ac mae'r amgylchedd risg yn parhau i esblygu'n gyflym. Rydym wedi ceisio sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg wedi datblygu i gefnogi meddwl system gyfan a gwneud penderfyniadau da ar sail risg, gan annog heriau adeiladol, a hyrwyddo cydweithredu, arloesi ac ystwythder. Mae'r fframwaith hefyd yn ceisio galluogi dull cymesur. Rydym yn blaenoriaethu camau lliniaru y disgwyliwn iddynt gael yr effaith fwyaf, ac yn ystyried yr hyn y gallwn ei reoli.

Hefyd yn ystod y flwyddyn fe wnaethom adnewyddu ein risgiau strategol er mwyn darparu mwy o eglurder a mwy o ffocws allanol, gyda risgiau sy'n canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar y risgiau a'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu, yn ogystal â sut mae hyn yn effeithio ar ein rôl fel rheoleiddiwr, ac i sicrhau bod ein risgiau strategol yn parhau i lifo o'r canlyniadau yr ydym yn anelu i'w sicrhau i gyflawni ein strategaeth.

## Archwaeth am risg

Mae ein harchwaeth am risg yn ddeinamig ac fe'i adlewyrchir yn ystyriaeth y Bwrdd o effeithiolrwydd rheoli risgiau a rheoli cyfleoedd. Caiff ei ystyried wrth asesu a rheoli risgiau a gwneud penderfyniadau. Rydym yn parhau i deimlo bod mwy i'w wneud i wreiddio hyn yn llawn yn ein holl benderfyniadau.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno y dylai archwaeth risg Ofwat fod yn 'Agored' yn gyffredinol. Mae hyn yn golygu ein bod yn barod i fod yn arloesol yn ein dulliau rheoleiddio ac yn ein hymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ac yn agored i gymryd risgiau a ystyriwyd yn ofalus lle disgwylir i'r buddion hirdymor i gwsmeriaid fod yn fwy nag unrhyw effeithiau negyddol tymor byr. Pan fyddwn yn derbyn risgiau, rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn deall y risgiau'n llawn fel y gellir dod i farn dda. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen ystyried archwaeth am risg fesul achos mewn amgylchedd cymhleth. Er enghraifft, mae gennym archwaeth leiafsymiol am risgiau a allai achosi difrod sylweddol i ganlyniadau da ar gyfer cwsmeriaid ac rydym yn gwneud yr hyn y gallwn yn rhesymol ei wneud i liniaru tebygolrwydd y rhain rhag digwydd neu eu heffaith. Nid ydym yn erbyn cymryd risg ein hunain (hyd yn oed i'n henw da) os yw'n ymddangos y gallem roi budd neu atal niwed i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Rydym hefyd yn cymryd agwedd fwy gofalus tuag at risgiau i'n heffeithlonrwydd, ein cywirdeb a'n safle fel corff cyhoeddus sy'n cael ei redeg yn dda ac felly rydym yn cynnal rheolaethau da dros faterion fel gwariant a thrin data.

## Trosolwg o risg

Ein risgiau strategol yw'r rheini sy'n gallu rhwystro ein gallu i gyflawni canlyniadau gwych ar gyfer cwsmeriaid presennol a'r dyfodol a'r amgylchedd, gan ganolbwyntio ar weithgareddau a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf ac ar reoli eu darpariaeth yn dda. Drwy ymateb rheoli effeithiol ac wedi'i ganolbwyntio, gallwn hefyd sicrhau ein bod yn rheoli ein hunain yn dda o ran bodloni ein cyfrifoldebau atebolrwydd cyfreithiol, ariannol, moesegol a chyhoeddus.

Roedd y canlyniadau allweddol y buom yn canolbwyntio arnynt fel a ganlyn:

| Sector yn cyflawni ac yn cynnal newidiadau sylweddol angenrheidiol mewn perfformiad cwsmeriaid, yr amgylchedd a gwytnwch | | |
|---|---|---|
| **Trawsnewid perfformiad cwmnïau:** | **Ymateb i heriau hirdymor** | **Gweithredu er budd hirdymor cwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd** |
| Gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff effeithlon sydd, ar sail barhaus:<br>• yn ddibynadwy<br>• o ansawdd da<br>• yn rhoi gwerth<br>• yn fforddiadwy | Mae gan y Sector y gallu – seilwaith ac asedau, adnoddau, pobl ac arweinyddiaeth – i ddiwallu anghenion cwsmeriaid y dyfodol a'r amgylchedd | Mae'r Sector yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i greu gwerth i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd<br><br>Mae cwmnïau dŵr wedi'u hysgogi gan ddiben, gyda diwylliant a strategaeth yn cyd-fynd â gwasanaeth cyhoeddus gyda pherthynas dibynadwy â chwsmeriaid a chymunedau |

### Mae Ofwat yn rheoleiddiwr effeithiol, awdurdodol, a arweinir gan ddiben

**Diwylliant** – Lle gwych i fod sy'n perfformio'n dda. Cydweithredol, wedi'u grymuso, meddyliwyr am systemau, ynn canolbwyntio ar ganlyniadau

**Ffyrdd o weithio** - Addasol, ystwyth, wedi'i lywio gan ddata, wedi'i lywodraethu'n dda ac yn effeithiol

**Pobl** – Y sgiliau a'r galluoedd cywir i gyflawni ein strategaeth, diwylliant amrywiol a chynhwysol, sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd SAILOR

**Rhanddeiliaid** – Cyfathrebwyr effeithiol, gyda pherthnasoedd cadarn ac aeddfed, gan gynnal ymddiriedaeth ac awdurdod

**Digidol/TG/Cyfleusterau a systemau** – Gwasanaethau digidol dibynadwy, arloesol, diogel a chadarn

**Adnoddau** – Wedi'u hariannu'n ddigonol ac yn effeithlon, gyda'r sgiliau a'r galluoedd cywir i gyflawni ein strategaeth

Rydym yn rheoli'r risgiau sy'n effeithio ar ein canlyniadau mewn ffordd integredig ar draws ein portffolio gan eu bod yn gyd-ddibynnol. Rydym wedi tynnu sylw at bwyntiau

allweddol yn ein disgrifiad isod a disgrifir gweithgarwch arall i reoli a lliniaru risgiau drwy gydol y flwyddyn yn ein Hadroddiad Perfformiad.

## Perfformiad: Cwsmeriaid, yr amgylchedd a gwytnwch

| Risg | Camau lliniaru |
|---|---|
| **Diben, strategaeth a diwylliant y cwmni: heb fod yn gydnaws â chyflwyno'r gwasanaeth hanfodol hwn, a disgwyliadau cwsmeriaid a chymunedol** | • Cymryd camau pellach i fynd i'r afael â chyflogau swyddogion gweithredol ar sail perfformiad yn y sector, gan gynnwys drwy ein methodoleg PR24<br>• Cyhoeddi addasiadau i drwydded gwytnwch ariannol sy'ngolygu bod mwy o gysylltiad rhwng difidendau â pherfformiad ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd<br>• Datblygu a lansio cystadlaethau newydd fel rhan o'n model cronfa arloesi |
| **Cwsmeriaid a rhanddeiliaid: nid yw cwmnïau'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer cwsmeriaid / rhanddeiliaid, gan fodloni sbectrwm llawn eu hanghenion.** | • Gweithio i amddiffyn cwsmeriaid agored i niwed yn well ac o ran fforddiadwyedd, gan gynnwys datblygu gwaith ar amod trwydded sy'n canolbwyntio ar y cwsmer<br>• Cyhoeddwyd rheolau codi tâl newydd, gan roi hyblygrwydd i dreialu strwythurau codi tâl newydd<br>• Ymgorfforwyd llais y cwsmer yn ein holl ymgysylltu a datblygu a chyflawni strategaeth. |
| **Yr Amgylchedd: Methiant i ddeall effaith y sector ar yr amgylchedd neu i ragweld a chynllunio ar gyfer heriau amgylcheddol (twf poblogaeth, newid yn yr hinsawdd / colli bioamrywiaeth) yn arwain at lygredd, materion ansawdd dŵr a systemau dŵr gwastraff aneffeithiol** | • O fewn RAPID, datblygu 18 datrysiad adnoddau dŵr strategol i alluogi'r cynlluniau hyn i fod yn "barod i'w gweithredu" yn y cyfnod 2025-30<br>• Datblygiad parhaus o allu modelu a dadansoddi i gefnogi cynllunio adnoddau dŵr strategol cenedlaethol<br>• Cyfranogi'n fawr yn y gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyfer cynllunio adnoddau dŵr cenedlaethol i ddatblygu dull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau<br>• Adolygu cynlluniau rheoli adnoddau dŵr drafft cwmnïau a rhanbarthol a chynlluniau draenio a rheoli dŵr gwastraff cwmnïau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y tymor hir ac yn ymgorffori dull cynllunio addasol priodol |
| **Gwytnwch Ariannol a Gweithredol: nid yw cwmnïau'n nodi nac yn rheoli risgiau allweddol i wytnwch systemau a gwasanaethau yn effeithiol ac nid oes ganddynt adnoddau ariannol a rheoli digonol a systemau llywodraethu, cynllunio a rheolaeth fewnol i gyflawni ar gyfer cwsmeriaid presennol a'r dyfodol a'r amgylchedd** | • Gwytnwch gweithredol: datblygu dull i roi gwell dealltwriaeth o berfformiad<br>• Gweithio gyda rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill i ystyried y ffordd orau o gasglu a defnyddio mewnwelediadau i drawsnewid perfformiad y sector, gan gynnwys dadansoddeg data<br>• Pwysau parhaus ar ddiwydiant i fod yn well am ymdopi â thywydd eithafol, y gadwyn gyflenwi a digwyddiadau allanol eraill, gan gynnwys drwy ein gwaith gyda'r Grŵp Sychder Cenedlaethol (NDG) i baratoi'n rhagweithiol ar gyfer risgiau tywydd sych yn haf 2023, gyda chydgysylltiad gweithredol a chyfathrebu cysylltiedig. |

## Mae Ofwat yn rheoleiddiwr effeithiol, awdurdodol, a arweinir gan ddiben

| Risg | Camau lliniaru |
|---|---|
| **Nid ydym yn defnyddio'r ystod lawn o'n hofferynnau rheoleiddio yn effeithiol, nac yn eu haddasu na'u datblygu'n ddigon cyflym, er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r sector** | • Cyhoeddi methodoleg derfynol PR24 ac ymgysylltu parhaus â'r sector ynghylch lefel yr uchelgais a ddisgwylir gennym mewn cynlluniau cwmnïau i drawsnewid perfformiad y sector<br>• Bwrw ymlaen â'n hymchwiliadau i gydymffurfiaeth cwmnïau â'u rhwymedigaethau o ran rheoli gweithfeydd trin dŵr gwastraff<br>• Ymgysylltu'n barhaus ag ymchwiliad OEP (Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd[9]) i achosion posibl o dor cyfraith amgylcheddol wrth reoleiddio gorlif carthffosydd cyfun (CSOs) yn Lloegr<br>• Cadw golwg ar gyfleoedd eraill i gryfhau'r weithdrefn e.e. mwy o aliniad ymhlith rheoleiddwyr y sector o ran cost cyfalaf a gweithio gyda'r llywodraeth i alluogi'r gyfundrefn reoleiddio seilwaith benodedig i gael ei chymhwyso'n ehangach |

9 Sefydlwyd yr OEP yn 2021 i ddiogelu a gwella'r amgylchedd drwy ddwyn y llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus eraill i gyfrif. Mae'n craffu ar gynlluniau a thargedau gwella amgylcheddol; yn monitro gweithrediad cyfraith amgylcheddol ac yn cynghori'r llywodraeth ar gyfraith amgylcheddol; a gall gymryd camau gorfodi am fethu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

| | |
|---|---|
| | • Datblygu ein strategaeth ar gyfer Cymru i sicrhau gwell ffocws ar aliniad ag amcanion Llywodraeth Cymru<br>• Ymchwil cwsmeriaid (a ddarperir gan Ofwat ac mewn partneriaeth â CCW) yn ein helpu i gadw golwg ar bryderon cwsmeriaid ac i bennu pa offer rheoleiddio yw'r gorau i fynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid |
| **Nid oes gennym y wybodaeth a'r mewnwelediadau cywir, nac yn eu defnyddio'n effeithiol, i gefnogi cyflawniad canlyniadau cadarnhaol i gwsmeriaid a'r amgylchedd drwy ein hymyriadau rheoleiddiol** | • Cynyddu ein gallu o ran data<br>• Datblygu gweithgarwch gwerthuso gan gynnwys dull ar gyfer PR24 ac effaith gyffredinol Ofwat<br>• Datblygu dull ar gyfer gwerthuso/monitro metrigau allweddol a ffactorau llwyddiant sy'n hanfodol i brofi a yw ymyriadau wedi cael yr effaith a ddymunir<br>• Datblygu dangosfwrdd darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus sy'n galluogi defnyddwyr i ddidoli data sy'n ymwneud â metrig, cwmni neu flwyddyn benodol, gan weld tueddiadau dros amser |
| **Nid oes gennym berthnasoedd allanol effeithiol a hygrededd i ddylanwadu ar eraill i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i gwsmeriaid / yr amgylchedd ac i ymdrin yn effeithiol â materion y tu allan i'n rheolaeth** | • Dyfnhau'r berthynas â Llywodraeth Cymru a Defra ar lefel waith i ddatblygu ymhellach weithdrefn reoleiddio mewn cydweithrediad â rheoleiddwyr partner<br>• Rhaglen ymgysylltu allanol ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ochr yn ochr â Chyfarwyddwyr Anweithredol, a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, i feithrin perthnasoedd, gwybodaeth a mewnwelediad<br>• Gweithio mewn partneriaeth â CCW a grwpiau defnyddwyr eraill, e.e. ar filiau, fforddiadwyedd a chyfathrebu sy'n canolbwyntio ar y cwsmer<br>• Datblygu dull newydd o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, wedi'i integreiddio â datblygu polisi Ofwat |
| **Nid oes gennym systemau, ffyrdd o weithio ac ymddygiadau cadarn, addasol ac ystwyth, sy'n galluogi ein pobl i ffynnu ac i berfformio ar eu gorau ac sy'n diogelu ein hasedau.** | • Mae Fframwaith ar gyfer Llwyddiant bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'n proses recriwtio ac wedi'i wreiddio yn ein sgyrsiau datblygu<br>• Parhau i wreiddio ein dull ar gyfer gweithio hybrid ar draws Ofwat<br>• Cyflawni ail flwyddyn ein cynllun gweithredu EDI tair blynedd |
| **Nid oes gennym ddigon o adnoddau (ariannol/sgiliau), neu nid ydym yn defnyddio'r rhain ar yr adeg gywir nac yn y meysydd cywir, yn y modd gorau o gyflawni ein strategaeth.** | • Gweithredu system gyllid newydd<br>• Gwella ein gallu i fonitro diogelwch a mireinio ein hoffer diogelwch<br>• Ail-lansio gweithgor llywodraethu yn canolbwyntio ar rannu arfer gorau a ffurfioli dolenni adborth<br>• Ymgorffori Grŵp Adnoddau Strategol ar gyfer llif o wariant allanol a gwariant ar swyddi gwag i leihau tanwariant a sicrhau gwerth am arian |

# Rheoli gwrthdaro buddiannau a rheolau penodiadau busnes

Mae ein Cod Ymddygiad yn nodi ein polisi ar ddatgan a rheoli gwrthdaro buddiannau sy'n berthnasol i'r holl staff ac ar gymhwyso'r rheolau penodiadau busnes. Ar gyfer yr holl staff, mae craffu ar ddatganiad unrhyw fuddiannau busnes neu wrthdaro posibl a chymerir camau priodol i reoli unrhyw faterion posibl yng nghyd-destun ein gwaith polisi ac yn ein gweithgareddau recriwtio a chaffael. Mae'n ofynnol i'n holl bobl gydymffurfio â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Mae unrhyw benodiadau allanol yn ystod cyflogaeth yn cael eu cymeradwyo a'u hasesu drwy gyfeirio at y Cod. Nid oes gan unrhyw aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyfarwyddiaeth cwmni neu unrhyw fuddiannau arwyddocaol eraill sy'n gwrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli.

Wrth adael swydd am rolau a allai arwain at broblemau posibl o ran gwrthdaro buddiannau, rydym yn gweithio gydag unigolion a chyflogwyr y dyfodol i sicrhau bod mesurau priodol ar waith. Rydym wedi atgoffa ein pobl o'r angen i ystyried yn ofalus y defnydd o'r rheolau penodi busnes cyn derbyn cynnig cyflogaeth ac wedi adnewyddu ein prosesau mewnol i gefnogi'r broses a'n cymuned Arweinydd Pobl i'w rheoli.

## Sicrwydd gwybodaeth

Mae gennym ystod o asedau gwybodaeth, y mwyafrif ohonynt yn bolisi ac yn wybodaeth fasnachol gydag ychydig bach o wybodaeth bersonol. Mae gennym bolisi diogelwch gwybodaeth a thechnoleg a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith i sicrhau bod asedau o'r fath yn cael eu diogelu'n iawn a bod risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli'n dda, gan gynnwys ein gwaith gyda chyflenwyr trydydd parti.

Mae gennym Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, Uwch Gynghorydd Diogelwch (a rennir gyda rheoleiddwyr eraill o fewn y Grŵp Clwstwr Diogelwch 5 y llywodraeth ganolog) a Dirprwy Gynghorydd Diogelwch yn ogystal â Pherchnogion Asedau Gwybodaeth ar gyfer ein holl glystyrau. Mae ein Grŵp Diogelwch a Sicrwydd Gwybodaeth (SIAG) yn llywodraethu ein mesurau diogelwch, risg gwybodaeth a sicrwydd risg. Cyfarfu ddwywaith yn ystod 2022-23.

## Hyfforddiant a diogelwch

Mae Ofwat yn parhau i ymgysylltu â'r Rhaglen Diogelwch Trawsnewid Llywodraeth (TGSP) ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy Ganolfannau Rhagoriaeth Grŵp Diogelwch y Llywodraeth, yn ogystal â'r gwasanaeth fetio sydd wedi'i gostio. Mae Ofwat wedi gweithredu nifer o'r mentrau amddiffyn seiber gweithredol am ddim gan NCSC ac mae'n parhau i asesu'r gwasanaethau a gynigir.

Rydym yn tanysfrifio i blatfform diogelwch e-ddysgu sy’n ategu'r deunyddiau ymsefydlu a hyfforddiant sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd yn ymdrin â meysydd diogelwch a llywodraethu gwybodaeth ac rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein diwylliant diogelwch yn barhaus. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant diogelwch ar lefel Bwrdd ac Uwch Gyfarwyddwyr.

## Sicrwydd ansawdd modelau dadansoddol

Mae gennym drefniadau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer sicrhau ansawdd modelau dadansoddol. Mae'r trefniadau cyfredol yn cynnwys:

- **Dull safonedig at fodelu Excel** – Fel arfer caiff modelau Excel eu hadeiladu gan ddilyn safon modelu FAST (hyblyg, priodol, strwythuredig, tryloyw). Mae hyn yn lleihau’r risg o gamgymeriadau ac yn ei gwneud yn haws i adolygu modelau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai modelwyr wyro oddi wrth y safon hon. Mae gan holl staff Ofwat fynediad at hyfforddiant ynglŷn â sut i fodelu gan ddefnyddio'r safon FAST.
- **Llawlyfr sicrwydd ansawdd a hyfforddiant** – mae llawlyfr sicrwydd ansawdd sy'n seiliedig ar arfer gorau modelu ar gael i staff. Mae hwn yn rhoi adnodd canolog sy'n darparu cyngor ar weithgareddau er mwyn sicrhau ansawdd dadansoddol, ac yn darparu offer a phrosesau er mwyn sicrhau modelu o ansawdd uchel. Mae cyrsiau hyfforddiant mewnol hefyd ar gael ar sut i sicrhau ansawdd ar fodelau.

- **Adolygiad allanol** – mae adolygiad allanol yn rhan bwysig o'n dull ar gyfer sicrwydd ansawdd Rydym yn defnyddio cynghorwyr i gynnal archwiliad allanol neu adolygiad o fodelau arbennig o bwysig neu ddadleuol. Lle bo hynny'n bosibl rydym yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y modelau dadansoddol rydym yn eu defnyddio.

Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn parhau â'n gwaith i adolygu sicrwydd ansawdd ein modelau dadansoddol, gan gynnwys adolygu ein prosesau a sut mae'r rhain yn cael eu dilyn yn ymarferol ac ystyried unrhyw welliannau y gallwn eu gwneud.

### Ansawdd data

Rydym yn defnyddio ystod eang o ddata ariannol a data arall a gwybodaeth er mwyn hwyluso trosolwg o berfformiad ein swyddogaethau ac er mwyn llywio ein penderfyniadau rheoleiddio. Mae'r Bwrdd yn teimlo bod y wybodaeth hon ar y cyfan o ansawdd da ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o gyflwyno gwybodaeth rheoli mewn modd clir.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein hoffer mewnol i'n galluogi i fonitro cynnydd yn erbyn canlyniadau cwsmeriaid yn ein strategaeth.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ansawdd ein data a'n hymdrechion i ganolbwyntio ar y mewnwelediad yr ydym yn gallu ei gael o'r data a'r wybodaeth sydd gennym, fel y gallwn asesu'n well effaith ein gweithgarwch i sicrhau ein bod ni a'r sector yn y sefyllfa orau a sicrhau'r canlyniadau i gwsmeriaid yr ydym yn ei geisio yn effeithlon ac effeithiol.

## Chwythu'r chwiban

Chwythu'r chwiban yw'r term a ddefnyddir pan fydd gweithiwr yn mynegi pryderon am arferion amhriodol yn ei weithle. Cyfeirir ato hefyd fel "datgeliad budd y cyhoedd". Mae gan Ofwat gyfrifoldeb am faterion chwythu'r chwiban sy'n ymwneud â'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Fel y nodir yng Ngorchymyn Personau Rhagnodedig 2014[10], mae gan Ofwat, fel Person Rhagnodedig, gyfrifoldeb i ddarparu mecanwaith i weithwyr wneud eu datgeliad budd y cyhoedd wrth gorff annibynnol, lle nad yw'r gweithiwr yn teimlo ei fod yn gallu datgelu'r pryder yn uniongyrchol wrth ei gyflogwr, ac efallai y bydd y Person Rhagnodedig mewn sefyllfa i gymryd rhyw fath o gamau pellach ar y datgeliad.

Os oes gan weithiwyr yn y sector dŵr wybodaeth neu bryderon am y cwmni dŵr y mae'n gweithio iddo, gall gysylltu â ni ynglŷn â'r mater. Er mwyn cael ei gwmpasu gan gyfraith chwythu'r chwiban a'i hawliau cyflogaeth cysylltiedig, rhaid i'r datgeliad fod yn "ddatgeliad cymwys". Datgeliad gwybodaeth yw hwn lle ei fod, ym marn resymol y gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad, yn cael ei wneud er budd y cyhoedd a gallai ddangos bod un neu ragor o'r canlynol yn digwydd, wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol:

[10] Gorchymyn Datgeliad Budd y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014

- trosedd
- torri rhwymedigaeth gyfreithiol
- camweinyddu cyfiawnder
- perygl i iechyd a diogelwch rhywun
- difrod i'r amgylchedd a/neu
- ymdrech fwriadol i guddio unrhyw rai o'r uchod.

Pan fyddwn yn derbyn gwybodaeth gan weithiwr yn y sector dŵr byddwn yn ystyried a yw'r wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad uchod o ddatgeliad cymwys. Os ydyw, byddwn yn penderfynu pa weithredu neu ymchwiliad pellach, os o gwbl, sydd ei angen. Gall hyn gynnwys ni'n siarad â'r cwmni dŵr perthnasol, arbenigwyr mewnol ac allanol yn y maes dan sylw a/neu y gweithiwr sy'n cyfeirio'r mater i ni (os yn bosibl) er mwyn deall y mater yn well a phenderfynu pa gamau, os o gwbl, y gallwn eu cymryd i ddatrys neu fynd â'r mater yn ei flaen fel sy'n briodol.

Fel Person Rhagnodedig, mae gan Ofwat ddyletswydd i adrodd yn flynyddol ar nifer y datgeliadau cymwys a wneir i ni a rhoi crynodeb o'r gweithredu parthed y rhain. Nod y ddyletswydd hon y cynyddu tryloywder yn y modd yr ymdrinnir â datgeliadau chwythu'r chwiban a sicrhau chwythwyr chwiban y rhoddir ystyriaeth ddifrifol i'w datgeliadau. Mae adran hon yr adroddiad blynyddol yn cyflawni'r ddyletswydd honno ar gyfer blwyddyn adrodd 2022-23.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y datgeliadau cymwys a wnaed wrth Ofwat yn ystod 2022-23 a'r camau a gymerwyd gennym o ganlyniad iddynt. Lle nad yw datgeliadau a/neu ein hymholiadau cychwynnol yn rhoi digon o dystiolaeth ar gyfer gweithredu pellach gennym ni, neu os nad yw'r dull yn gyfystyr â datgeliad cymwys, rydym er hynny yn defnyddio'r wybodaeth fel gwybodaeth gyffredinol am y sector a/neu y cwmni dan sylw. Mae hyn yn ein galluogi i fonitro a fynegir pryderon tebyg gan eraill a allai helpu i greu sail tystiolaeth a fyddai'n ddigonol ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'r materion a restrir isod, ar ôl ystyried y materion yn ofalus, gan gynnwys natur y datgeliad, ein gallu i ddarganfod mwy o wybodaeth amdano a gyda mewnbwn gan arbenigwyr mewnol yn y maes, daethom i'r casgliad mewn pedwar achos nad oedd yn briodol i ni fynd ar drywydd y materion gyda'r cwmnïau dan sylw. Lle bo'n briodol, rhannwyd y wybodaeth a ddarparwyd gan y chwythwyr chwiban â thimau perthnasol o fewn Ofwat, fel gwybodaeth ar gyfer ffrydiau gwaith eraill. Rydym yn ceisio gwybodaeth bellach gan y chwythwr chwiban mewn un achos, gan mai dim ond crynodeb byr o bryderon y mae wedi'i ddarparu. Pan fyddwn wedi derbyn rhagor o wybodaeth, byddwn yn ystyried a yw'n briodol i ni gysylltu â'r cwmni dan sylw i fynd â'r mater ymhellach. Mewn tri achos, gwnaethom gysylltu â'r cwmni dan sylw ynglŷn â'r gŵyn i ofyn am ragor o wybodaeth a sicrwydd ynghylch y mater. Mewn pump o'r achosion isod, rydym yn parhau i adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y chwythwr chwiban. Lle bo angen ac os yw'n briodol byddwn yn cysylltu â'r cwmni/cwmnïau dan sylw i fynd ar drywydd y rhain ymhellach. Hefyd, rydym yn parhau i ymchwilio i gŵyn chwythwr chwiban a dderbyniwyd ym mis Ionawr 2022.

### Cysylltiadau chwythwyr chwiban 2022-23

| Metrig | Manylion yr hyn sy'n cael ei fesur | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cysylltiadau chwythwyr chwiban | Nifer y datgeliadau gwybodaeth cymwys a wnaed gan weithwyr y sector dŵr wrth Ofwat. | 13 |
| | Nifer y datgeliadau cymwys lle cymerodd Ofwat gamau pellach i ymchwilio'r mater (mae'r camau hyn yn cynnwys cael cyngor gan arbenigwyr mewnol ar y mater dan sylw a/neu siarad â'r gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad er mwyn cael rhagor o wybodaeth). | 13 |
| | Nifer y datgeliadau cymwys lle cysylltodd Ofwat â'r cwmni dan sylw i geisio rhagor o wybodaeth a sicrwydd parthed y mater. | 3 |
| | Nifer y datgeliadau cymwys lle gwnaeth Ofwat, yn dilyn ei asesiad cychwynnol, benderfynu agor ymchwiliad ffurfiol gyda'r bwriad gymryd camau gorfodi neu weithredu rheoleiddiol arall yn erbyn y cwmni dan sylw. | 0 |

## Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Nid ydym wedi cael gwybod am unrhyw gwynion a atgyfeiriwyd i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO) am Ofwat yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Rydym yn ymwybodol o un cwsmer a ddywedodd wrthym ei fod yn cyfeirio cwyn yn ein herbyn at y PHSO, a gwnaethom hysbysu'r PHSO o hyn ym mis Gorffennaf 2022. Nid ydym yn credu y datblygwyd y gŵyn hon gan na chawsom gais dilynol am wybodaeth gan y PHSO.

# Adolygiad effeithiolrwydd y Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn bersonol gyfrifol ac atebol i'r Senedd am Ofwat fel sefydliad, ei reolaeth, defnydd arian cyhoeddus a stiwardiaeth asedau cyhoeddus. Cafodd fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol ei lywio gan sicrwydd gan Uwch Gyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ein holl weithgarwch ac arweinyddiaeth pobl eu bod wedi gweithredu yn unol â'u dirprwyaethau a gweithrediad ein fframwaith llywodraethu.

Ar gyfer fy adolygiad defnyddiais hefyd sicrwydd annibynnol gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r adroddiadau sicrwydd ac adolygiadau a gynhaliwyd i hysbysu ein ffurflenni i'r llywodraeth.

Yn ystod 2022-23, gwnaethom barhau i adolygu a monitro ein trefniadau llywodraethu gyda'r bwriad o sicrhau eu bod wedi'u symleiddio cymaint â phosibl a'u bod yn parhau'n gymesur ac yn addas at y diben. Rydym wedi ystyried yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiadau archwilio mewnol ac rydym yn datblygu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Gwnaethom hefyd gyflwyno system gyllid newydd yn ystod y flwyddyn. Er bod y gweithrediad yn llwyddiannus, mae angen gwella ein gallu i dynnu gwybodaeth gyfrifo amserol o'r system. Nid yw hyn wedi effeithio ar gywirdeb ein gwybodaeth gyfrifo, ond bydd y gyfres lawn o adroddiadau ariannol yn cael eu datblygu yn ystod hanner cyntaf 2023-24.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn ei lle ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Yn seiliedig ar yr uchod a fy adolygiad o'r dystiolaeth a ddarparwyd, yr wyf wedi fy sicrhau bod gennym fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Byddwn yn parhau i edrych ar sut y gallwn atgyfnerthu ein systemau mewnol, yn enwedig mewn perthynas â rheoli gwybodaeth a data. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r amgylchedd risg allanol sy'n newid a byddwn yn diwygio ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rheoli'r risgiau hyn mor effeithiol â phosibl yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.



**David Black**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**18 Gorffennaf 2023**

# Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a staff

## Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

### Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Roedd cyfansoddiad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn y cyfnod adrodd fel a ganlyn.

| Aelod Uwch Dîm Arweinyddiaeth | Swydd | Gradd |
|---|---|---|
| David Blackµ* | Prif Weithredwr | SCS 3 |
| Aileen Armstrongµ* | Uwch Gyfarwyddwr | SCS 2 |
| Jenny Blockµ | Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Bwrdd | SCS 2 |
| Lisa Commaneµ* | Uwch Gyfarwyddwr | SCS 2 |
| Claire Forbesµ | Uwch Gyfarwyddwr | SCS 1 |
| Emma Kelsoµ | Uwch Gyfarwyddwr | SCS 2 |
| Keith Masonµ | Uwch Gyfarwyddwr | SCS 2 |
| John Russellµ * | Uwch Gyfarwyddwr | SCS 2 |
| Paul Hickey# | Rheolwr Gyfarwyddwr, RAPID | Amherthnasol |

µ Aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sy'n aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil
*Dynodi aelod o'r Bwrdd
# Gwahoddwyd Paul Hickey gan y Prif Weithredwr i ymuno â chyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan weithredu mewn rôl arsylwi i'r graddau y ceisiwyd penderfyniadau.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl haeddiant ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau pan ellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r aelodau staff y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai terfyniad cynnar, ac eithrio oherwydd camymddygiad, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am waith y Comisiwn Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk.

## Polisi cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr

Ac eithrio rhai sydd ddim yn Uwch Weision Sifil, mae cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi ei nodi yn eu contractau a chaiff ei adolygu'n flynyddol yn unol â dyfarniadau a argymhellir gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB). Gwneir penderfyniadau ynghylch tâl a bonysau SCS gan y Pwyllgor Pobl.

Mae pob aelod parhaol o’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (ac eithrio’r rhai sydd ddim yn Uwch Weision Sifil) yn cyfranogi mewn cynllun bonws, sy'n unol ag argymhellion SSRB. Telir y bonws ar sail berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn anghyfunol ac nid ydynt yn bensiynadwy.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 mae ein huwch reolwyr ac aelodau Bwrdd wedi datgan nad oes ganddynt swyddi cyfarwyddwr cwmni neu fuddiannau sylweddol a allai fod wedi achosi gwrthdaro â’u cyfrifoldebau Ofwat.

## Polisi cydnabyddiaeth ariannol staff

Pennir ein cyflogau ar sail recriwtio a chadw staff o safon uchel o fewn y fframwaith o reoli gwariant y sector cyhoeddus a'r fframwaith cyflog a bennir gan y Llywodraeth.

Gellir dyfarnu bonws heb ei gyfuno i staff y mae eu perfformiad yn eithriadol yn unol â'r meini prawf a osodwyd gan Ofwat. Mae'r holl enwebiadau bonws a dderbynnir yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Adolygu Tâl (PRG) i benderfynu arnynt. Mae'r PRG yn cynnwys is-set o aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cyfarwyddwr Pobl. Rôl y grŵp yw penderfynu sut i ddyrannu'r pot bonws yn unol â meini prawf cytunedig Ofwat, gan sicrhau tegwch a chysondeb.

Penderfynir ar y gyllideb bonws flynyddol fel rhan o'r Fframwaith Cyflogau blynyddol a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer Defra.

## Polisi cydnabyddiaeth ariannol Cyfarwyddwyr Anweithredol

Mae'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael eu talu yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

# Cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr

## Cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr 2022-23

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

Mae pensiwn cyflog terfynol unigolyn mewn cyflogaeth yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth.  Gall gwerth y pensiwn gynyddu yn ogystal â gostwng, yn dibynnu ar newidiadau mewn cyflog, gwasanaeth ychwanegol neu chwyddiant.

Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd real mewn pensiwn wedi'i luosi gydag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw leihad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

| | Cyflog £000 | | Taliadau bonws £000 | | Budd mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Budd-daliadau pensiwn (i'r £1000 agosaf) | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| David Black*<br>Prif Weithredwr | 160-165 | 150-155 | - | 5-10 | 800 | - | 62,000 | 59,000 | 220-225 | 220-225 |
| Rachel Fletcher**<br>Prif Weithredwr | - | 0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 165-170) | - | - | - | - | - | 10,000 | - | 10-15 (cyfwerth â blwyddyn lawn 175-180) |
| Aileen Armstrong<br>Uwch Gyfarwyddwr | 130-135 | 125-130 | 10-15 | 10-15 | 1,500 | 1,600 | 22,000 | 34,000 | 165-170 | 170-175 |
| Jenny Block<br>Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Bwrdd | 125-130 | 125-130 | 5-10 | 5-10 | 1,400 | 1,600 | 50,000 | 49,000 | 185-190 | 180-185 |
| Lisa Commane<br>Uwch Gyfarwyddwr | 135-140 | 130-135 | 10-15 | 0-5 | - | - | 53,000 | 52,000 | 195-200 | 190-195 |
| Claire Forbes***<br>Uwch Gyfarwyddwr (0.9 FTE) | 105-110 | 105-110 | 5-10 | 10-15 | - | - | 41,000 | 41,000 | 150-155 | 155-160 |
| Emma Kelso***<br>Uwch Gyfarwyddwr (0.7 FTE) | 90-95 | 85-90 | 5-10 | 5-10 | - | - | 7,000 | 23,000 | 100-105 | 115-120 |
| Keith Mason<br>Uwch Gyfarwyddwr | 120-125 | 120-125 | - | - | - | - | (53,000)**** | - | 120-125 | 120-125 |
| John Russell***<br>Uwch Gyfarwyddwr (0.8 FTE) | 105-110 | 125-130 | 10-15 | 0-5 | - | - | (22,000)**** | 30,000 | 90-95 | 160-165 |
| Alena Kozakova**<br>Prif Economegydd | - | 70-75 (cyfwerth â blwyddyn lawn 125-130) | - | 5-10 | - | - | - | 26,000 | - | 100-105 (cyfwerth â blwyddyn lawn 155-160) |

* Penodwyd David Black yn Brif Weithredwr ar 20 Ebrill 2022, ar ôl gwasanaethu fel Prif Weithredwr Dros Dro ers mis Ebrill 2021.
** Gadawodd Rachel Fletcher ei swydd ar 9 Ebrill 2021 a gadawodd Alena Kozakova ei swydd ar 15 Hydref 2021.
*** Cyflogir Claire Forbes, Emma Kelso a John Russell ar oriau contract rhan-amser.
**** Gan ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real.

## Taliadau Trydydd Parti 2022-23

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

| | 2022-23<br>Taliad | 2021-22<br>Taliad |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Asiantaeth yr Amgylchedd<br>Paul Hickey*,<br>Rheolwr Gyfarwyddwr, RAPID** | 150-155 | 125-130 |

* Roedd Paul Hickey ar gyfnod secondiad o Asiantaeth yr Amgylchedd o 20 Ionawr 2020 tan 31 Mawrth 2023. Mae'r costau a ddangosir yn y tabl hwn yn dangos cyfanswm y costau gan gynnwys Pensiwn, Yswiriant Gwladol a Threth yr ailgodir tâl i Ofwat gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

## Cydnabyddiaeth ariannol Cyfarwyddwyr Anweithredol 2022- 23

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

| | Cyflog £000 | | Budd mewn nwyddau*** (i'r £100 agosaf) | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| **Iain Coucher*** **Cadeirydd** | 90-95 (cyfwerth â blwyddyn lawn120-125) | - | - | - | 90-95 (cyfwerth â blwyddyn lawn120-125) | - |
| **Jonson Cox**** **Cadeirydd** | 30-35 (cyfwerth â blwyddyn lawn 125-130) | 125-130 | 1,200 | 4,200 | 30-35 (cyfwerth â blwyddyn lawn 125-130) | 130-135 |
| **Alison Munro** **Cyfarwyddwr Anweithredol** | 15-20 | 15-20 | 200 | 200 | 15-20 | 15-20 |
| **Mark Bayley** **Cyfarwyddwr Anweithredol** | 15-20 | 15-20 | 200 | 300 | 15-20 | 15-20 |
| **Nicola Bruce** **Cyfarwyddwr Anweithredol** | 15-20 | 15-20 | 400 | 200 | 15-20 | 15-20 |
| **David Jones** **Cyfarwyddwr Anweithredol** | 15-20 | 15-20 | 2,600 | 1,500 | 20-25 | 20-25 |
| **Seema Kennedy** **Cyfarwyddwr Anweithredol** | 15-20 | 15-20 | 800 | 600 | 20-25 | 15-20 |
| **Jonathan Kini** **Cyfarwyddwr Anweithredol** | 15-20 | 15-20 | - | - | 15-20 | 15-20 |
| **Catherine Waddams**** **Cyfarwyddwr Anweithredol** | - | 0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20) | - | - | - | 0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20) |

* Dechreuodd Iain Coucher ei dymor ar 1 Gorffennaf 2022
** Dyddiadau diwedd tymor y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Anweithredol: Jonson Cox – 30 Mehefin 2022; Catherine Waddams – 30 Ebrill 2021
*** Tybir bod costau teithio, cynhaliaeth a llety Cyfarwyddwyr Anweithredol yn Fudd mewn Nwyddau gan fod Ofwat yn ad-dalu'r rhain.

# Cydnabyddiaeth ariannol Aelodau Annibynnol

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

### Cydnabyddiaeth ariannol Aelodau Annibynnol Pwyllgorau 2022-23

| | Cyflog £000 | | Budd mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| Vanessa Howlison<br>Aelod Annibynnol, ARAC | 5-10 | 5-10 | - | - |

## Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser ac unrhyw lwfans sy'n ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig a wnaed gan Ofwat ac fe'u cofnodir yn y cyfrifon hyn.

## Budd mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol budd mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fudd a ddarparwyd gan Ofwat a'i drin gan Refeniw a Thollau EF fel enillion trethadwy. Roedd y taliadau a amlinellir uchod yn net o dreth a thalwyd y symiau treth i Cyllid a Thollau EF. Mae eitemau yn y categori hwn yn cynnwys cynhaliaeth a threfniadau teithio.

## Bonysau

Mae bonysau Uwch Wasanaeth Sifil wedi'u seilio ar lefelau perfformiad fel rhan o'r broses werthuso. Dyfernir pob bonws yn unol â'n polisi cydnabyddiaeth ariannol staff.

## Datgeliadau Cyflog Teg

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol chwartel isaf, canolrifol a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad.

Band cydnabyddiaeth ariannol cyfwerth â blwyddyn gyfan y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn Ofwat ym mlwyddyn ariannol 2022-23 oedd £165,000-170,000 (2021-22: £160,000-165,000), cynnydd o 3% (cynnydd cyflog 6%; gostyngiad bonws 100%).

Mae'r tabl isod yn dangos cymarebau pwynt canol bandiau cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr uchaf ei dâl uchaf, i ffigurau tâl a buddion y cyflogeion y mae eu tâl a'u buddion ar y 25ain, 50fed a 75fed canradd o weithwyr Ofwat:

| | 25ain Canradd (Chwartel Isaf) Cymhareb Tâl | 50fed Canradd (Canolrifol) Cymhareb Tâl | 75fed Canradd (Chwartel Uchaf) Cymhareb Tâl |
|---|---|---|---|
| 2022-23 | 4.4:1 | 3.3:1 | 2.4:1 |
| 2021-22 | 4.6:1 | 3.4:1 | 2.4:1 |

Mae cyfanswm tâl a buddion 2022-23 ac elfen gyflog cyfanswm tâl a buddion y gweithwyr ar y 25ain, 50fed a 75ain canradd i'w gweld isod:

| | 25ain Canradd (Chwartel Isaf) £ | 50fed Canradd (Canolrifol) £ | 75fed Canradd (Chwartel Uchaf) Cymhareb Tâl |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm tâl a buddion | 37,740 | 50,000 | 69,033 |
| Elfen cyflog o gyfanswm tâl a buddion | 37,740 | 50,000 | 69,033 |

Roedd y newid canrannol cyfartalog o 2021-22 yng nghyflogau a lwfansau cyflogeion Ofwat o'u hystyried yn eu cyfanrwydd yn gynnydd gan 10%, ac mewn tâl perfformiad a'r bonysau a oedd yn daladwy, cynnydd gan 10%. Cynyddodd cydnabyddiaeth ariannol canolrifol y gweithlu gan 5% a chynyddodd Ofwat gan 6%, o gymharu â 2021-22, wrth i ni ganolbwyntio ar adeiladu adnoddau a gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r adolygiad prisiau nesaf (PR24).

Yn 2022-23 ni wnaeth dim (2021-22: dim) cyflogeion Ofwat dderbyn cydnabyddiaeth ariannol a oedd yn fwy na'r Uwch Gyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Roedd tâl gweithwyr yn amrywio o £20,000 i £170,000.

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a budd mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys tâl diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Rydym yn datblygu ymhellach ein dull o dalu a gwobrwyo yn ystod 2022-23 fel rhan o weithrediad parhaus ein Strategaeth Pobl.

# Buddion pensiwn uwch reolwyr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

### Cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr 2022-23

| | Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2023 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2023 | CETV ar 31 Mawrth 2022 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| David Black<br>Prif Weithredwr | 30-35 | 2.5-5 | 421 | 357 | 33 |
| Aileen Armstrong<br>Uwch Gyfarwyddwr | 40–45<br>Cyfandaliad: 75-80 | 0–2.5<br>Cyfandaliad: 0 | 730 | 650 | 2 |
| Jenny Block<br>Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Bwrdd | 20-25 | 2.5-5 | 268 | 216 | 30 |
| Lisa Commane<br>Uwch Gyfarwyddwr | 15-20 | 2.5-5 | 185 | 144 | 23 |
| Claire Forbes<br>Uwch Gyfarwyddwr | 20-25 | 0-2.5 | 296 | 251 | 23 |
| Emma Kelso*<br>Uwch Gyfarwyddwr | 35-40 | 0-2.5 | 557 | 506 | -5 |
| Keith Mason*<br>Uwch Gyfarwyddwr | 45–50<br>Cyfandaliad: 130-135 | 0<br>Cyfandaliad: 0 | 980 | 952 | -52 |
| John Russell*<br>Uwch Gyfarwyddwr | 50–55<br>Cyfandaliad: 90-95 | 0<br>Cyfandaliad: 0 | 874 | 812 | -32 |

* Gan ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig a aseswyd yn actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol.

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio’r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi’u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Darperir trefniadau pensiwn ar gyfer ein staff drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ni ddarperir ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn sy’n deillio o aelodaeth ein

gweithwyr o drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn y cyfrifon hyn, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF.

Gwnaed darpariaeth lawn yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy'n deillio o'r cynlluniau pensiwn 'cydweddol' ar gyfer dau gyn Gyfarwyddwyr Cyffredinol fel sy'n ofynnol gan Drysorlys EF (nodyn 13). Gwneir hawliadau i'r Trysorlys i dalu'r costau pensiwn sy'n ymwneud â'u cyflogaeth ar wahân i Ofwat.

Mae rolau'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn amhensiynadwy.

## Pensiynau Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill, neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn cyfateb i Oed Pensiwn Gwladol (neu 65 os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw fe wnaeth yr holl weision sifil a benodwyd o'r newydd a'r mwyafrif o'r rheini oedd eisoes mewn gwasanaeth ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi yn y Prif Gynllun Pensiwn Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: tair yn darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu clasurol a mwy) gydag oed pensiwn arferol yn 60; ac un yn darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oed pensiwn arferol yn 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu gyda chost y buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff y pensiwn sy'n daladwy o dan clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Parhaodd aelodau presennol y PCSPS oedd o fewn 10 mlynedd i'w oed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS wedi 1 Ebrill 2015. Newidiodd y rheini oedd rhwng deng mlynedd a 13 mlynedd a phum mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i alpha rhywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu'r gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gallai fod gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yr hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn - gweler isod). Bydd buddiannau PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y buddiannau hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer aelodau staff yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel sy'n briodol. Lle bo gan yr aelod staff fuddiannau yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha. Mae buddiannau

mewn clasurol yn cronni ar gyfradd sy’n 1/80fed o’r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy’n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd sy’n 1/60fed o’r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn y bôn hybrid yw Clasurol a mwy gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo’n fras fel y clasurol a buddion ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi eu cyfrifo fel y gwneir yn premiwm. Yn nuvos mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o’r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod â 2.3% o’i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno a chaiff y pensiwn a gronnwyd ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddiannau yn alpha yn adeiladu mewn modd tebyg i nuvos, heblaw mai'r gyfradd cronni yw 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) eu pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae’r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy’n rhan o’r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes yn rhaid i’r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o’r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu costau yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeoliad drwy salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw’r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i’w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu’n union ar ôl gorffen bod yn aelod gweithredol o’r cynllun os yw eisoes dros oed pensiwn. Oed pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau clasurol, premiwm a clasurol a mwy, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 oed neu'r Oed Pensiwn Gwladol ar gyfer alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer aelodau staff yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel sy'n briodol. Lle bo gan yr aelod staff fuddiannau yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Gellir gweld rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig a aseswyd yn actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddir gwerth iddynt yw buddion cronedig aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn ar gyfer gŵr/gwraig sy’n daladwy o’r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r

buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â’r buddion y mae’r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o’r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae’r ffigurau’n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r aelod wedi ei drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad iddo/iddi brynu budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu’r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae’n defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer y cyfnod dechrau a diwedd.

# Adroddiad ar staff

### Dadansoddiad o gostau staff Ofwat ar gyfer 2022-23

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

| | 2022-23 £000 | | | | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Staff cyflogedig Parhaol a Chyfnod Penodol | Staff arall | Cyfarwyddwyr Anweithredol | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Taliadau a chyflogau | 14,214 | 884 | 222 | 15,320 | 14,490 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,771 | - | 24 | 1,795 | 1,578 |
| Costau pensiwn eraill | 3,848 | - | - | 3,848 | 3,603 |
| **Is-gyfanswm** | **19,833** | **884** | **246** | **20,963** | **19,671** |
| Llai symiau a adenillwyd parthed secondiadau allanol | (77) | - | - | (77) | (76) |
| **Cyfanswm costau net** | **19,756** | **884** | **246** | **20,886** | **19,595** |

Mae costau staff eraill yn cynnwys costau gweithwyr a secondeion asiantaethau. Datgelir gwariant arall a gafwyd parthed contractwyr arbenigol a rheolwyr dros dro fel gwariant llafur wrth gefn yn nodyn 4 i'r cyfrifon.

## Cyfraniadau pensiwn

Cynllun buddion diffiniedig aml gyflogwr heb ei ariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweithwyr Sifil ac Eraill (CSOPS) - a adwaenir fel **alpha** - ond nid yw Ofwat yn gallu nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol.

Prisiwyd y cynllun gan actiwari'r PCSPS ar 31 Mawrth 2016. Gallwch gael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Ar gyfer 2022-23, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £3.8 miliwn yn daladwy i CSOPS a PCSPS (2021-22 £3.6 miliwn) yn un o bedair graddfa yn yr ystod 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad cynllun llawn. Gosodir y cyfraddau cyfraniad i fodloni costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2022-23 i'w dalu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn yn y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, neu bensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac maent yn amrywio o 8% i 14.75%

Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £3,458, 0.5% o dâl pensiynadwy (2021-22: £3,620), yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darpariaeth buddion cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad oherwydd afiechyd gweithwyr perthnasol.

### Nifer cyfartalog cyfwerth ag amser llawn ym mhob Clwstwr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

| Clwstwr | 2022-23 | | | | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Traf a gyflogir yn Barhaol ac ar Gontract Tymor Penodol | Eraill | Cyfarwyddwyr Anweithredol | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Galluogwyr Corfforaethol | 40.77 | - | 0.20 | 40.97 | 43.84 |
| Asedau ac Adnoddau yn y Dyfodol* | - | - | - | - | 12.33 |
| Perfformiad Cwmnïau ac Adolygiad Prisiau | 79.20 | - | 0.20 | 79.40 | 64.84 |
| Polisïau a Chanlyniadau | 52.48 | 1.00 | 0.20 | 53.68 | 45.59 |
| Galluogwyr Rheoleiddiol | 60.49 | - | 0.20 | 60.69 | 63.42 |
| RAPID | 18.99 | - | 0.20 | 19.19 | 18.91 |
| Cyfanswm | **251.93** | **1.00** | **1.00** | **253.93** | **248.93** |

* Cyfunodd clwstwr Asedau ac Adnoddau'r Dyfodol i'r clwstwr Polisi a Chanlyniadau yn ystod y flwyddyn.

## Iawndal gadael Gwasanaeth Sifil a chynlluniau gadael eraill

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

Ni thalwyd unrhyw gostau colli gwaith neu gostau gadael eraill yn 2022-23 (2021-22 £9,769).

## Swyddi oddi ar y gyflogres

Yn dilyn Adolygiad Trefniadau Treth Penodiadau Sector Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar 23 Mai 2012, mae'n ofynnol i Ofwat gyhoeddi gwybodaeth am ein swyddi sydd â thâl uchel a/neu uwch swyddi oddi ar y gyflogres.

Mae pob un o'n swyddi oddi ar y gyflogres presennol ar ryw adeg wedi bod yn destun asesiad seiliedig ar risg i benderfynu a yw'r contract o fewn cwmpas IR35.

### Ymrwymiadau gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2023, yn ennill £245 y dydd neu fwy

| O'r rhain, y nifer sydd wedi bodoli: | Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2023 |
|---|---|
| Llai nag 1 flwyddyn | 2 |
| ar gyfer rhwng 1 a 2 flynedd | - |
| ar gyfer rhwng 2 a 3 o flynyddoedd | - |

| | |
|---|---|
| ar gyfer rhwng 3 a 4 o flynyddoedd | - |
| ar gyfer 4 neu ragor o flynyddoedd | - |

### Pob swydd oddi ar y gyflogres, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 am fwy na £245 y diwrnod

| O ba rai: | Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 |
|---|---|
| Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel un sydd o fewn cwmpas IR35 | 18 |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel un sydd tu allan i gwmpas IR35 | 4 |
| Nifer yr ymgysylltiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfedd neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | - |
| O'r rhain, nifer yr swyddi a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad | - |

## Gwariant ymgynghoriaeth

Ein gwariant ar wasanaethau ymgynghoriaeth a gwasanaethau proffesiynol eraill yn 2022-23 oedd £5.7 miliwn, yn unol â nodyn 4 y cyfrifon (2021-22: £4.5 miliwn).

Rydym yn parhau i ddefnyddio cefnogaeth gwasanaethau proffesiynol er mwyn cael mynediad at arbenigwyr sy'n darparu cyngor proffesiynol neu gyfreithiol parthed cyflawni ein portffolio gwaith, yn ogystal â'r rheini sy'n darparu cefnogaeth darpariaeth arbenigol lle nad yw'n economaidd i gynnal yr arbenigedd hwn yn fewnol.

## Absenoldeb oherwydd salwch

Ein polisi yw lleihau absenoldebau gweithwyr ac rydym yn dibynnu ar ymyrraeth gynnar gan ein Harweinwyr Pobl yn cynnal cyfweliad dychwelyd i'r gwaith wedi pob cyfnod o absenoldeb er mwyn lliniaru a rheoli hyn yn effeithiol. Cefnogir Arweinwyr Pobl gan systemau sy'n cynorthwyo i ganfod pan fo trothwyon wedi eu cyrraedd er mwyn caniatáu iddynt ystyried a oes angen rhagor o gefnogaeth neu weithredu:

- tri chyfnod o absenoldeb mewn cyfnod treigl o chwe mis; neu
- pedwar cyfnod o absenoldeb mewn cyfnod treigl o ddeuddeg mis.

Mae Health Assured yn darparu Rhaglen Cymorth Gweithwyr i Ofwat sy'n cynnig gwasanaeth cefnogi, gwybodaeth a chwnsela gwirfoddol a chyfrinachol i gynorthwyo gweithwyr ac aelodau eu teulu agos i ddatrys problemau a phryderon personol.

### Ystadegau absenoldeb salwch

| | 2022-23 | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tymor byr | Hirdymor | Cyfanswm | Tymor byr | Hirdymor | Cyfanswm |
| Dyddiau a gollwyd | 572 | 542 | 1,114 | 413 | 543 | 956 |
| Cyfartaledd dyddiau gwaith a gollwyd fesul person | | | 4.26 | | | 3.72 |

Absenoldeb hirdymor yw unrhyw absenoldeb sy'n para dros gyfnod olynol o 14 diwrnod calendr neu fwy. Mae nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd gan Ofwat, sef 4.26 diwrnod y person, yn is na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil yn 2021-22, sef 7.9 diwrnod (nid yw ffigur 2022-23 ar gael yr adeg adrodd). Bydd effaith ychydig achosion o absenoldeb tymor hwy yn fwy amlwg o gofio mai sefydliad bach ydym ni. Fodd bynnag, rydym wedi parhau gyda'n hymdrechion i fynd i'r afael yn rhagweithiol â gwaith achos sy'n codi i sicrhau bod pob un o'n pobl yn cael eu cefnogi i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Mae lles wedi parhau i fod yn ffocws allweddol yn 2022-23 ac mae adolygiad o bolisi rheoli presenoldeb Ofwat wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-24.

## Cynnwys y gweithwyr

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol rydym wedi defnyddio Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil i ddarganfod sut mae pobl yn teimlo am weithio yn Ofwat ac i asesu ein cynnydd. Swyddfa'r Cabinet sy'n rhedeg yr arolwg ac mae'n ein galluogi i feincnodi ein canlyniadau gyda 105 o sefydliadau eraill y Gwasanaeth Sifil, gan gynnwys rheoleiddwyr economaidd eraill a Defra.

Mae byd gwaith yn newid yn barhaus i bobl a disgwyliadau cynyddol o'r hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl gan waith. Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn heriol i Ofwat wrth i ni barhau i flaenoriaethu ac ymateb i'r dirwedd fewnol ac allanol sy'n newid.

Er gwaethaf yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu, megis effaith yr 'ymddiswyddiad mawr', rydym wedi cyflawni set gyffredinol gadarnhaol o ganlyniadau yn ein harolwg Pobl 2022. Mae'r canlyniadau fel y manylir ar dudalen 64 yn dangos, er bod gennym ragor o waith i'w wneud, ein bod yn parhau i symud i'r cyfeiriad cywir i wneud Ofwat yn lle gwych i fod a gweithio ynddo.

## Dysgu a datblygu

Rydym wedi parhau i ymgorffori ein fframwaith dysgu a datblygu a chanolbwyntio ar ein pobl. Gan weithio gyda'n Partneriaid Dysgu rydym wedi parhau i hyrwyddo cyfleoedd dysgu a datblygu a chysylltu â'n Clystyrau a Phenaethiaid Proffesiynau i ddeall anghenion dysgu ein pobl. Mae ein rhaglen graidd o ddysgu a datblygu wedi parhau i ganolbwyntio ar ymyriadau lles a gwytnwch, wedi'i hategu gan gymorth wedi'i deilwra i Arweinwyr drwy ein sesiynau briffio Arweinwyr Pobl, ein fforwm Tîm Arwain Estynedig (ELT), gan ddarparu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer dysgu gan gynnwys ein

rhaglen 'inside out'. Rydym hefyd wedi lansio hyfforddiant LinkedIn sy'n cynnig ystod eang o gyrsiau i'n pobl ar-alw wedi'u hanelu at bob lefel, gan gynnwys datblygiad proffesiynol, rheoli prosiectau yn ogystal â chyrsiau TG a thechnegol.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein sail sgiliau mewnol drwy hyfforddi mewn technegau diwastraff ac ystwyth ac wedi cyflwyno ffyrdd newydd o hwyluso megis defnyddio Strwythurau Rhyddhau. Mae ein cynnig Ofwat Essentials yn parhau i gael ei werthfawrogi, gydag ystod gynyddol o fodiwlau sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd gan gynnwys 'monitro perfformiad', 'cyflwyniad i ddŵr', 'modiwl diwylliant Ofwat' a 'gwaith achos a gorfodi'. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi a dibynnu ar ein carfan hyfforddi mewnol ein hunain.

## Polisi cyfle cyfartal

Rydym yn recriwtio staff yn ôl haeddiant drwy gystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag egwyddorion recriwtio'r Gwasanaeth Sifil a lywodraethir gan y Comisiwn Gwasanaeth Sifil. Mae hyn yn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored, waeth beth fo'u:

- hil;
- rhyw;
- cyfeiriadedd rhywiol;
- oed;
- statws priodasol;
- anabledd;
- crefydd a chred;
- ailbennu rhywedd;
- beichiogrwydd a mamolaeth; neu
- batrwm gweithio.

Mae pob gweithgarwch recriwtio yn amodol ar archwiliad gan y Comisiwn Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a amlinellir yn yr egwyddorion recriwtio.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gynnal dros 71 o ymgyrchoedd recriwtio gwahanol, yn fewnol ac allanol i'r sefydliad, a oedd mewn rhai achosion yn ceisio llenwi nifer o rolau. Gwnaethom hefyd gynnal rhaglen recriwtio graddedigion.

# Cyfansoddiad staff

Mae manylion ein cyfansoddiad staff yn ôl rhyw a grŵp ethnig ar gael yn Atodiad 8.



**David Black**
**Swyddog Cyfrifyddu** **18 Gorffennaf 2023**

# Adroddiad archwilio ac atebolrwydd Seneddol

## Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol

Yn ogystal â'r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) baratoi Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS) a nodiadau ategol.

Mae'r SOPS a'r nodiadau cysylltiedig yn amodol ar archwiliad, fel y manylir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r SOPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrif Cyflenwi. Cyflenwi yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a dynnir yn bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn rhoi manylion cyflenwi a phleidleisir arno gan y Senedd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd endid yn mynd y tu hwnt i'r terfynau a osodwyd gan ei Amcangyfrif Cyflenwi, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn amodol.

Mae fformat y SOPS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon Cyflenwi, a gyhoeddwyd ar gov.uk, er mwyn gallu cymharu'r hyn y mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SOPS yn cynnwys tabl cryno, sy'n manylu ar berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian parod a wariwyd (crynhoir cyllidebau ar sail croniadau ac felly ni fydd alldro yn union yr arian a wariwyd) a gweinyddiaeth.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: Alldro fesul llinell Amcangyfrif, yn rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoniad o'r alldro â gwariant gweithredu net yn y SOCNE, i glymu'r SOPS i'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoniad o'r alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Mae'r SOPS a'r Amcangyfrifon wedi'u llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond yn wahanol, i IFRS. Amcangyfrifon yw'r mecanwaith y mae'r Senedd yn ei ddefnyddio i awdurdodi gwariant adrannol, ac fe'u cyflwynir gan ddefnyddio fframwaith cyllidebu'r sector cyhoeddus. Drwy'r broses Amcangyfrifon, mae'n ofynnol i'r Senedd bleidleisio terfynau ar gyfer gwahanol gategorïau o wariant cyllidebol. Ar gyfer Ofwat, y rhain yw'r:

- Gofyniad Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau Net (RDEL);
- Gofyniad Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf Net (CDEL);
- Gofyniad Arian Parod Net (NCR) ar gyfer yr Amcangyfrif cyfan.

Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a’r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu’n wahanol i IFRS hefyd i’w gweld ym Mhennod 1 y Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar gov.uk.

Mae’r SOPS yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y pleidleisir arno a’i gydnabod gan y Senedd.

## Tablau crynodeb – yn adlewyrchu rhan 1 o'r Amcangyfrifon

### Tabl crynodeb 2022-23. Cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

| | | Alldro | | Amcangyfrif | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mathau o wariant | Nodyn SOPS | Pleidleisiwyd | Cyfanswm | Pleidleisiwyd | Cyfanswm | Alldro a bleidleisiwyd o gymharu â'r Amcangyfrif; arbediad / (gorwario) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2021-22 |
| Terfyn Gwariant Adrannol | | | | | | | |
| Adnodd | 1.1 | 173 | 173 | 1,021 | 1,021 | 848 | (900) |
| Cyfalaf | 1.2 | 3,009 | 3,009 | 3,075 | 3,075 | 66 | 485 |
| Cyfanswm | | **3,182** | **3,182** | **4,096** | **4,096** | **914** | **(415)** |
| Cyfanswm Cyllideb | | | | | | | |
| Adnodd | 1.1 | 173 | 173 | 1,021 | 1,021 | 848 | (900) |
| Cyfalaf | 1.2 | 3,009 | 3,009 | 3,075 | 3,075 | 66 | 485 |
| Cyfanswm Gwariant Cyllideb | | **3,182** | **3,182** | **4,096** | **4,096** | **914** | **(415)** |

Mae'r ffigurau yn y meysydd a amlinellir mewn llinell drwchus yn ymdrin â'r terfynau rheoli y pleidleisiwyd arnynt gan y Senedd. Cyfeiriwch at y llawlyfr canllaw Amcangyfrifon Cyflenwi, sydd ar gael ar gov.uk, i gael manylion am y terfynau rheoli y pleidleisiwyd arnynt gan y Senedd.

Mae'r amrywiant rhwng alldro ac amcangyfrif ar ein Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar adnoddau yn ymwneud â chyllideb wrth gefn nad sy'n ofynnol, a ddelir fel mater rhagofal yn unol ag gasesiad risg ariannol Ofwat ac i dalu am unrhyw addasiadau archwiliad annisgwyl ar ddiwedd blwyddyn.

Mae DEL cyfalaf yn cynrychioli Cyflenwi Seneddol a ddarperir i ni ar gyfer eitemau cyfalaf. Mae'r amrywiant rhwng alldro DEL cyfalaf ac amcangyfrif yn ymwneud â chyllideb wrth gefn nad oedd ei hangen ar gyfer addasiadau archwiliad diwedd blwyddyn posibl.

Gellir gweld manylion pellach y prif amrywiannau rhwng ein cyllidebau ac alldro yn y sylwebaeth ariannol ar dudalen 38.

### Gofyniad arian parod net 2022-23, cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

| Eitem | Nodyn SOPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/ (gorwario) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | 3 | 3,080 | 7,831 | 4,751 | (1,083) |

Yr amrywiant rhwng alldro a gofyniad arian parod net a amcangyfrifir yw £4.8 miliwn. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom godi £5.1 miliwn fel arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer balansau cyfalaf gweithiol i ariannu taliadau pensiwn parthed cynllun pensiwn Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi ymddeol, cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr ac ar gyfer pryniannau cyfalaf. Mae ein balans arian parod gweddilliol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys ffioedd trwydded a gasglwyd yn hwyr yn y flwyddyn. ydd y balans ar gyfalaf gweithio ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddychwelyd i'r Gronfa Gyfunol.

### Costau gweinyddol 2022–23, cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

| Eitem | Nodyn SOPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/ (gorwario) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu | 1.1 | 173 | 1,021 | 848 | (900) |

Er nad yw'n derfyn a bleidleisiwyd ar wahân, bydd unrhyw dorri ar y gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidlais gormodedd.

# Nodiadau i'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol, 2022-23 (£000au)

## SOPS1: Manylion alldro, fesul llinell Amcangyfrif

## SOPS1.1: Dadansoddiad o alldro adnoddau fesul llinell Amcangyfrif

| Math o wariant (Adnodd) | Alldro Adnoddau | | | Amcangyfrif | | | Alldro a bleidleisiwyd o gymharu â'r Amcangyfrif; arbediad / (gorwario) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinyddu | | | | | | | |
| | Gros | Incwm | Cyfanswm net | Cyfanswm | Trosglwyddiadau | Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau | | |
| Gwariant mewn Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) | | | | | | | | |
| Gwariant a bleidleisiwyd: | | | | | | | | |
| Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | 32,568 | (32,395) | 173 | 1,021 | - | 1,021 | 848 | (900) |
| **Cyfanswm gwariant yn DEL** | **32,568** | **(32,395)** | **173** | **1,021** | **-** | **1,021** | **848** | **(900)** |

Mae'r £1.02 miliwn a amcangyfrifir yn cynrychioli cyflenwi Seneddol a ddarperir i ni parthed cynllun pensiwn Cyfarwyddwyr Cyffredinol sydd wedi ymddeol, cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr ychwanegol a gwariant ar wasanaethau proffesiynol.

## SOPS1.2: Dadansoddiad o alldro cyfalaf fesul llinell Amcangyfrif

| Math o wariant (Cyfalaf) | Alldro Adnoddau Gweinyddu | | | Amcangyfrif | | | Alldro a bleidleisiwyd o gymharu â'r Amcangyfrif; arbediad / (gorwario) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Cyfanswm net | Cyfanswm | Trosglwyddiadau | Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau | | |
| Gwariant mewn Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) | | | | | | | | |
| Gwariant a bleidleisiwyd: | | | | | | | | |
| Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | 3,009 | - | 3,009 | 3,075 | - | 3,075 | 66 | 485 |
| **Cyfanswm gwariant yn DEL** | **3,009** | **-** | **3,009** | **3,075** | **-** | **3,075** | **66** | **485** |

Mae cyfanswm y colofnau Amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw ailddyrannu darpariaeth yn yr Amcangyfrifon nad oes angen awdurdod Seneddol arnynt (gan nad yw'r Senedd yn pleidleisio ar y lefel honno o fanylder ac mae'n eu dirprwyo i Drysorlys EF). Darperir rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn y Llawlyfr Amcangyfrifon Cyflenwi, sydd ar gael ar gov.uk.

Mae'r golofn alldro yn erbyn amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau. Mae cyfanswm yr amcangyfrif cyn i drosglwyddiadau gael eu gwneud yn cael ei gynnwys fel y gall defnyddwyr glymu'r amcangyfrif yn ôl i'r Amcangyfrifon a osodwyd gerbron y Senedd.

## SOPS2: Cysoni alldro i'r gwariant gweithredu net

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond yn wahanol, i IFRS. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau i wariant gweithredu net, gan gysylltu'r SOPS i'r datganiadau ariannol. Gan fod cyfanswm yr alldro adnoddau yn y SOPS yr un fath â gwariant gweithredu net yn y SOCNE, nid oes angen cysoni.

## SOPS3: Cysoniad alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn SOPS | Cyfanswm alldro | Amcangyfrif | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad (gorwario) |
|---|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau | 1.1 | 173 | 1,021 | 848 |
| Alldro Cyfalaf | 1.2 | 3,009 | 3,075 | 66 |
| Addasiadau i ddileu eitemau heb fod yn arian parod: | | | | |
| Dibrisiad ac amhariad | | (597) | (740) | (143) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | | (18) | (160) | (142) |
| Eitemau eraill heb fod yn arian parod | | (75) | (73) | 2 |
| Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau cyfalaf gweithio a rhwymedigaethau prydles: | | | | |
| Cynnydd/(lleihad) mewn symiau derbyniadwy | | 3,853 | - | (3,853) |
| (Cynnydd)/lleihad mewn symiau taladwy gan gynnwys prydlesi taladwy | | (3,420) | 4,278 | 7,698 |
| Defnydd darpariaethau | | 155 | 430 | 275 |
| Gofyniad arian parod net | | **3,080** | **7,831** | **4,751** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf i'r gofyniad arian parod net.

## SOPS4: Symiau o incwm i'r Gronfa Gyfunol

## SOPS4.1: Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ogystal ag incwm a gedwir gan yr adran, mae'r incwm canlynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian parod mewn llythrennau italig).

Mae Nodyn 11 i'r Cyfrifon yn dangos mai'r £2.1m yw'r symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol i'w cyflenwi yn 2022-23 ond nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Nid yw hwn yn cael ei ddosbarthu fel incwm Ofwat.

| | | Cyfanswm alldro | | Blwyddyn flaenorol, 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Eitem | Nodyn | Croniadau | Sail arian parod | Croniadau | Sail arian parod |
| Arian parod dros ben i'w ildio i'r Gronfa Gyfunol | 11 | | | 4,336 | 4,336 |
| Cyfanswm incwm taladwy i'r Gronfa Gyfunol | | | | **4,336** | **4,336** |

# Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

Roedd y wybodaeth ganlynol (ac eithrio tueddiadau gwariant hirdymor) yn destun archwiliad.

Rheoleidd-dra gwariant: Defnyddiwyd gwariant Ofwat at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar gyfer 2022-23 parthed:

- Colledion a thaliadau arbennig;
- Tueddiadau gwariant hirdymor; neu
- Ffioedd a thaliadau.

Mae manylion ffioedd trwydded Ofwat yn cael eu dosbarthu fel ardollau a chânt eu datgelu ar dudalen 38

Weithiau, efallai y byddwn yn destun her gyfreithiol ffurfiol yn cynnwys drwy adolygiad barnwrol. Yn dilyn dyddiad llofnodi cyfrifon y llynedd, lansiodd Wild Justice achos adolygiad barnwrol. Gwrthodwyd y rhain ar y cam caniatâd a gwrthodwyd caniatâd i apelio i'r Llys Apêl yn erbyn y dyfarniad hwnnw. Ym mis Chwefror 2023, gofynnodd Northumbrian Water am ganiatâd i ddwyn achos adolygiad barnwrol yn erbyn Ofwat mewn perthynas ag agweddau ar ein penderfyniad ODI yn y cyfnod a wnaed ym mis Tachwedd 2022. Mae'r cais hwn yn parhau ar y cam caniatâd. [Ers diwedd y flwyddyn, rydym wedi derbyn llythyr protocol cyn-gweithredu fel rhagflaenydd i adolygiad barnwrol posibl gan y Sefydliad Cyfraith Amgylcheddol ar ran unigolyn.]



**David Black**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**18 Gorffennaf 2023**

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys Ofwat:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- y nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y cyfrifon arwyddocaol

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Ofwat ar 31 Mawrth 2023 a'i gwariant gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisiwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny; a
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail i farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs y DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn Ofwat cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Ofwat yn

unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod defnydd yr Ofwat o'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r Ofwat i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o’r dyddiad hwnnw. mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol cyfrifyddu’r Ofwat wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM, sy’n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi’r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

| Hwyrach na phum mlynedd | - |
| Llai elfen llog | - |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | 49 |
| Cyfanswm gwerth presennol rhwymedigaethau | 2,664 |
| Cyfran gyfredol | 530 |
| Cyfran nad yw'n gyfredol | 2,134 |

Dechreuodd y brydles swyddfa newydd yn Llundain ym mis Awst 2022 am gyfnod o 6 blynedd. Dechreuodd prydles swyddfa Birmingham ym mis Tachwedd 2022, pan ddaeth y brydles flaenorol i ben, am gyfnod o 5 mlynedd.

Mae gan y brydles MFD dymor o 5 mlynedd a disgwylir iddi ddod i ben ym mis Hydref 2023. Mae gan y brydles fideo-gynadledda dymor o 3 blynedd a disgwylir iddi ddod i ben ym mis Medi 2024.

## 15.3 Elfennau yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

| | 2022-23 £000 |
|---|---|
| Taliadau prydles amrywiol heb eu cynnwys mewn rhwymedigaethau prydlesi | 332 |
| Treuliau yn ymwneud â phrydlesi tymor byr | 635 |

## 15.4 All-lif arian ar gyfer prydlesi

| | 2022-23 £000 |
|---|---|
| Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer prydlesi | 182 |

# 16. Trafodion parti cysylltiedig

## 16.1 Defra/CCW

Mae gennym fandad i gasglu ffioedd trwydded gan y cwmnïau penodedig a chyflenwyr trwyddedig parthed costau gweithredu CCW. Yna caiff yr incwm hwn ei drosglwyddo i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yn unol â chanllawiau Trysorlys EF, nid ydym yn cofnodi'r trafodion hyn yn ein datganiadau ariannol.

Gwnaethom drosglwyddo £6.3 miliwn i Defra parthed costau gweithredu CCW yn 2022-23 (2021-22: £6.0 miliwn), gyda £0.7 miliwn o arian wedi'i gasglu ond heb ei drosglwyddo ar 31 Mawrth 2023. Nid yw hyn wedi'i gofnodi yn ein datganiadau ariannol na'n balansau arian parod (Nodyn 9).

## 16.2 Cronfa Arloesi

Fel rhan o PR19, caniataodd Ofwat i gwmnïau penodedig gasglu cyfanswm cyfunol o £200 miliwn gan eu cwsmeriaid i'w ddefnyddio i hwyluso a darparu arloesedd yn y sector dŵr yn ystod y cyfnod adolygu prisiau cyfredol (2020-25). Nid Ofwat sy'n dal y £200m hwn, yn hytrach mae'n cael ei gadw gan gwmnïau penodedig. Bydd rhan o'r arian a gesglir gan gwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio i dalu am bartner y Gronfa Arloesi y mae Ofwat wedi'i gaffael i helpu i gyflawni'r cystadlaethau arloesi. Mae'n orfodol i ni gasglu cyfraniadau gan gwmnïau penodedig a throsglwyddo'r rhain i bartner y Gronfa Arloesi ar gyfer cyflawni'r cystadlaethau.

Yn 2022-23 gwnaethom drosglwyddo £2.2 miliwn (2021-22: £1.5 miliwn) i bartner y Gronfa Arloesi, gyda £0.1 miliwn o arian parod wedi'i gasglu ond heb ei drosglwyddo ar 31 Mawrth 2023. Nid yw hyn wedi'i gofnodi yn ein datganiadau ariannol na'n balansau arian parod (Nodyn 9).

## 16.3 Arall

Mae gennym hefyd nifer fechan o drafodion ansylweddol gydag adrannau eraill y Llywodraeth.

Datgelir cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn yr adroddiad Cydnabyddiaeth ariannol a staff. Nid oes unrhyw drafodion parti cysylltiedig heb eu datgelu rhwng Ofwat ac unrhyw un o'n Cyfarwyddwyr.

# 17. Digwyddiadau wedi'r cyfnod adrodd

Fe wnaeth y Swyddog Cyfrifyddu awdurdodi'n briodol gyhoeddiad y datganiadau ariannol hyn ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

# Rhan 4

Atodiadau

Nid yw'r atodiadau canlynol i gael eu harchwilio.

# A1 Cynnydd ar brosiectau a ddisgrifir yn Mlaenraglen 2022-23 Ofwat

Isod rydym yn dangos ein cynnydd yn erbyn y gwaith y gwnaethom ei amlinelllu ym Mlaenraglen 2022-23 Ofwat. Mae'r statws a ddangosir yn adlewyrchu cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn y blaenraglen yn ystod y flwyddyn yn ei chyfanrwydd. Mae ein timau wedi cyflawni'r rhan fwyaf o gerrig milltir ein Blaenraglen.

| Yr hyn a ddywedom: | Statws |
|---|---|
| **Ebrill hyd Mehefin 2022** | |
| Cyhoeddi unrhyw argymhellion yn dilyn ymgynghoriad Fframwaith Rheoleiddiol a Masnachol RAPID | Cyflawnwyd |
| Cyhoeddi canllawiau ar ein Fframwaith Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid | Cyflawnwyd |
| Gwerthuso cyfnod peilot y gronfa arloesi ac ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol | Cyflawnwyd |
| Bwrw ymlaen ag argymhellion ein hasesiad cychwynnol o gydymffurfiaeth cwmnïau â gofynion Llif i Driniaeth Lawn eu trwyddedau amgylcheddol | Cyflawnwyd |
| **Gorffennaf hyd Medi 2022** | |
| PR24 - ymgynghori ar ein methodoleg ddrafft ar gyfer gosod y terfynau refeniw, ymrwymiadau perfformiad a fframwaith cymhelliant ('rheolaethau prisiau') ar gyfer cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff rhanbarthol | Cyflawnwyd |
| Manwerthu busnes – ymgynghori ar gynigion yn ymwneud â chapiau ar brisiau manwerthu busnes | Cyflawnwyd |
| Cefnogi datblygiad cynlluniau adnoddau dŵr rhanbarthol drafft | Cyflawnwyd |
| Cyhoeddi a gosod ein cyfrifon blynyddol 2021-22 gerbron Senedd y DU a'r Senedd er mwy rhoi cyfrif am ein gwaith a'n gwariant yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys egluro sut yr ydym wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau strategol a osodwyd ar ein cyfer gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | Cyflawnwyd |
| **Hydref hyd Rhagfyr 2022** | |
| Manwerthu busnes - cyhoeddi penderfyniadau sy'n ymwneud â'r capiau ar brisiau manwerthu busnes (gweithredu o fis Ebrill 2023) | Cyflawnwyd |
| Cyhoeddi penderfyniadau mewn cyfnod ar gyfer yr 17 cwmni mwyaf fel y gellir adennill unrhyw daliadau cymhelliant sy'n ddyledus ym mlwyddyn codi tâl 2023-24 | Cyflawnwyd |
| Cyhoeddi tablau cynghrair blynyddol ar wasanaeth cwmnïau i'w cwsmeriaid: mesur profiad gwasanaeth cwsmeriaid (C-MeX) i'w cwsmeriaid preswyl a mesur o brofiad gwasanaethau datblygwyr (D-MeX) i'w cwsmeriaid ddatblygwyr | Cyflawnwyd |
| Cyhoeddi Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol 2022-23 terfynol er mwyn sicrhau bod yr adroddiad perfformiad blynyddol yn cael ei baratoi'n gyson yn unol â'n fframwaith rheoleiddio cyffredinol | Cyflawnwyd |
| Cyhoeddi ein Hadroddiad Perfformiad Cwmnïau Dŵr (a elwid gynt yn Adroddiad Cyflenwi Gwasanaethau) a'n Hadroddiad Monitro Gwytnwch Ariannol | Cyflawnwyd |

| | |
|---|---|
| **Yn dilyn ein hymgynghoriad, cyhoeddi ein methodoleg derfynol ar gyfer pennu'r rheolaethau prisiau ar gyfer cwmnïau dŵr o 2025-30.** | Cyflawnwyd |
| **Cwblhau'r adolygiad o gynnydd y diwydiant ar ddata agored** | Cyflawnwyd, gyda'n hadolygiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023 |
| **Asesiad gât dau o brosiectau seilwaith cyflenwad dŵr strategol rhaglen RAPID ar y llwybr safonol ac asesiad giât tri y prosiectau ar y llwybr carlam** | Parhaus<br>Mae asesiad gât dau ar gyfer y prosiectau seilwaith cyflenwad dŵr strategol hynny sydd ar y llwybr safonol wedi'u cwblhau.<br>Mae asesiad gât tri o'r prosiectau sydd ar y llwybr carlam wedi'u gohirio tan Ch4 2023/24, yn unol â chais gan y cwmnïau dŵr, ac rydym wedi derbyn hynny. |
| **Ymateb i ymgynghoriadau WRMP drafft** | Cyflawnwyd, darparwyd ymatebion i'r ddau WRMP drafft terfynol ar 24 Mai 2023, a oedd wedi'u gohirio yn flaenorol oherwydd eu hymgynghoriadau parhaus; gwnaethom ymateb i bob WRMP drafft arall yn ystod y flwyddyn ariannol. |
| **Ionawr hyd Mawrth 2023** | |
| **Cyhoeddi blaenraglen derfynol ar gyfer 2023-24.** | Cyflawnwyd |

# A2 Perfformiad yn erbyn lefelau gwasanaeth penodedig

Mae’r atodiad hwn yn ymdrin â’n perfformiad wrth ymdrin ag ymholiadau a chwynion cwsmeriaid ac o ran ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data.

Nid ydym yn gyffredinol yn delio ag ymholiadau a chwynion cwsmeriaid unigol ynglŷn â chwmnïau dŵr. Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (**CCW**) yw'r corff defnyddwyr statudol ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr a dyma'r prif gyswllt ar gyfer cwynion a allai fod gan gwsmeriaid am eu cwmni dŵr. Er hynny, rydym yn derbyn nifer sylweddol o gysylltiadau gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid bob blwyddyn. Mae gennym hefyd rôl statudol i ymchwilio a phenderfynu ar fathau penodol o anghydfodau cwsmeriaid, ac i wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi trwyddedau cyflenwi dŵr a/neu drwyddedau charthffosiaeth ar gyfer manwerthwyr yn y farchnad manwerthu busnes (y cyfeirir atynt ar y cyd ac yn unigol fel **WSSLau**) a phenodiadau newydd ac amrywiannau (NAVau).

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) yn rhoi hawl mynediad cyffredinol at bob math o wybodaeth a gofnodir ac a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus, yn cynnwys Ofwat. Maent yn rhoi nifer o rwymedigaethau arnom ac maent hefyd yn nodi eithriadau ar gyfer hawl mynediad. Mae gwybodaeth fanwl am yr FOIA a'r EIR ar gael gan Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Gallwch weld perfformiad cyrff cyfranogol ar wefan Swyddfa'r Cabinet. Mae Ofwat hefyd yn ymateb i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth (SAR) er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Mae gennym safonau amserlenni gwasanaeth yr ydym yn gobeithio y byddwn yn cyflawni gyda'r cyhoedd yn unol â hwy. Isod rydym yn nodi ein perfformiad yn erbyn y rhain yn ystod 2022-23. Pan fyddwn wedi bod yn sylweddol brin o'n targedau rydym wedi nodi camau i wella ein perfformiad yn 2023-24.

Pan fo rhanddeiliad yn anfodlon gyda sut yr ydym wedi ymdrin â chŵyn neu achos, boed fel rhan o’n gwaith achos neu lywodraethu gwybodaeth, gall ofyn i ni adolygu'r hyn a wnaethom yn unol â'n proses cwynion. Yn 2022-23 cawsom bedwar cais am adolygiadau mewnol.

| Metrig | Manylion yr hyn sy'n cael ei fesur | Cyfanswm | Targed | 2022-23 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|
| **Ceisiadau am wybodaeth** | | | | |
| **Ceisiadau FOIA/EIR** | Ymholiadau yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen 20 diwrnod | 190: 136 FOI, 54 EIR<br><br>(Roedd 7 cais Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod 2022-23 yn dal i fynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; ymdriniwyd â’r rhain | 100% | 97%<br>(131 FOI, 52 EIR) |

| Metrig | Manylion yr hyn sy'n cael ei fesur | Cyfanswm | Targed | 2022-23 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|
| | | wedyn o fewn y terfyn amser 20 diwrnod) | | |
| SARs | Ymholiadau yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen | 1 | 100% | 100% |
| | | | | |
| Ymholiadau cyffredinol | | | | |
| Ymholiadau cyffredinol | Ymholiadau yr ymatebwyd iddynt o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn | 824 | 95% | 99% (815)) |
| | | | | |
| Anghydfodau a chwynion am wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff | | | | |
| Cwynion cyffredinol – nid oes gan Ofwat rôl gyfreithiol[11] | Cwynion lle nad oes gan Ofwat rôl gyfreithiol yr ymatebwyd iddynt o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn | 1,776 | 95% | 99% (1763) |
| | | | | |
| Cwynion cymhleth – dim rôl gan Ofwat | Cwynion a gafodd eu cydnabod o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn | 51 | 95% | 86% (44) |
| | Cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith o'u derbyn | 45 | 95% | 76%[12] (34) |
| | | | | |
| Cwynion – mae/gan efallai bod gan Ofwat rôl – Asesiad Rhagarweiniol[13] | Cwynion a gafodd eu cydnabod o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn | 15 | 95% | 100% (15) |
| | Cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn 20/40 diwrnod gwaith o'u derbyn | 13 | 95% | 69%[10] (9) |
| Adolygiadau Mewnol | Adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfyn amser | 2 | 100% | 0% |
| | | | | |
| Ymchwiliadau y byddwn yn eu cynnal | | | | |

11pan fyddwn yn derbyn cwyn gan gwsmer, rydym yn ystyried a yw'n dod o fewn cwmpas ein pwerau cyfreithiol. Nid yw llawer o'r cwynion yr ydym yn eu derbyn gan gwsmeriaid yn faterion y mae gennym y pwerau cyfreithiol i fynd i'r afael â hwy, ond yn hytrach maent yn faterion y gall CCW ddarparu cymorth gyda hwy, yn cynnwys drwy geisio cyfryngu datrysiad ar gyfer y cwsmer.

12 Gall gymryd mwy o amser i ymateb i rai materion cwynion cymhleth oherwydd eu bod yn gofyn i ni gasglu rhagor o wybodaeth gan y cwsmer a'r cwmni dŵr dan sylw a cheisio cyngor gan arbenigwyr pwnc mewnol neu allanol i lywio ein penderfyniad. Rydym wedi cwblhau ymarferion gwersi a ddysgwyd ar gwynion lle nad ydym wedi cyrraedd ein lefelau targed o wasanaeth i ddeall pa feysydd o'n proses sydd wedi cymryd mwy o amser i'w cwblhau ac sydd wedi cyfrannu at fethu ein lefelau gwasanaeth. Eleni rydym wedi cyflwyno pecyn cymorth ymchwilio newydd fel canllaw mewnol i gefnogi ein staff yn y meysydd hyn, gan eu harfogi i gwblhau asesiadau amserol o ansawdd uchel, ac rydym wedi gweld gwelliant bach mewn amseroedd ymateb ers llynedd, ond mae dal gwelliannau i'w gwneud. Cwblhaodd y tîm hyfforddiant ymdrin ag achosion yn chwarter olaf eleni a byddwn yn canolbwyntio ar wella ein hamseroedd ymateb yn y flwyddyn i ddod.

13 Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ymchwilio rhai mathau o anghydfodau y gallai fod gan gwsmeriaid â'u cwmni dŵr. Ar gyfer mathau eraill, mae deddfwriaeth yn rhoi disgresiwn i ni benderfynu a yw'n briodol i ni ymchwilio.

| Metrig | Manylion yr hyn sy'n cael ei fesur | Cyfanswm | Targed | 2022-23 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|
| **Achosion anghydfod cwsmeriaid**[14] | Achosion ffurfiol a gaewyd o fewn ein hamserlenni safon gwasanaeth (gan gynnwys yr achosion hynny a gaewyd cyn penderfyniad terfynol oherwydd datrysiad anffurfiol neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl gan y cwsmer) | 0 (agorwyd dau achos newydd gennym yn 2022-23, mae'r rhain yn dal ar agor ac o fewn ein lefel gwasanaeth targed) | 100% | Amherthnasol |
| | | | | |
| **Trwyddedu** | | | | |
| **Ceisiadau NAV**[15] | Ceisiadau NAV y gwnaethom gwblhau ein gwiriad cychwynnol arnynt o fewn pump diwrnod gwaith o'u derbyn | 469 | 100% | 94% (439) |
| | Penderfyniadau ceisiadau NAV a wnaed o fewn 85 diwrnod gwaith o'u derbyn | 448 | 100% | 97% (436) |
| **Ceisiadau WSSL**[16] | Ceisiadau WSSL (gan gynnwys hunan-gyflenwi) y gwnaethom gwblhau ein gwiriadau cychwynnol arnynt o fewn pump diwrnod gwaith o'u derbyn | 3 | 100% | 100% (3) |
| | Penderfyniadau ceisiadau WSSL a wnaed o fewn 45/60 diwrnod gwaith o'u derbyn | 2 | 100% | 100%[17] (2) |
| **Dirymiadau WSSL** | Nifer y dirymiadau WSSL a gwblhawyd[18] | 2 | Amherthnasol | Amherthnasol |

[14] Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth y gallwn ei ymchwilio a'n hamserlenni targed ar ein gwefan - https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/investigations/how-we-investigate/ https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2016/09/Our-timeframes-for-handling-cases.pdf

[15] Gellir cael rhagor o wybodaeth am benodiadau newydd ac amrywiannau ar ein gwefan - https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/markets/nav-market/getting-a-new-appointment/

[16] Gellir cael rhagor o wybodaeth am drwyddedau cyflenwi dŵr a dŵr gwastraff a'n hamserlenni ar gyfer eu prosesu ar ein gwefan - https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/markets/business-retail-market/water-supply-sewerage-licences/

[17] Mae'r penderfyniadau ar geisiadau a wnaethom yn 2022-23 yn parhau i fod yn fwy cymhleth eu natur, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd angen gwybodaeth ac asesiad dilynol sylweddol ar y rhain. Yn y cyfnod 2022-23 fe wnaethom wrthod cais am WSSL gan nad oedd y cais yn dangos y cymwyseddau rydym yn asesu yn eu herbyn. Mae'r Trwyddedau WSSL a wrthodwyd gennym wedi'u nodi yn Ceisiadau WSSL a Wrthodwyd - Ofwat.

[18] Gwnaethom ddirymu dwy drwydded WSSL yn 2022-23 y ddwy ar gais y deiliaid trwydded. Mae manylion y trwyddedau a ddirymwyd i'w gweld yn https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/markets/business-retail[1]market/water-supply-sewerage-licences/licence-revocation/

# A3 Rhestr o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd yn ystod 2022-23

Ar gyfer y penderfyniadau mawr a wnaed gennym, mae ein hasesiad o effeithiau ein cynigion, a'n penderfyniadau terfynol, o gymharu ag opsiynau eraill, wedi'i wreiddio yn ein dogfennau penderfynu, gyda chrynodebau mewn atodiadau lle bo'n briodol (er enghraifft ym methodoleg derfynol PR24 a phenderfyniad gwytnwch ariannol ).

# A4 Cynnydd mewn lleihau baich rheoleiddio

## Cefndir

Cyflwynodd Llywodraeth y DU Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 at ddiben darparu gwell rheoleiddio. Rhoddodd y Ddeddf ddyletswydd arnom i:

- adolygu'r beichiau rheoleiddio yr ydym yn eu gosod;
- lleihau unrhyw rai sy'n ddiangen ac na ellir eu cyfiawnhau; ac
- adrodd ar ein cynnydd bob blwyddyn.

Pan fyddwn yn adrodd ar gynnydd, rhaid i ni nodi beth yr ydym wedi ei wneud yn y 12 mis diwethaf a beth y byddwn yn ei wneud yn y flwyddyn i ddod er mwyn adolygu ein swyddogaethau yn unol â'r dyletswyddau a nodir uchod. Rhaid i ni hefyd nodi'r rhesymau dros barhau gydag unrhyw feichiau.

Mae ein blaenraglen yn amlinellu'r hyn y bwriadwn ei wneud dros y 12 mis nesaf. Mae ein hadroddiad ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn y flwyddyn ddiwethaf i'w weld isod.

## Adrodd ar gynnydd

| Maes gwaith | Lleihau beichiau rheoleiddiol |
|---|---|
| **Datblygu adnoddau strategol a goruchwyliaeth Ofwat** | Sefydlwyd Cynghrair Rheoleiddwyr ar gyfer Gwella Datblygiad Seilwaith (RAPID) i fod yn uned draws-reoleiddio sy'n canolbwyntio ar hwyluso datblygiad amserol a chydgysylltiedig cynlluniau seilwaith adnoddau dŵr mawr. Mae RAPID yn rhoi un pwynt cyswllt a chydgysylltiad ar draws y tri rheoleiddiwr dŵr yn Lloegr er mwyn sicrhau bod materion rheoleiddio sy'n effeithio ar ddatblygiad seilwaith strategol yn cael eu datrys yn amserol ac effeithlon.<br>Mae RAPID yn parhau i gydweithio â'r diwydiant dŵr i ddatblygu dulliau cymesur, gan gynnwys drwy ddefnyddio cyflwyniadau 'camau gât'. Gan weithio ochr yn ochr â'r diwydiant rydym wedi cyd-gynllunio templedi sy'n bodloni ein gofynion ar gyfer pob gweithgaredd penodol mewn modd cryno rydym yn dysgu gwersi ar bob gât. Rydym yn parhau i ddefnyddio dull o adrodd yn seiliedig ar risg, gan ddarparu ffurflenni adrodd cyffredin, diwygio'r rhain yn dilyn adborth gan gwmnïau a defnyddio grwpiau traws-gwmnïau i rannu arfer da.  Drwy gydol y gweithgaredd hwn, rydym yn ystyried sut y gallwn addasu'r drefn reoleiddio fel ei bod yn gweithredu'n fwy effeithiol, a hefyd archwilio sut y gallai beichiau rheoleiddio gael eu lleihau. |
| **PR24 a thu hwnt** | Yn ein methodoleg terfynol rydym wedi:<br>• Ceisio rhesymoli'r nifer o fecanweithiau cysoni gyda'r nod o leihau cymhlethdod diangen a baich rheoleiddio.<br>• Lleihau cymhlethdod gan ein bod wedi tynnu rhai gwasanaethau datblygwyr o gwmpas ein rheolaethau prisiau. (Ar gyfer cwmnïau dŵr yn Lloegr yn PR24, bydd gwasanaethau datblygwyr dŵr safle-benodol yn cael eu tynnu o'r rhwydwaith dŵr ynghyd â rheolaeth prisiau yn PR24, ac rydym wedi tynnu gwasanaethau datblygwyr dŵr gwastraff safle-benodol o'r rhwydwaith dŵr gwastraff ynghyd â rheolaeth prisiau yn PR24).<br>• Lleihau adrodd gan ein bod wedi annog cwmnïau i leihau nifer yr ymrwymiadau perfformiad pwrpasol a chanolbwyntio ar set o ymrwymiadau perfformiad cyffredin sy'n bwysig i gwsmeriaid a'r amgylchedd ac sydd hefyd yn adlewyrchu ein dyletswyddau. |
| **Adrodd a monitro rheoleiddio** | Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaethom gyhoeddi'r adroddiad Monitro Gwytnwch Ariannol ac adroddiad Perfformiad Cwmnïau Dŵr (yr adroddiad Cyflenwi Gwasanaethau yn flaenorol); mae'r wybodaeth yn yr adroddiadau hyn yn rhoi tryloywder i gwsmeriaid, a rhanddeiliaid ehangach, i weld sut mae cwmnïau dŵr yn perfformio ar y materion sydd o bwys iddynt. Ym mis Chwefror 2022 gwnaethom ymgynghori ar rwymedigaethau adrodd rheoleiddiol blynyddol cwmnïau ar gyfer blwyddyn adrodd 2022-23, a amlygodd newidiadau arfaethedig i'r gofynion adrodd ar gyfer yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Wrth gynnal yr ymgynghoriad, roeddem yn ymwybodol o'r angen i gydbwyso'r baich ar gwmnïau â sicrhau bod gennym y wybodaeth gywir i ddwyn cwmnïau i gyfrif er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaeth y mae eu cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.<br>Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gael y cydbwysedd cywir rhwng cyfyngu beichiau ar gwmnïau a gwneud yn siŵr bod gennym y wybodaeth gywir i ddwyn cwmnïau i gyfrif |
| **Arloesedd** | Rydym yn parhau i helpu cwmnïau ac arloeswyr i lywio tirwedd reoleiddiol ehangach y sector dŵr a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rheoleiddio canfyddedig, drwy borth ymholiadau arloesi ar y cyd Streamline, gan weithio ochr yn ochr â'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hyn yn galluogi rheoleiddwyr i ddarparu cymorth cydgysylltiedig i amrywiaeth o arloeswyr. |
| **Trwyddedu a gorfodi** | Ers 2019-20 mae'r tîm gwaith achos a gorfodi wedi bod yn defnyddio system rheoli achosion newydd i helpu i ddarparu ein gwasanaethau ymholiadau cwsmeriaid a thrwyddedu i gwsmeriaid yn fwy effeithlon a chyson. Mae'r system, a'r porth cwsmeriaid cysylltiedig wedi ei gwneud yn broses esmwythach i gwsmeriaid a busnesau gyflwyno cwynion a gwybodaeth reoleiddio i ni. Yn 2022-23 mae'r system yn parhau i leihau beichiau rheoleiddio ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Yn ogystal, yn dilyn cyfres o argymhellion o 2021-22, rydym ers hynny wedi symleiddio'r broses ymhellach ar gyfer ymgeiswyr busnes sy'n cyflwyno ceisiadau am drwydded "penodiadau newydd ac amrywiadau" (NAV) i ni ac, wrth wneud hynny, wedi lleihau beichiau gweinyddol ar fusnesau ac Ofwat. |

# A5 Cyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 27(3) Deddf Diwydiant Dŵr 1991

Dim.

# A6 Gorchmynion terfynol a dros dro a wnaed a chosbau a osodwyd

Dim.

# A7 Cyfeirio achosion neu faterion i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Dim.

# A8 Cyfansoddiad staff 2022-23

## Recriwtio staff (yn ôl rhyw a grŵp ethnig)

| Blwyddyn | Lefel ac ystod cyflog | Band 1 £17,829 i £24,492 | Band 2 £24,493 i £33,850 | Band 3 £33,851 i £50,615 | Band 4 £50,616 i £77,422 | Band 5 £77,423 i £116,134 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022-23 | Staff cyfwerth ag amser llawn a benodwyd | 0 | 17 | 19 | 13 | 3 | 52 |
| | Cyfran sy'n fenywod (%) | 0 | 65 | 42 | 47 | 67 | 52 |
| | Cyfran lleiafrifoedd ethnig (%) | 0 | 53 | 42 | 19 | 0 | 37 |
| 2021-22 | Staff cyfwerth ag amser llawn a benodwyd | 0 | 26 | 18 | 12 | 3 | 59 |
| | Cyfran sy'n fenywod (%) | 0 | 58 | 72 | 33 | 67 | 58 |
| | Cyfran lleiafrifoedd ethnig (%) | 0 | 38 | 22 | 8 | 0 | 25 |
| 2020-21 | Staff cyfwerth ag amser llawn a benodwyd | 0 | 8 | 8 | 15 | 2 | 33 |
| | Cyfran sy'n fenywod (%) | 0 | 75 | 38 | 56 | 0 | 53 |
| | Cyfran lleiafrifoedd ethnig (%) | 0 | 25 | 0 | 0 | 50 | 9 |
| 2019-20 | Staff cyfwerth ag amser llawn a benodwyd | 6 | 13 | 13 | 9 | 1 | 42 |
| | Cyfran sy'n fenywod (%) | 33 | 77 | 62 | 44 | 100 | 60 |
| | Cyfran lleiafrifoedd ethnig (%) | 0 | 15 | 9 | 13 | 0 | 10 |

Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r rhif llawn agosaf.

## Staff mewn swydd

| Math | 31 Mawrth 2023 | Dydd Iau 31 Mawrth 2022 | Dydd Iau 31 Mawrth 2021 | Dydd Iau 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 261 | 255 | 243 | 240 |
| Nifer staff asiantaeth ac ymgynghoriaeth | 9 | 16 | 10 | 8 |

## Gwybodaeth staff cyflogedig

| Maes | 31 Mawrth 2023 | Dydd Iau 31 Mawrth 2022 | Dydd Iau 31 Mawrth 2021 | Dydd Iau 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|
| *Staff cyfwerth ag amser llawn | 251 | 246 | 234 | 232 |
| Cyfran sy'n fenywod (%) | 49 | 52 | 52 | 50 |
| Cyfran lleiafrifoedd ethnig (%) | 22 | 21 | 16 | 15 |
| Cyfran sy'n anabl (%) | 5 | 3 | 3 | 3 |
| Aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil | 8 | 8 | 10 | 10 |
| Nifer y contractau tymor penodol ac achlysurol | 32 | 31 | 19 | 32 |
| Nifer y staff sy'n gweithio'n rhan amser | 37 | 34 | 33 | 28 |
| Trosiant staff (%) | 18 | 20 | 9 | 16 |

*Mae'r ffigur FTE wedi'i dalgrynnu i'r rhif llawn agosaf

## Presenoldeb mewn hyfforddiant staff (yn ôl grŵp ethnig)

| Grŵp ethnig(1) | 2022-23 | | 2021-22 | | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y dyddiau hyfforddiant | % | Nifer y dyddiau hyfforddiant | % | Nifer y dyddiau hyfforddiant | % | Nifer y dyddiau hyfforddiant(2) | % |
| Gwyn | | | | | | | | |
| Grwpiau ethnig eraill | | | | | | | | |
| Dim yn gwybod | | | | | | | | |
| Cyfanswm nifer y dyddiau hyfforddiant | | | | | | | | |

1. Ni wnaethom gasglu gwybodaeth ynglŷn â dyddiau hyfforddiant yn ôl grŵp ethnig.
2. Ni chasglwyd unrhyw wybodaeth am ddyddiau hyfforddiant gan Ofwat yn 2019-20, 2020-21, 2021-22 na 2022-23 (mae safle Dysgu blaenorol y Gwasanaeth Sifil wedi'i ddatgomisiynu ac ni allwn gyrchu hen gofnodion).

## Staff yn ôl rhyw

| Maes | 31 Mawrth 2023 | Dydd Iau 31 Mawrth 2022 | Dydd Iau 31 Mawrth 2021 | Dydd Iau 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 261 | 255 | 243 | 240 |
| Nifer y menywod | 128 | 133 | 126 | 123 |
| Nifer y dynion | 133 | 122 | 117 | 116 |
| Nifer heb eu dynodi | | | | 1 |

## Uwch Gyfarwyddwyr yn ôl rhyw*

| Maes | 31 Mawrth 2023 | Dydd Iau 31 Mawrth 2022 | Dydd Iau 31 Mawrth 2021 | Dydd Iau 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 7 | 7 | 9 | 10 |
| Nifer y menywod | 5 | 5 | 6 | 6 |
| Nifer y dynion | 2 | 2 | 3 | 4 |

* Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys rôl y Prif Weithredwr

## Aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil yn ôl rhyw

| Maes | 31 Mawrth 2023 | Dydd Iau 31 Mawrth 2022 | Dydd Iau 31 Mawrth 2021 | Dydd Iau 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 8 | 10 | 10 | 10 |
| Nifer y menywod | 5 | 7 | 7 | 7 |
| Nifer y dynion | 3 | 3 | 3 | 3 |

# A9 Cydymffurfiad Ofwat gyda dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

## Cefndir

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010) yn ei gwneud hi’n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried anghenion gwahanol grwpiau o unigolion wrth iddynt wneud eu gwaith bob dydd a bod â sylw dyladwy i’r angen i:

- ddileu gwahaniaethu;
- hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- meithrin perthynas dda rhwng gwahanol bobl.

Cefnogir y ddyletswydd cydraddoldeb gan ddyletswyddau penodol a nodir mewn rheoliadau. Mae'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, megis Ofwat, gyhoeddi gwybodaeth gymesur berthnasol sy'n dangos cydymffurfedd â'r ddyletswydd cydraddoldeb ac i osod amcanion cydraddoldeb penodol. Rydym yn nodi isod sut rydym wedi cydymffurfio â’r ddyletswydd hon yn 2022-23 yn ein gweithgareddau allanol a mewnol.

## Allanol

Mae ein strategaeth gorfforaethol, Amser i Weithredu, gyda’n gilydd, yn nodi ein disgwyliadau clir bod yn rhaid i'r sector dŵr weithredu i sicrhau bod anghenion amrywiol cwsmeriaid, ac yn enwedig y rheini sydd mewn amgylchiadau bregus, yn cael eu diwallu'n iawn. Ochr yn ochr ag aelodau eraill Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN), gwnaethom ymrwymo i addewidion amrwyiad a chynhwysiant UKRN i ysgogi newid a chodi safonau ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) o fewn y sector rydym yn ei reoleiddio. Mae mentrau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod EDI yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu cynigion ar gyfer amod trwydded cwsmer newydd. Mae’r cynigion yn nodi ein nod i gyflawni safonau uchel o wasanaeth cwsmeriaid a chefnogaeth ar gyfer yr amrywiaeth lawn o anghenion cwsmeriaid ar draws y sector dŵr.
- Adolygu pa ddata C-MeX rydym yn ei gasglu i roi mwy o fewnwelediad i ni i brofiad grwpiau gwahanol.
- Ystyried EDI wrth werthuso ein Cronfa Arloesi.
- Cyfarfodydd agored newydd ‘Eich dŵr, eich barn’, a gynhelir gan gwmnïau dŵr fel rhan o gynllunio PR24, a fydd yn helpu i ddyfnhau dealltwriaeth cwmnïau o gymunedau lleol a chynyddu lleisiau gwahanol.
- Parhau â’n hymchwil ein hunain, a gweithio mewn partneriaeth â CCW, i ddeall yn well anghenion a phrofiadau cwsmeriaid, gan gynnwys materion megis fforddiadwyedd.

- Annog cwmnïau i ystyried cydbwysedd sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth eu byrddau i sicrhau amrywiaeth a sut yr eir i'r afael ag anghenion rhanddeiliaid. Gwnawn hyn drwy ein hegwyddorion arweinyddiaeth bwrdd, tryloywder a llywodraethu.

Fel sefydliad, rydym yn helpu i ddatblygu cyfle cyfartal drwy fynediad at wybodaeth. Mae ein gwefan yn cydymffurfio â chanllawiau’r llywodraeth ar hygyrchedd, a chyflwynasom swyddogaeth newydd sy’n galluogi ein gwefan i gael ei chyfieithu i 12 o ieithoedd gwahanol, gan gynnwys Cymraeg. Yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb rydym hefyd yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cwsmeriaid anabl a fyddai fel arall yn cael anawsterau'n cysylltu â ni i wneud ymholiad neu gwyno. Mae gennym gynllun iaith Gymraeg ac rydym yn defnyddio system sgorio i nodi’n wrthrychol pa ddeunydd sydd angen cael ei gyhoeddi yn Gymraeg neu’n ddwyieithog. Am ragor o wybodaeth, gweler Atodiad A11.

## Mewnol

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn un o'r themâu yn ein Strategaeth Pobl a fydd yn helpu i wneud Ofwat yn Lle Gwych i Fod. Yn 2021, lansiwyd ein strategaeth EDI gyntaf, Bod yn Ni Ein Hunain. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i roi pedair piler ein strategaeth EDI ar waith: Addysgu, Esblygu, Ymgysylltu a Chymhwyso.

## Addysgu

- Cefnogi creu rhwydweithiau staff ar gyfer sgwrsio a chymuned ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, ac sy’n gynghreiriaid iddynt.
- Parhau i groesawu siaradwyr gwadd i siarad am wahanol agweddau ar EDI, yn ogystal â chynnal ein sesiynau poblogaidd ‘Elephant in the Room’ o bryd i’w gilydd, sy’n rhoi cyfle am sgyrsiau agored am faterion EDI.
- Cynnal amrywiaeth o hyfforddiant EDI, er enghraifft ar effaith y menopos, i gefnogi cydweithwyr yn y gweithle.
- Bydd parhau i gymhwyso ein Harweinwyr Pobl yn hanfodol i wreiddio EDI yn ein DNA.

## Esblygu

- Adeiladu ein proffil EDI allanol, gan gynnwys mwy o wybodaeth ar ein gwefan ac ar gyfryngau cymdeithasol.
- Cyhoeddi data ar ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd.

## Ymgysylltu

- Cryfhau ein hyrwyddwyr ‘Bod yn Ni ein Hunain’ gyda chadeirydd newydd wedi’i benodi o’r grŵp hyrwyddwyr.

- Cymryd rhan yn Rhwydwaith Menywod y sector dŵr i drafod meysydd o ddiddordeb cyffredin i fenywod sy'n gweithio yn y sector.
- Parhau i adeiladu partneriaethau allanol ac mae rhai o'r rhain i'w gweld yn y digwyddiadau yr ydym yn eu rhannu'n fewnol a'r siaradwyr sy'n cyfrannu at ein sesiynau 'Outside In'.
- Mae EDI bellach yn bwnc trafod rheolaidd gyda chwmnïau dŵr a rhanddeiliaid eraill yn y sector.

## Cymhwyso

- Cyflwyno cyfweliadau tryloyw: rhannu rhai cwestiynau cyfweliad ag ymgeiswyr ymlaen llaw.
- Dechrau gwaith ar ein prosiect Cynnig Gwerth Cyflogwr (EVP) i'n helpu i adnewyddu sut rydym yn hyrwyddo rolau'n allanol a'n helpu i adrodd straeon yn fewnol am ddiwylliant Ofwat.
- Mae opsiynau gweithio hyblyg, rhan-amser a rhannu swydd yn safonol erbyn hyn mewn pecynnau ymgeiswyr, gan gyfrannu at fwy o atyniad i'n rolau gan bobl â chyfrifoldebau gofalu, pobl ag anableddau, ymgeiswyr hŷn ac iau.

Rydym wedi edrych ar yr ymatebion i'r cwestiynau yn yr adran Cynhwysiant a Thriniaeth Deg o Arolwg Pobl blynyddol 2022. Y canlyniadau allweddol yw:

- Dywedodd 85% fod Ofwat yn cefnogi cynhwysiant a thriniaeth deg.
- Dywedodd 89% fod Ofwat yn parchu gwahaniaethau unigol megis diwylliant, cefndir neu syniadau.
- Dywedodd 92% o'n eu bod yn cael eu trin â pharch gan y bobl y maent yn gweithio â nhw.

# A10 Amser Undebau Llafur

Mae gofyn i ni adrodd amser Undebau Llafur yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Gwybodaeth am Amser Cyfleuster) 2017.

## Swyddogion undebau llafur perthnasol

Mae cyfanswm y cyflogwyr a oedd yn swyddogion undebau perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol wedi'i nodi isod

| Nifer cyflogwyr a oedd yn swyddogion undebau perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer cyflogwyr cyfwerth ag amser lawn |
|---|---|
| 4 | 3.8 |

## Canran yr amser a dreulir ar amser cyfleuster

Isod rydym yn nodi nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd yn ystod y cyfnod perthnasol a chanran eu horiau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster.

| Canran o'r amser | Nifer y cyflogeion |
|---|---|
| 0-0.99% | |
| 1-50% | 4 |
| 51%-99% | |
| 100% | |

## Canran y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster

Isod rydym yn nodi canran cyfanswm bil cyflog Ofwat a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol.

| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £8.6k |
|---|---|
| Cyfanswm bil tâl | £20,887K |
| Canran cyfanswm y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.04% |

## Gweithgareddau undebau llafur taledig

Isod rydym yn nodi nifer yr oriau a dreuliwyd gan gyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ar weithgareddau undeb llafur taledig fel canran o gyfanswm yr oriau cyfleuster â thâl.

| | |
|---|---|
| **Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undebau llafur taledig fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster taledig** | 0% |

# A11 Adroddiad y Gymraeg

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Mae Cynllun Iaith Gymraeg Ofwat yn disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled ag y gallwn, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

Mae ein cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Fe'i paratowyd o dan adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan adran 9 y Ddeddf. Daeth i rym ar 27 Medi 2007.

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae Ofwat wedi ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg. Mae hefyd yn nodi meysydd ar gyfer gwella.

## Ein Cynllun Iaith Gymraeg

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan. Gallwn argraffu copïau caled o'r cynllun ar gais yn y naill iaith neu'r llall.

Yn ystod 2022-23, gwnaethom dreialu a mabwysiadu offeryn newydd i sicrhau bod ein gwefan ar gael ar unwaith yn Gymraeg. Gwnaethom gyflwyno'r offeryn 'ReciteMe' ym mis Ionawr 2023 a byddwn yn adrodd ar ei ddefnydd yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio cyfieithu dynol lle mae angen i gyhoeddiad fod ar gael ar ffurf copi caled neu fformat y gellir ei lawrlwytho, er enghraifft, ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon.

Rydym hefyd yn cyhoeddi postiadau cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg i dynnu sylw at newyddion a chyhoeddiadau perthnasol.

## Trefniadau mewnol

Gweinyddir y Cynllun Iaith Gymraeg, fel y mae'n berthnasol i Ofwat, gan ein tîm Cyfathrebu. Mae gan y mesurau yn y Cynllun Iaith Gymraeg awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Er nad ydym wedi paratoi cynllun gweithredu manwl, ystyriwn ein hymrwymiad i'r cynllun yn un difrifol iawn. Er enghraifft, yn ystod 2022-23, gwnaethom barhau i ddefnyddio cyfieithwyr cymwys yn unig i'n cynorthwyo i gyflawni ein cynllun. Mae'r cyfieithwyr yr ydym yn eu defnyddio yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

## Monitro

Rydym yn monitro ein cynnydd o ran defnyddio'r Gymraeg drwy hunanasesu, fel y cytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

## Adolygu ac addasu'r cynllun

Yn dilyn gweithrediad llwyddiannus ein hofferyn 'ReciteMe' newydd, ein nod nawr yw ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn 2023-24.

## Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn 2022-23

### Gohebiaeth

Yn unol â'n cynllun, os bydd unrhyw un yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Gwnaethom dderbyn un neges e-bost a ysgrifennwyd yn Gymraeg yn ystod 2022-23.

### Cyfathrebu dros y ffôn

Yn ystod 2022-23, ni dderbyniwyd unrhyw ymholiadau dros y ffôn yn Gymraeg.

### Cyfarfodydd cyhoeddus

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus gennym yng Nghymru neu yn Lloegr yn ystod 2022-23.

### Cyfarfodydd â'r cyhoedd yng Nghymru

Ers sefydlu ein swyddfa yng Nghymru rydym wedi adeiladu ein hamlygrwydd a'n hymgysylltiad yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys clywed yn uniongyrchol gan gwsmeriaid drwy amrywiol ddigwyddiadau a drefnwyd gan gwmnïau yn ogystal â thrwy weithio'n agos gyda hyrwyddwyr cwsmeriaid Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. Mae'r mewnwelediadau a gafwyd o'r ymgysylltu hwn yn amhrisiadwy pan ystyrir hwy ochr yn ochr â'r ymchwil cwsmeriaid cydweithredol a gynhaliwyd ar gyfer PR24 yn ogystal ag ymchwil benodol arall yr ydym wedi'i chwblhau yn ystod y flwyddyn. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid allweddol yng Nghymru drwy amrywiaeth o fforymau, gan gynnwys Fforwm PR24 Cymru, Tasglu Ansawdd Afonydd Gwell Cymru a grŵp goruchwylio Afonydd ACA Cymru.

## Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

Nid ydym wedi cynnal ymchwil yng Nghymru yn unig yn ystod 2022-23.

Pan ein bod wedi cynnal ymchwil cwsmeriaid rydym wedi cynnwys samplau atgyfnerthu fel ein bod yn gallu adrodd ar wahân ar gyfer Cymru. Mae hyn yn cynnwys arolygon ar gostau byw, ac ymddiriedaeth a chanfyddiadau. Rydym wedi cyhoeddi setiau data ar gyfer Cymru ac, ar gyfer rhai adroddiadau, wedi cyfieithu'r canfyddiadau i Gymraeg.

Ers mis Ionawr 2023 gellir gweld ein holl adroddiadau yn Gymraeg.

## Ein hwyneb cyhoeddus

### Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd gennym yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru yn ystod 2022-23. Ni roddwyd chwaith unrhyw hysbysebion mewn papurau Saesneg gennym a gyhoeddir yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru.

### Cyhoeddiadau

Ers mis Ionawr 2023 mae ein gwefan a'n cyhoeddiadau wedi bod ar gaear unwaith yn Gymraeg ar-lein. Lle mae angen copi caled neu fformat y gellir ei lawrlwytho, byddwn yn parhau i gael ein cyhoeddiadau wedi'u cyfieithu ar wahân.

## Ystadegau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg Ofwat 2022-23

Fe wnaethom gynyddu nifer ein negeseuon trydar yn y Gymraeg yn 2022-23, ond lleihaodd nifer ein postiadau LinkedIn.

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Platfform cyfryngau cymdeithasol | Nifer y postiadau yn Gymraeg | Nifer y postiadau yn Gymraeg |
| Twitter | 58 | 51 |
| LinkedIn | 32 | 51 |

## Gwefan

Rydym wedi parhau i gynnal yr adran 'Cymraeg' ar wefan Ofwat.

Mae'r adran 'Cymraeg' yn rhoi gwybodaeth a dolenni i ddefnyddwyr Cymraeg i wefannau cwmnïau sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru: Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig.

Isod, rydym yn nodi'r nifer o weithiau yr edrychwyd ar bob un o'r tair tudalen yn yr adran 'Cymraeg' yn 2022-23 a chyfartaledd yr amser a dreuliodd defnyddwyr arnynt. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol er mwyn cymharu.

Rydym bellach wedi cyflwyno offeryn newydd i ganiatáu cyfieithu ein gwefan a'n cyhoeddiadau i'r Gymraeg ar unwaith. O'r flwyddyn nesaf byddwn yn adrodd ar y defnydd o'r teclyn newydd yn lle ymweliadau ag adran 'Cymraeg' ein gwefan.

### Adran 'Cymraeg' gwefan Ofwat: ystadegau defnydd 2022-23, 2021-21 a 2020-2020

| | 2022-23 | | 2021-22 | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalennau | Y nifer o weithiau yr edrychwyd ar y dudalen | Cyfartaledd yr amser a dreuliwyd ar y dudalen | Y nifer o weithiau yr edrychwyd ar y dudalen | Cyfartaledd yr amser a dreuliwyd ar y dudalen | Y nifer o weithiau yr edrychwyd ar y dudalen | Cyfartaledd yr amser a dreuliwyd ar y dudalen |
| Amdanom ni | 8 | 39 eiliad | 25 | 28 eiliad | 57 | 23 eiliad |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltu â ni | 12 | 4 eiliad | 25 | 24 eiliad | 61 | 9 eiliad |
| Cyhoeddiadau | 10 | 1 funud 41 eiliad | 47 | 2 funud 21 eiliad | 78 | 30 eiliad |

Byddwn yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau penodol gan Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o unrhyw gynllun datblygu hirdymor cyffredinol ar gyfer y wefan.

## Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Yn ystod 2022-23, ni chyhoeddom unrhyw hysbysiadau swyddogol neu hysbysiadau cyhoeddus parthed materion yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru. Mae'r hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddwyd gennym yn Gymraeg wedi'u nodi isod.

## Datganiadau i'r wasg a chysylltiad â'r cyfryngau

Yn ystod 2022-23 (a hyd at fis Ionawr 2023) gwnaethom gyhoeddi 11 datganiad i'r wasg yn y Gymraeg (o gymharu â saith yn 2020-21). Dosbarthwyd y rhain i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru.

Ers mis Ionawr 2023, mae pob un o'n datganiadau i'r wasg bellach ar gael i'w weld ar unwaith yn Gymraeg gan ddefnyddio ein hofferyn gwefan newydd.

## Gweithredu'r cynllun

### Staffio a recriwtio

Nid ydym fel arfer yn gofyn i ymgeiswyr am swyddi ddarparu gwybodaeth am eu sgiliau o ran y Gymraeg. Wrth recriwtio uwch swyddi rydym yn ymestyn ein cyrhaeddiad i fod yn gynhwysol ac yn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau recriwtio yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Yn 2023 rydym wedi hysbysebu ein swydd wag Uwch Gyfarwyddwr, Adolygiadau Prisiau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn yr un modd, fe wnaethom hysbysebu ein tair swydd wag Uwch Gyfarwyddwr arall (Perfformiad Sector, Gwaith Achos, Gorfodaeth a Chwsmeriaid a Phrosiectau Mawr a Marchnadoedd) yn Gymraeg a Saesneg.

Wrth recriwtio ar gyfer ein Rhaglen Datblygu Graddedigion 2023, fe wnaethom barhau i gynyddu ein hallgymorth i raddedigion i gynnwys Prifysgolion Cymru yn benodol Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Bangor.

### Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Ni fu unrhyw angen i ni ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg yn 2022-23 parthed y cynhyrchion neu'r gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yr ydym wedi eu cynllunio neu eu prynu.

Rydym yn galluogi pecyn Cymraeg ar gyfer cynnyrch Microsoft Office i nifer fach o ddefnyddwyr.

# A12 Tablau Craidd Cyffredin

## Tabl gwariant adrannol, 2017-18 i 2024-25,, cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

| | Alldro 2017-18 | Alldro 2018-19 | Alldro 2019-20 | Alldro 2020-21 | Alldro 2021-22 | Alldro 2022-23 | Cynlluniau 2023-24 | Cynlluniau 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau DEL: | | | | | | | | |
| Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | (396) | (888) | (410) | (344) | (900) | 173 | 160 | 160 |
| **Cyfanswm Adnoddau DEL** | **(396)** | **(888)** | **(410)** | **(344)** | **(900)** | **173** | **160** | **160** |
| o ba rai: | | | | | | | | |
| Costau staff | 15,562 | 17,672 | 21,083 | 19,951 | 19,671 | 20,963 | 28,566 | 26,863 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 7,933 | 10,728 | 11,194 | 7,779 | 7,706 | 9,934 | 22,079 | 23,229 |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | (266) | (258) | (113) | (105) | (80) | (79) | - | - |
| Pensiynau gwasanaeth cyhoeddus net (b) | 180 | 190 | 29 | 196 | 197 | 155 | 151 | 154 |
| Rhenti | 812 | 856 | 892 | 858 | 862 | 967 | - | - |
| Dibrisiad (a) | 212 | 253 | 249 | 306 | 297 | 597 | 1,043 | 1,139 |
| Defnydd darpariaethau | - | - | - | 419 | - | - | - | - |
| Rhyddhau darpariaeth | (18) | - | - | - | (95) | - | (215) | - |
| Dad-ddirwyn y gyfradd ddisgownt ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 79 | 966 | 71 | 44 | 30 | 18 | 150 | 160 |
| Rhyddhau darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau buddion pensiwn | (180) | (190) | (1,093) | (196) | (197) | (155) | (151) | (154) |
| Adnoddau eraill | (24,710) | (31,105) | (32,722) | (29,596) | (29,291) | (32,227) | (51,463) | (51,231) |
| Adnoddau AME: | | | | | | | | |
| Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Adnoddau AME** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm Cyllideb Adnoddau** | **(396)** | **(888)** | **(410)** | **(344)** | **(900)** | **173** | **160** | **160** |
| Cyfalaf DEL: | | | | | | | | |
| Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | 338 | 121 | 181 | 120 | 485 | 3,009 | 860 | 650 |
| **Cyfanswm Cyfalaf DEL** | **338** | **121** | **181** | **120** | **485** | **3,009** | **860** | **650** |
| Cyfalaf AME: | | | | | | | | |
| Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Cyfalaf AME** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm Cyllideb Cyfalaf** | **338** | **121** | **181** | **120** | **485** | **3,009** | **860** | **650** |
| Cyfanswm Gwariant Adrannol (c) | (270) | (1,020) | (478) | (530) | (712) | 2,585 | (23) | (329) |
| o ba rai: | | | | | | | | |
| Cyfanswm DEL | (270) | (1,020) | (478) | (530) | (712) | 2,585 | (23) | (329) |

*DEL – Terfyn Gwariant Adrannol; AME – Gwariant a Reolir yn Flynyddol

a). Yn cynnwys amhariadau

b) Cynlluniau pensiwn a adroddir o dan ofynion cyfrifyddu FRS 17. Mae'r ffigurau hyn felly'n cynnwys taliadau arian parod a wnaed a chyfraniadau a dderbyniwyd, yn ogystal â rhai eitemau nad ydynt yn arian parod. Yn yr un modd, cyfanswm DEL yw swm DEL y gyllideb adnoddau a DEL y gyllideb gyfalaf llai dibrisiant mewn DEL, a chyfanswm AME yw swm y gyllideb adnoddau AME a'r gyllideb gyfalaf AME llai dibrisiant mewn AME.

## Tabl cyllidebau gweinyddu, 2017-18 i 2024-25, cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

| | Alldro 2017-18 | Alldro 2018-19 | Alldro 2019-20 | Alldro 2020-21 | Alldro 2021-22 | Alldro 2022-23 | Cynllunia u 2023-24 | Cynlluniau 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau DEL: | | | | | | | | |
| Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | (396) | (888) | (410) | (344) | (900) | 173 | 160 | 160 |
| **Cyfanswm Cyllideb Gweinyddu** | **(396)** | **(888)** | **(410)** | **(344)** | **(900)** | **173** | **160** | **160** |
| o ba rai: | | | | | | | | |
| Costau staff | 15,562 | 17,672 | 21,083 | 19,951 | 19,671 | 20,963 | 28,566 | 26,863 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 7,933 | 10,728 | 11,194 | 7,779 | 7,706 | 9,934 | 22,079 | 23,229 |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | (266) | (258) | (113) | (105) | (80) | (79) | - | - |
| Pensiynau gwasanaeth cyhoeddus net | 180 | 190 | 29 | 196 | 197 | 155 | 151 | 154 |
| Rhenti | 812 | 856 | 892 | 858 | 862 | 967 | - | - |
| Dibrisiad | 212 | 253 | 249 | 306 | 297 | 597 | 1,043 | 1,139 |
| Defnydd darpariaethau | - | - | - | 419 | - | - | - | - |
| Rhyddhau darpariaeth | (18) | - | - | - | (95) | - | (215) | - |
| Dad-ddirwyn y gyfradd ddisgownt ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 79 | 966 | 71 | 44 | 30 | 18 | 150 | 160 |
| Rhyddhau darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau buddion pensiwn | (180) | (190) | (1,093) | (196) | (197) | (155) | (151) | (154) |
| Adnoddau eraill | (24,710) | (31,105) | (32,722) | (29,596) | (29,291) | (32,227) | (51,463) | (51,231) |

**Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran anweinidogol y llywodraeth. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.**

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gov.uk

E02925702
ISBN 978-1-5286-4178-4